Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

# o'r Canllawiau Cynllunio Strategol ar gyfer Ardal Adnoddau Naturiol Cenedlaethol Gwastadeddau Gwent (Polisi 9 Cymru'r Dyfodol)

Adroddiad Cwmpasu

Llywodraeth Cymru: Chwefror 2026

# Tabl Cynnwys


| Pennod | Pennawd/Is-bennawd | Rhif y Dudalen |
|---|---|---|
| **1** | **Cefndir Canllawiau Cynllunio Gwastadeddau Gwent a Diben Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig** | **4-17** |
| 1.1 | Cyflwyniad | 4-5 |
| 1.2 | Beth yw Canllawiau Cynllunio Peilot Gwastadeddau Gwent? | 5-6 |
| 1.3 | Beth yw Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig? | 6-8 |
| 1.4 | Beth yw'r berthynas rhwng Canllawiau Cynllunio Gwastadeddau Gwent, yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? | 9-16 |
| 1.5 | Sut mae Canllawiau Cynllunio Gwastadeddau Gwent yn ymwneud â chynlluniau a strategaethau eraill Llywodraeth Cymru? | 16-17 |
| 1.6 | A gaiff Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ei gynnal? | 17 |
| **2** | **Proses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd** | **18-27** |
| 2.1 | Camau ym Mhroses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd | 18-21 |
| 2.2 | Dull Integredig o Asesu Effaith | 22-27 |
| **3** | **CAM A1: Adolygiad o Gynlluniau, Rhaglenni ac Amcanion Amgylcheddol Perthnasol** | **28-33** |
| 3.1 | Cyflwyniad | 28-33 |
| **4** | **CAM A2 AC A3: Gwybodaeth Sylfaenol a Nodi Problemau a Chyfleoedd Allweddol sy'n Ymwneud â Chynaliadwyedd** | **34-42** |
| 4.1 | Cyflwyniad | 34-35 |
| 4.2 | Methodoleg | 35-42 |
| **5** | **CAM A4: Y Broses Arfarnu a Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig** | **43-54** |
| 5.1 | Y Broses Arfarnu | 43-44 |
| 5.2 | Datblygu Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig | 44-45 |
| 5.3 | Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig | 45-54 |
| 5.4 | Cydweddoldeb Mewnol Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig | 55-56 |
| 5.5 | Cwmpas yr Asesiadau Effaith Integredig yn ôl Amcan yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig | 57 |
| 5.6 | Cwmpas Pynciau'r Gyfarwyddeb AAS yn ôl Amcan yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig | 58 |
| **6** | **Y Camau Nesaf** | **59** |
| 6.1 | Cyffredinol | 59 |
| | **Atodiad A** | **60-149** |
| | **Atodiad B** | **150-192** |
| | Llyfryddiaeth (yn ychwanegol at y cyfeiriadau a restrir yn Atodiad A) | 193 |

## Rhestr o Ffigurau a Thablau


| Pennod | Ffigur/Tabl | Disgrifiad | Rhif y Dudalen |
|---|---|---|---|
| 1.3 | Ffigur 1-1 | Amlinelliad o Broses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a Chanllawiau Cynllunio Gwastadeddau Gwent | 7 |
| 1.4 | Tabl 1-1 | Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | 9-10 |
| 1.4 | Tabl 1-2 | Pum Ffordd o Weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | 11 |
| 1.4 | Tabl 1-3 | Sut mae'r Ffyrdd o Weithio yn Gymwys i'r Canllawiau Cynllunio | 12-16 |
| 2.1 | Ffigur 2-1 | Camau ym Mhroses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig | 20-21 |
| 2.2 | Tabl 2-1 | Crynodeb o'r Asesiadau Effaith a Sgriniwyd i mewn i'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig | 24-27 |
| 3.1 | Tabl 3-1 | Themâu Allweddol sy'n Deillio o'r Adolygiad o Gynlluniau, Polisïau a Rhaglenni Eraill | 29-33 |
| 4.2 | Tabl 4-1 | Problemau a Chyfleoedd Allweddol sy'n Ymwneud â Chynaliadwyedd | 36-42 |
| 5.3 | Tabl 5-1 | Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a Chwestiynau | 45-54 |
| 5.4 | Tabl 5-2 | Cydweddoldeb Mewnol Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig | 56 |
| 5.5 | Tabl 5-3 | Asesiadau Effaith Integredig a Phrif Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig | 57 |
| 5.6 | Tabl 5-4 | Pynciau'r Gyfarwyddeb AAS a Phrif Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig | 58 |
| **Atodiad B – Data Llinell Sylfaen Llawn** | | | |
| B | Ffigur B-1 | Cymarebau Cymudo Prifddinas-Ranbarth Caerdydd | 153 |
| B | Ffigur B-2 | Enghraifft o Gynefin o'r Pwysigrwydd Pennaf ar Wastadeddau Gwent | 157 |
| B | Tabl B-1 | Rhywogaethau mewn perygl ac eithrio systemau twyni | 160 |
| B | Ffigur B-3 | Rhai o'r Dynodiadau Ecolegol ar Wastadeddau Gwent | 162 |
| B | Ffigur B-4 | Hydroleg Gwastadeddau Gwent | 165 |
| B | Ffigur B-5 | Penderfynyddion Iechyd | 169 |
| B | Ffigur B-6 | Map o Fannau Amwynder Gwastadeddau Gwent | 171 |
| B | Ffigur B-7 | Amcangyfrifon o Boblogaeth Awdurdodau Lleol (2020-2023) | 173 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| B | Ffigur B-8 | Elfennau Newid ym Mhoblogaeth Awdurdodau Lleol (2022/23) | 174 |
| B | Ffigur B-9 | Oedran y Boblogaeth yn ôl Awdurdod Lleol (2023) | 175 |
| B | Ffigur B-10 | Prif Amcanestyniadau o Boblogaeth Awdurdodau Lleol (yn seiliedig ar 2018) | 176 |
| B | Ffigur B-11 | Lefelau Amddifadedd Awdurdodau Lleol (2019) | 178 |
| B | Tabl B-2 | Nifer y Tai a Gwblhawyd mewn Awdurdodau Lleol | 179 |
| B | Tabl B-3 | Cynigion Awdurdodau Lleol ar gyfer Darparu Tai mewn CDLlau Diwygiedig sy'n Datblygu | 180 |
| B | Ffigur B-12 | Asedau Treftadaeth Dynodedig ar Wastadeddau Gwent | 188 |


## Talfyriadau

| **Talfyriadau** | **Diffiniadau** |
|---|---|
| AAS | Asesiad Amgylcheddol Strategol |
| ACA | Ardal Cadwraeth Arbennig |
| AEA | Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol |
| AGA | Ardal Gwarchodaeth Arbennig |
| CDLl | Cynllun Datblygu Lleol |
| DECCA | Amrywiaeth, Cwmpas, Cyflwr, Cysylltedd a'r Gallu i Addasu |
| MALIC | Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru |
| PCC | Polisi Cynllunio Cymru |
| RSPB | Cymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar |
| SoDdGA | Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig |
| TWE | Talu am Wasanaethau Ecosystemau |

# 1. Cefndir Canllawiau Cynllunio Gwastadeddau Gwent a Diben Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

## 1.1 Cyflwyniad

1.1.1 Polisi 9 Cymru'r Dyfodol: Mae Cynllun Cenedlaethol 2040 yn nodi bod Gwastadeddau Gwent yn un o naw Ardal Adnoddau Naturiol Cenedlaethol ledled Cymru. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn paratoi canllawiau cynllunio peilot ar Wastadeddau Gwent a fydd yn ganllawiau cynllunio strategol ar gyfer Ardal Adnoddau Naturiol Cenedlaethol Gwastadeddau Gwent. Bydd y canllawiau cynllunio peilot yn helpu i gyflawni gofynion Polisi 9 drwy nodi a diogelu rhwydweithiau ecolegol gwydn ledled tirwedd Gwastadeddau Gwent. Ceir rhagor o wybodaeth am y canllawiau cynllunio ar wefan Llywodraeth Cymru.

1.1.2 Nod y canllawiau cynllunio yw helpu i wrthdroi dirywiad bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau ledled tirwedd Gwastadeddau Gwent yn ogystal â'u gwella. O ganlyniad, bydd gan y canllawiau rôl i'w chwarae o ran dylanwadu ar ddefnydd tir ar y Gwastadeddau yn y dyfodol. Felly, mae'n bwysig bod gennym dealltwriaeth gynhwysfawr o'r effeithiau cadarnhaol ac andwyol y gallai'r canllawiau hyn eu cael ar ffactorau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol sy'n benodol i'r Gwastadeddau. Er mwyn deall yr effeithiau posibl hyn a sicrhau bod y canllawiau cynllunio drafft yn gadarn ac yn ystyrlon a'u bod yn cyd-fynd â gofynion statudol, rydym yn llunio Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar yr un pryd. Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn darparu proses sy'n dangos pa ystyriaeth sydd wedi'i rhoi i'r cyfraniad y gallai'r canllawiau ei wneud at gyflawni saith nod llesiant cenedlaethol Cymru, a'i fod yn ymgorffori egwyddor datblygu cynaliadwy, y darperir ar ei chyfer gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig hwn yn seiliedig ar ddull sail dystiolaeth gynhwysfawr a'i nod yw sicrhau bod y canllawiau yn rhoi ystyriaeth briodol i ffactorau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol sy'n benodol i'r Gwastadeddau.

1.1.3 Cynhaliwyd yr asesiad hwn drwy fabwysiadu dull rhagofalus o ymdrin â'r angen am Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS). Ystyriodd swyddogion Ffigur 2: Cymhwyso'r Gyfarwyddeb AAS at Gynlluniau a Rhaglenni yn 'A Practical Guide to the Strategic Environmental Assessment Directive' a daethant i'r casgliad ei bod yn debygol iawn bod y Gyfarwyddeb yn ei gwneud yn ofynnol i AAS o'r canllawiau cynllunio gael ei gynnal.

1.1.4 Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu integreiddio asesiadau eraill y mae'n eu cynnal fel sefydliad wrth lunio ei chynlluniau, ei phrosiectau a'i ffrydiau gwaith ym mhroses yr AAS. Mae rhai o'r asesiadau hynny yn statudol, gan gynnwys asesiadau o'r effaith ar iechyd, y Gymraeg, Hawliau Plant a chydraddoldebau ac, felly, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig er mwyn cyfuno'r holl asesiadau hyn mewn un ddogfen.

## 1.2 Beth yw Canllawiau Cynllunio Peilot Gwastadeddau Gwent?

1.2.1 Mae Gwastadeddau Gwent yn cynnwys ardal fawr o lifwaddod aberol a adferwyd rhwng Afon Rhymni ac Afon Gwy yn ne-ddwyrain Cymru, a elwir gyda'i gilydd yn Wastadeddau Gwent. Mae'r tir yn cael ei groestorri gan rwydwaith o ffosydd draenio ('reens') a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru a ffosydd caeau llai o faint y mae'r tirfeddiannwr yn gyfrifol amdanynt. Caiff cwmpas canllawiau Cynllunio Gwastadeddau Gwent ei bennu fel rhan o'r broses o ddrafftio'r canllawiau eu hunain. At ddibenion y gwaith Cwmpasu hwn, mae ffin Partneriaeth y Lefelau Byw wedi'i defnyddio fel ffin ddangosol ar gyfer y Gwastadeddau gan ystyried hefyd yr ardal ychydig yn ehangach a oedd yn cael ei chwmpasu gan yr Ardal Ymchwilio Gychwynnol a ddefnyddiwyd fel rhan o'r gwaith Mapio Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn a arweiniwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Gwent Levels. Mapping Resilient Ecological Network core zones and nature recovery zones

1.2.2 Mae gan Wastadeddau Gwent lawer o ddynodiadau statudol ac anstatudol ar lefel Cymru, y DU ac Ewrop oherwydd eu bioamrywiaeth, eu tirwedd a'u tirwedd hanesyddol. Gan ystyried y dynodiadau hyn, mae'r Gwastadeddau yn chwarae rôl hollbwysig, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, o ran addasu i newid hinsawdd a'i liniaru a mynd i'r afael â'r argyfwng natur. Mae'r Gwastadeddau hefyd yn darparu cynefin ategol pwysig i Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Aber Afon Hafren, Afon Gwy ac Afon Wysg ac Ardal Gwarchodaeth Arbennig, Safle Ramsar a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Aber Afon Hafren.

1.2.3 Er gwaethaf y dynodiadau gwarchodol hyn, mae Gwastadeddau Gwent yn parhau i fod yn agored i waith datblygu (gan gynnwys cynlluniau ynni) yn bennaf oherwydd eu lleoliad rhwng ardaloedd trefol poblog iawn Caerdydd a Chasnewydd, eu topograffeg wastad, seilwaith da, cysylltedd â'r grid a chapasiti grid a'r diffyg mesurau rheoli tir cyson, hirdymor a phriodol. Gallai diraddio a darnio'r Gwastadeddau o ganlyniad i waith datblygu, a rhai arferion rheoli, gael effaith negyddol ar allu y SoDdGAau ar Wastadeddau Gwent i gyflawni eu swyddogaeth ecolegol arfaethedig, gan gyfrannu at golli bioamrywiaeth, gwydnwch bioamrywiaeth a'r gallu i wrthsefyll newid hinsawdd yn gyffredinol.

1.2.4 Yn ystod haf 2021, gwnaed ymrwymiad Gweinidogol i sicrhau bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid ar brosiect peilot er mwyn llunio canllawiau cynllunio cenedlaethol ar gyfer Gwastadeddau Gwent.  Ym Mholisi 9 Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040, nodir bod y Gwastadeddau yn Ardal Adnoddau Naturiol Cenedlaethol a fydd yn helpu i gyflawni gofynion Polisi 9 i ddiogelu a chreu rhwydweithiau ecolegol gwydn.

1.2.5 Ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi, dylid dilyn y canllawiau ochr yn ochr â Cymru'r Dyfodol a Pholisi Cynllunio Cymru (PCC) ac wrth lunio cynlluniau datblygu strategol a lleol ac wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ar Wastadeddau Gwent.

## 1.3 Beth yw Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig??

### 1.3.1 Arfarniad o Gynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)


1.3.2 Mae Asesiad o Gynaliadwyedd yn broses ar gyfer asesu effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd canllawiau cynllunio Gwastadeddau Gwent a'i nod yw sicrhau bod datblygu cynaliadwy wrth wraidd y gwaith o lunio'r canllawiau.  Er mwyn osgoi dryswch a dyblygu diangen, at ddibenion y canllawiau cynllunio hyn, mae'r Asesiad o Gynaliadwyedd yn ymgorffori gofynion cyfreithiol yr AAS ac, felly, drwy'r ddogfen hon, dylid hefyd ystyried bod cyfeiriadau at y term Asesiad o Gynaliadwyedd hefyd yn ymgorffori gofynion y Gyfarwyddeb AAS ac fel arall.  Mae'r AAS ar ei ben ei hun yn broses ar gyfer gwerthuso effeithiau amgylcheddol tebygol y canllawiau cynllunio er mwyn sicrhau bod materion amgylcheddol yn cael eu hintegreiddio a'u hasesu cyn gynted â phosibl ar gyfer y prosesau gwneud penderfyniadau ar gyfer fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a'r canllawiau cynllunio. Felly, mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn cynnwys gofynion penodol y Gyfarwyddeb AAS yn ogystal ag ystyried materion cynaliadwyedd yn fwy cyffredinol.

1.3.3. Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd/AAS yn broses iteraidd a pharhaus a chaiff camau a thasgau yn y broses hon eu hailystyried, eu diweddaru neu eu diwygio wrth i'r canllawiau ddatblygu er mwyn ystyried tystiolaeth newydd neu dystiolaeth wedi'i diweddaru yn ogystal ag ymatebion i'r ymgynghoriad.

1.3.4 Mae canllawiau a luniwyd gan Lywodraeth y DU (y cyfeirir atynt ym mharagraff 1.1.3) yn cyflwyno cyfres o gamau rhagnodedig ar gyfer AAS.  Mae'r camau hyn wedi'u haddasu ar gyfer yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig hwn er mwyn ymdrin â mwy na dim ond materion amgylcheddol.  Serch hynny, cynhelir egwyddorion a gofynion cyfreithiol y Rheoliadau AAS ac mae'r Adroddiad Cwmpasu hwn yn nodi ac yn esbonio gofynion penodol y Gyfarwyddeb AAS y bydd angen eu bodloni.

Dengys Ffigur 1-1 isod brif gamau proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a sut mae'r rhain yn cyd-fynd â'r broses ar gyfer llunio canllawiau cynllunio Gwastadeddau Gwent. Ceir esboniad manylach yn Adran 2 o'r Adroddiad Cwmpasu hwn.

Ffigur 1-1 Amlinelliad o Broses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a Chanllawiau Cynllunio Gwastadeddau Gwent




### 1.3.5 Pam rydym yn integreiddio asesiadau eraill?

1.3.6 Un o'r pum ffordd o weithio yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (gweler paragraff 1.4.7 isod) yw'r angen i fabwysiadu dull gweithredu integredig mewn perthynas â'r hyn a wnawn. Am fod yn rhaid i awdurdodau cynllunio ystyried canllawiau sy'n cael eu llunio ar gyfer Gwastadeddau Gwent, rydym wedi ceisio integreiddio ein dull o ymdrin â'r Arfarniad o Gynaliadwyedd/AAS ag asesiadau statudol ac anstatudol eraill. Mae hyn yn rhoi darlun mwy cyflawn i ni o'r goblygiadau a'r cyfleoedd posibl o ran cynaliadwyedd sy'n deillio o'r canllawiau cynllunio.

1.3.7 Mae'r asesiadau effaith statudol ac anstatudol ychwanegol canlynol wedi'u hymgorffori ym mhroses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig gyda rhagor o fanylion yn cael eu rhoi yn Adran 2 o'r Adroddiad Cwmpasu hwn:

- Hawliau Plant
- Cydraddoldebau
- Prawfesur Gwledig
- Rheoli Tir yn Gynaliadwy
- Ddeddf Iechyd a Diogelwch
- Datblygu Economaidd
- Y Gymraeg
- Newid Hinsawdd
- Bioamrywiaeth.

**1.3.8 Beth yw cam yr Adroddiad Cwmpasu o broses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig?**

1.3.9 Yr Adroddiad Cwmpasu hwn yw cam cychwynnol yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ac mae'n pennu cwmpas a'r fframwaith asesu ar gyfer gweddill y broses asesu. Mae wedi'i lywio gan weithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid ac mae'n dilyn y fethodoleg a nodir yn y canllawiau cyhoeddedig (ym mharagraff 1.1.3) ac yn ceisio gwneud y canlynol:

- Pennu cwmpas a lefel manylder yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig
- Nodi cynlluniau, polisïau, rhaglenni a mentrau perthnasol a fydd yn llywio proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a'r canllawiau cynllunio
- Nodi gwybodaeth berthnasol am y sefyllfa amgylcheddol, gymdeithasol, ddiwylliannol ac economaidd bresennol ar Wastadeddau Gwent. Os nad yw'r wybodaeth hon ar gael ar gyfer Gwastadeddau Gwent yn unig, yna mae wedi'i chasglu ar y lefel nesaf i fyny, sef lefel awdurdod lleol ac, yna, caiff ei hesbonio yng nghyd-destun tirwedd Gwastadeddau Gwent.
- Nodi problemau a chyfleoedd allweddol sy'n ymwneud â chynaliadwyedd
- Cyflwyno'r fframwaith ar gyfer yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig y gellir defnyddio hwn wedyn yn ei erbyn i arfarnu'r canllawiau cynllunio wrth iddynt gael eu datblygu.

## 1.4 Beth yw'r berthynas rhwng Canllawiau Cynllunio Gwastadeddau Gwent, yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?

1.4.1 Bydd canllawiau cynllunio peilot Gwastadeddau Gwent yn cefnogi ac yn gweithredu gofynion Polisi 9 yn Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 yn uniongyrchol. Dylai pob awdurdod lleol yng Nghymru ystyried y canfyddiadau, yr argymhellion a'r casgliadau yn y canllawiau hyn a sicrhau bod penderfyniadau a chynlluniau yn cyd-fynd â nhw. Yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yw un o'r prosesau a ddefnyddir i ddangos a llywio'r canllawiau cynllunio ac mae'n rhoi datblygu cynaliadwy wrth ei wraidd.

1.4.2 Cafodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gydsyniad brenhinol ym mis Ebrill 2015. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, ymgymryd â datblygu cynaliadwy er mwyn gwella llesiant Cymru. Diffinnir datblygu cynaliadwy yn y Ddeddf fel a ganlyn:

> Ystyr "datblygu cynaliadwy" yw'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy gymryd camau gweithredu, a hynny'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sydd â'r nod o gyflawni'r nodau llesiant.

1.4.3 Mae'r Ddeddf yn nodi sut y dylai cyrff cyhoeddus weithredu er mwyn sicrhau datblygu cynaliadwy a chyflawni'r broses o wella llesiant. Er bod llawer o bethau a all benderfynu ar ansawdd bywyd (neu lesiant) unigolyn, gellir eu dosbarthu'n fras yn ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd. Mae'r ffactorau hyn wedi'u nodi yn saith nod llesiant y Ddeddf ac fe'u nodir yn Nhabl 1-1 isod:

Tabl 1-1 Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

| Nod | Disgrifiad Byr |
|---|---|
| Cymru lewyrchus | Mae'r nod hwn yn canolbwyntio ar greu economi fywiog, arloesol a chynhyrchiol sy'n defnyddio adnoddau yn effeithlon ac yn gymesur, gyda phoblogaeth fedrus ac addysgedig. |
| Cymru gydnerth | Mae'r nod hwn yn pwysleisio cymdeithas a all addasu i newid, gan gynnwys newid hinsawdd, ac sy'n gwarchod ac yn gwella ecosystemau. |
| Cymru iachach | Mae'r nod hwn yn anelu at wella a diogelu llesiant corfforol a meddyliol pawb yng Nghymru. |
| Cymru sy'n fwy cyfartal | Mae'r nod hwn yn canolbwyntio ar greu cymdeithas lle mae pawb yn cael cyfle i gyflawni eu potensial, waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau. |

| | |
|---|---|
| Cymru o gymunedau cydlynus | Mae'r nod hwn yn hyrwyddo cymunedau deniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da y mae pobl yn teimlo eu bod yn perthyn iddynt. |
| Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Mae'r nod hwn yn ceisio hyrwyddo a diogelu diwylliant a threftadaeth Cymru a'r iaith, gan annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, mewn chwaraeon ac mewn gweithgareddau hamdden. |
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Mae'r nod hwn yn sicrhau bod Cymru yn ystyried effaith ei gweithredoedd ar lesiant byd-eang, gan gyfrannu at greu byd mwy cynaliadwy. |

**1.4.4 Pwysigrwydd Integreiddio'r Saith Nod Llesiant yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig**

1.4.5 Mae'r nodau llesiant wedi bod yn rhan hanfodol o'r broses o lunio'r Adroddiad Cwmpasu hwn, sy'n cynnwys y canlynol:

- Adolygu tystiolaeth
- Nodi problemau a chyfleoedd
- Strwythuro'r fframwaith asesu
- Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig.

1.4.6 Prif ganlyniad camau cyntaf y broses o ddatblygu Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yw datblygu amcanion Arfarnu Cynaliadwyedd y gellir asesu'r canllawiau cynllunio yn eu herbyn. Cymerwyd Amcanion Arfarnu Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (a elwir bellach yn Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040) fel y man cychwyn ac fe'u hadolygwyd, yn ôl yr angen, yn unol â nodau a diben arfaethedig y canllawiau cynllunio, y problemau allweddol sy'n ymwneud â chynaliadwyedd a'r dystiolaeth er mwyn llywio'r broses o ddatblygu amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig.

### 1.4.7 Ffyrdd o Weithio

1.4.8 Er mwyn cyflawni'r saith nod llesiant, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus weithredu mewn modd sy'n sicrhau y diwellir anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae'r egwyddor hon yn cynnwys y pum ffordd o weithio y mae'n ofynnol i bob corff cyhoeddus eu hystyried wrth ymgymryd â datblygu cynaliadwy. Mae Tabl 1-2 isod yn nodi'r pum ffordd o weithio ac yn eu hesbonio'n gryno:

Tabl 1-2 Pum Ffordd o Weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

| Ffyrdd o Weithio | Disgrifiad Byr |
|---|---|
| 1. Hirdymor | Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd. |
| 2. Integreiddio | Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. |
| 3. Cynnwys | Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu. |
| 4. Cydweithio | Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant. |
| 5. Atal | Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion. |

**1.4.9 Y Ffyrdd o Weithio a Chanllawiau Cynllunio Peilot Gwastadeddau Gwent**

1.4.10 Mae'r ffyrdd o weithio wedi bod yn rhan hanfodol o'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a'r gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma, yn ogystal â'r gwaith sydd o'n blaenau. Mae Tabl 1-3 isod yn ystyried sut mae'r ffyrdd o weithio yn llywio'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud o ran drafftio'r canllawiau cynllunio a sut y gall hyn helpu i sicrhau datblygu cynaliadwy.

Tabl 1-3 Sut mae'r Ffyrdd o Weithio yn Gymwys i'r Canllawiau Cynllunio

| **Hirdymor** |
|---|
| Datblygu Canllawiau Cynllunio |
| Er mwyn sicrhau ein bod yn ystyried yr hirdymor, bydd y canllawiau cynllunio yn rhoi gofynion Polisi 9 yn Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 ar waith, gyda fframwaith 14 blynedd arall ar ôl i'r canllawiau gael eu cyhoeddi, y disgwylir i hynny ddigwydd yn 2026.<br><br>Bydd y canllawiau hefyd yn cefnogi meddwl y tu hwnt i 2040 a byddant yn llywio'r adolygiad cyntaf o Cymru'r Dyfodol (Polisi 9).<br><br>Bydd y canllawiau hefyd yn defnyddio tystiolaeth a thueddiadau mwy diweddar ac yn ceisio deall eu canlyniadau a'u goblygiadau a sut y caiff hyn ei gymhwyso ar Wastadeddau Gwent ac, o bosibl, Ardaloedd Adnoddau Naturiol Cenedlaethol eraill (a nodir yn Cymru'r Dyfodol: Polisi 9) ledled Cymru.<br><br>Yn y pen draw, mae'r canllawiau cynllunio peilot yn ddogfen ofodol strategol hirdymor nad yw'n cael ei chyfyngu gan anghenion byrdymor. |
| Rôl yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig |
| Rôl yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yw ategu'r canllawiau yn yr hirdymor, y nodir y broses ar gyfer hynny ym mharagraff 1.3.9 o'r Adroddiad Cwmpasu hwn.<br><br>Bydd y fframwaith profi a fydd yn deillio o'r adroddiad hwn yn profi'r canllawiau sy'n cael eu datblygu ac yn asesu gallu'r canllawiau hynny i gyflawni amcanion hirdymor a sicrhau newid gofodol yn ogystal ag ystyried effeithiau byrdymor, tymor canolig a hirdymor. |
| **Integreiddio** |
| Datblygu Canllawiau Cynllunio |
| Mae'r canllawiau cynllunio peilot yn ddogfen genedlaethol a fydd yn nodi'n ofodol rwydweithiau ecolegol gwydn ar Wastadeddau Gwent, yn benodol, ac yn amlinellu proses ynghylch sut y gallai hyn gael ei gymhwyso at Ardal Adnoddau Naturiol Cenedlaethol eraill ledled Cymru. |

Bydd y broses o nodi Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn at ddibenion y canllawiau cynllunio hyn yn defnyddio asesiad seiliedig ar dystiolaeth, manwl a arweinir gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r dull a ddefnyddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi'r cysylltiadau rhwng problemau amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ar bob cam o'r broses fapio. Gwelir hyn o'r adroddiad, Gwent Levels Mapping Resilient Ecological Network core zones and nature recovery zones (*Gwent Levels. Mapping Resilient Ecological Network core zones and nature recovery zoness*).

| Rôl yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig |
|---|
| Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn ddull integredig o ddatblygu ac asesu'r canllawiau cynllunio er mwyn sicrhau y caiff dull gweithredu cyfannol ei fabwysiadu, gwybodaeth ei rhannu a chysylltiadau eu cydnabod rhwng gwahanol feysydd pwnc a nodau dilynol.<br><br>Mae proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn ymgorffori adolygiad o gynlluniau, rhaglenni ac amcanion amgylcheddol perthnasol ar lefel leol (lefel Gwastadeddau Gwent), lefel ranbarthol a lefel genedlaethol. Mae hyn yn ein galluogi ni, sef Llywodraeth Cymru, i nodi synergeddau a chyfleoedd, yn ogystal ag unrhyw anghysondebau a chyfleoedd. Mae prawf cydweddoldeb o'r fframwaith asesu hefyd wedi'i gynnal er mwyn sicrhau bod unrhyw achosion o wrthdaro yn cael eu nodi, eu datrys neu eu rheoli'n briodol yn Nhabl 5-2 o'r adroddiad hwn.<br><br>Nodir y dull integredig o ymdrin â'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn ddiweddarach yn yr Adroddiad Cwmpasu hwn (adran 2.2). |

| **Cynnwys** |
|---|
| Datblygu Canllawiau Cynllunio |
| Mae cynnwys rhanddeiliaid allweddol a phartneriaid lleol yn hanfodol i ddatblygu'r canllawiau cynllunio peilot.<br><br>Yn ogystal â'r cyfnod ymgynghori ffurfiol ar gyfer yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a'r canllawiau cynllunio drafft (y rhagwelir ar hyn o bryd yr ymgynghorir arnynt yn ystod gaeaf 2025/26), bu ymgysylltu helaeth a sylweddol drwy gydol y broses hyd yma yn bennaf â'r canlynol:<br><br>• Rhanddeiliaid statudol<br>• Awdurdodau lleol sy'n rhychwantu tirwedd Gwastadeddau Gwent (Caerdydd, Casnewydd a Sir Fynwy)<br>• Partneriaid lleol<br>• Elusennau a sefydliadau lleol |

Wrth i'r broses symud yn ei blaen, bydd y gweithgarwch ymgysylltu hwn yn parhau i fod yn nodwedd allweddol ochr yn ochr â'r cyfnod ymgynghori ffurfiol.

| Rôl yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig |
|---|
| Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn cynnig cyfle pwysig i bobl gymryd rhan yn y broses o lywio'r canllawiau cynllunio wrth iddynt ddatblygu.<br><br>Er mwyn casglu safbwyntiau allweddol a sicrhau y caiff asesiad cynhwysfawr ei gynnal, gwahoddwyd nifer o randdeiliaid i gyfrannu at fersiwn ddrafft o'r Adroddiad Cwmpasu dros gyfnod o bum wythnos yn unol â gofynion yr AAS. Mae diwygiadau priodol wedi cael eu gwneud i'r Adroddiad Cwmpasu gan ystyried yr ymatebion a gafwyd. Roedd y rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw ar yr Adroddiad Cwmpasu drafft yn cynnwys:<br><br>• Ymgyngoreion statudol fel sy'n ofynnol gan y Rheoliadau AAS:<br>    o Cyfoeth Naturiol Cymru<br>    o Cadw (Henebion Cymru)<br><br>• Ymgyngoreion anstatudol sydd â rôl o ran rhoi cyngor asesu integredig neu sydd â rôl o ran llunio'r canllawiau cynllunio:<br>    o Gweithgor Gwastadeddau Gwent (a oedd yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol a phartneriaethau lleol)<br>    o Polisi 9 Grŵp Gorchwyl a Gorffen<br>    o Asesiad Effaith Integredig cysylltiadau Llywodraeth Cymru (e.e. y Gymraeg ac iechyd)<br><br>• Ymhlith yr ymgyngoreion anstatudol yr ymgynghorwyd â nhw roedd:<br>    o Forestry Commission England<br>    o Asiantaeth yr Amgylchedd Lloegr<br>    o Historic England<br>    o Natural England<br>    o Y Sefydliad Rheoli Morol<br>    o Partneriaeth Aber Afon Hafren<br>    o Renewable UK Cymru<br>    o Solar Energy UK<br><br>Mae'r sylwadau a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad pum wythnos wedi llywio'r Adroddiad Cwmpasu terfynol hwn er mwyn sicrhau bod fframwaith ac asesiad cadarn wedi'u llunio.<br><br>Bydd camau o'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn y dyfodol yn parhau i ddatblygu ac ymgysylltu ag amrywiaeth o sefydliadau ac unigolion er mwyn |

sicrhau bod amrywiaeth o safbwyntiau yn parhau i gael eu casglu a'u bod yn helpu i lywio'r canllawiau cynllunio.

**Cydweithio**

Datblygu Canllawiau Cynllunio

Ni all y canllawiau cynllunio fynd i'r afael â phob un o'r problemau amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd y mae tirwedd Gwastadeddau Gwent yn eu hwynebu na'u lliniaru ar eu pen eu hunain. Fodd bynnag, bydd y canllawiau yn nodi pa broblemau y gall helpu i fynd i'r afael â nhw. Bydd y problemau hynny a phroblemau eraill yn dibynnu ar gydweithio rhwng partïon gwahanol er mwyn sicrhau cynaliadwyedd tirwedd Gwent yn y dyfodol, a hynny'n gyfannol. Bydd cyfle hefyd i'r canllawiau hwyluso ffrydiau gwaith a chamau gweithredu grwpiau a sefydliadau eraill er mwyn helpu i gyflawni'r nod cyffredinol o nodi a diogelu rhwydweithiau ecolegol gwydn ar Wastadeddau Gwent. Drwy helpu i gyflawni'r nod cyffredinol hwn, bydd y canllawiau cynllunio yn ceisio sicrhau'r canlyniadau mwyaf cadarnhaol posibl a chyflawni yn erbyn pob un o'r saith nod llesiant.

Bydd y canllawiau cynllunio yn llywio pob lefel o'r system gynllunio, o'r penderfyniad ar ddatblygiadau a chynigion unigol yn lleol ar Wastadeddau Gwent i gynnwys cynlluniau datblygu lleol a strategol ac yn genedlaethol, mewn adolygiadau o Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 a PCC yn y dyfodol.

Bydd y canllawiau cynllunio yn helpu unigolion a sefydliadau sydd â buddiant yn nhirwedd Gwastadeddau Gwent i lywio eu dyfodol.

Rôl yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

Mae proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ym mharagraff 1.3.9) wedi nodi problemau a chyfleoedd allweddol y gallai'r canllawiau cynllunio fynd i'r afael â nhw. Yn dilyn ymgysylltu a chydweithredu parhaus â rhanddeiliaid a defnyddwyr terfynol, efallai y bydd angen i'r dystiolaeth yn yr Adroddiad Cwmpasu hwn gael ei diwygio a'i diweddaru, yn ôl yr angen. Bydd unrhyw ddiweddariadau neu ddiwygiadau yn llywio Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig y caiff y canllawiau cynllunio eu profi ymhellach yn ei erbyn.

**Atal**

Datblygu Canllawiau Cynllunio

Y system gynllunio yw un o'r dulliau allweddol a ddefnyddir gan y Llywodraeth i nodi materion neu broblemau sy'n ymwneud â defnydd tir nawr ac yn y dyfodol a chymryd camau i fynd i'r afael â nhw, er mwyn iddynt gael eu hosgoi neu eu lliniaru. Mae hefyd yn darparu ar gyfer nodi cyfleoedd i ddiogelu a gwella gwydnwch rhwydweithiau ecolegol a gwasanaethau ecosystemau. Bydd y

| |
|---|
| canllawiau cynllunio yn nodi problemau a chyfleoedd ar Wastadeddau Gwent ac yn alinio'r system gynllunio yn genedlaethol (drwy Cymru'r Dyfodol, PCC a'r canllawiau eu hunain), yn rhanbarthol drwy Gynlluniau Datblygu Strategol ac yn lleol (drwy CDLlau) er mwyn mynd i'r afael â nhw. Cryfder y system gynllunio ac, yn benodol, y canllawiau cynllunio gofodol hyn ar Wastadeddau Gwent yw y gall ymyrryd dros yr hirdymor i gydgysylltu canlyniadau penderfyniadau ynghylch defnydd tir er mwyn sicrhau newid cadarnhaol. Mae'r canllawiau yn gwneud hyn am fod gofyniad cyfreithiol i wneud penderfyniadau cynllunio, a llunio cynlluniau datblygu, sy'n cyd-fynd â Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 yn uniongyrchol. Priodolir y canllawiau sy'n cael eu llunio ar gyfer Gwastadeddau Gwent i Cymru'r Dyfodol (Polisi 9) ac, felly, bydd angen gwneud penderfyniadau cynllunio, a bydd angen llunio cynlluniau datblygu, yn unol â'r canllawiau.<br><br>Bydd canllawiau cynllunio Gwastadeddau Gwent yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn destun rhaglen monitro ac adolygu barhaus er mwyn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran cyflawni amcanion ac unrhyw ymyriad, os bydd angen. Dylai dolen i'r gwaith mapio rhwydweithiau ecolegol gwydn ar gyfer Gwastadeddau Gwent (a gynhelir ar Fap Data Cymru gan Cyfoeth Naturiol Cymru) gael ei chynnwys yn y canllawiau ac mae'n bosibl y caiff y gwaith mapio hwn ei ddiweddaru'n amlach gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn dibynnu ar yr amgylchiadau yn y dyfodol. |
| Rôl yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig |
| Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn seiliedig ar dystiolaeth ac mae'n bwydo drwy'r Adroddiad Cwmpasu i lywio Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Mae'r adolygiad o'r dystiolaeth hon yn nodi problemau a chyfleoedd allweddol i'w hystyried gan y canllawiau cynllunio ac yn sicrhau bod y canllawiau yn osgoi canlyniadau negyddol ac yn gwella rhai cadarnhaol, lle y bo'n bosibl. Bydd nodi problemau a thueddiadau ar gam cynnar yn yr Adroddiad Cwmpasu hwn yn llywio amcanion Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a chwestiynau sy'n hwyluso penderfyniadau a fydd, yn ei dro, yn helpu i lywio'r canllawiau sy'n datblygu. |

## 1.5 Sut mae Canllawiau Cynllunio Gwastadeddau Gwent yn ymwneud â chynlluniau a strategaethau eraill Llywodraeth Cymru?

1.5.1 Yn ogystal â helpu i gyflawni'r nodau llesiant, bydd y canllawiau cynllunio yn chwarae rôl bwysig wrth helpu i gyflawni polisïau a strategaethau amgylcheddol allweddol yn (ymhlith eraill):

- Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 (Polisi 9)
- PCC (Pennod 6)
- Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru

- Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru
- Argymhellion Plymio Dwfn Bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru
- Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru
- Canllaw Llywodraeth Cymru ar Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy.

1.5.2 Crynhoir dogfennau allweddol eraill a adolygwyd yn ddiweddarach yn yr Adroddiad Cwmpasu hwn yn Atodiad A.

## 1.6 A gaiff Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ei gynnal?

1.6.1 Mae Cyfarwyddeb 92/43/EEC y Cyngor Ewropeaidd ar gadwraeth cynefinoedd naturiol a fflora a ffawna gwyllt (y 'Gyfarwyddeb Cynefinoedd') yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gynllun neu raglen sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar safle Natura 2000 (yn yr achos hwn ACA Aber Afon Hafren, AGA Aber Afon Hafren a safle Ramsar Aber Afon Hafren ynghyd ag ACA Afon Wysg ac ACA Afon Gwy), nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â rheoli'r safle ar gyfer cadwraeth natur, fod yn destun Asesiad Priodol. Troswyd y Gyfarwyddeb i gyfraith Cymru drwy'r Rheoliadau Cynefinoedd a chyfeirir at y broses gyffredinol fel Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

1.6.2 Ystyrir y tebygolrwydd o effeithiau arwyddocaol (a elwir yn sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd) er mwyn nodi a allai'r canllawiau cynllunio gael effaith niweidiol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000, eu hamcanion cadwraeth a'u buddiannau cymhwyso. Mae hyn yn debygol o gael ei wneud yn ystod Hydref/Gaeaf 2025/26. Caiff canlyniadau'r adroddiad sgrinio eu hystyried a'u hintegreiddio, lle y bo angen, yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, fel rhan o'r broses iteraidd.

# 2. Proses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd

## 2.1 Camau ym Mhroses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd

2.1.1 Mae'r *Practical Guide to the SEA Directive* (dolen ym mharagraff 1.1.3) yn isrannu proses yr AAS yn gyfres o gamau. Caiff y camau hyn eu hadlewyrchu yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig hwn gyda gwybodaeth ychwanegol yn cael ei darparu er mwyn sicrhau bod pob un o'r asesiadau integredig yn cael eu hymgorffori. Mae Ffigur 2-1 yn cyflwyno camau allweddol yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ac yn nodi pa asesiadau a gaiff eu hintegreiddio fel rhan o'r broses.

2.1.2 I grynhoi, bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn cynnwys y broses ganlynol:

**2.1.3 Cam A: Pennu'r Cyd-destun a'r Amcanion, Nodi'r Llinell Sylfaen a Phenderfynu ar y Cwmpas (*Yr Adroddiad hwn*)**

2.1.4 Yr adroddiad hwn yw cam Cwmpasu proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Mae'r cam hwn yn darparu'r sail ar gyfer ymgymryd â chamau dilynol yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Bydd yr adolygiad o gynlluniau, polisïau a rhaglenni perthnasol eraill a datblygiad amcanion cynaliadwyedd yn nodi'r cyd-destun y caiff y canllawiau cynllunio eu hasesu o'i fewn. Er mwyn rhagfynegi sut y gallai'r canllawiau cynllunio effeithio ar ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd, mae'n bwysig deall y sefyllfa bresennol o ran y ffactorau hyn yn gyntaf ac, yna, ystyried eu datblygiad tebygol os na chaiff y canllawiau eu rhoi ar waith. Yna, caiff y llinell sylfaen hon ei dadansoddi, er mwyn nodi'r problemau allweddol sy'n ymwneud â chynaliadwyedd a fydd yn llywio'r canllawiau sy'n datblygu a'r cyfleoedd y gallai'r canllawiau ddylanwadu arnynt. Yn dilyn hyn, byddai Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig wedi'i sefydlu er mwyn nodi set o amcanion a chwestiynau allweddol a ddefnyddir i asesu'r canllawiau sy'n datblygu a sut y gallent wella ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd, yng nghyd-destun y nodau llesiant.

2.1.5 Bydd proses ymgynghori'r Adroddiad Cwmpasu yn helpu i fireinio'r gwaith hwn a llunio Fframwaith Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig sy'n effeithiol o ran arfarnu'r canllawiau.

**2.1.6 Camau B1 a B2: Datblygu a Mireinio Opsiynau Amgen ac Asesu Effeithiau (*Y Cam Nesaf*)**

2.1.7 Yn dilyn yr ymgynghoriad Cwmpasu, bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn symud i Gam B a bydd hyn yn cynnwys asesu unrhyw opsiynau amgen ac opsiynau a ffefrir ar gyfer cynigion yn y canllawiau, a fesurir yn erbyn Fframwaith sefydledig yr

Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Bydd yr asesiad o'r opsiynau yn nodi'r rhai sydd fwyaf a lleiaf cynaliadwy yn erbyn yr amcanion, gydag argymhellion yn cael eu gwneud ar gyfer gwelliannau neu opsiynau amgen, os yw'n briodol. Bydd y broses hon yn llywio'r opsiynau a ddatblygir ac yr ymgynghorir arnynt yng ngham nesaf y broses a'r broses o nodi'r opsiwn a ffefrir.

**2.1.8 Camau B3, B4, B5 a B6: Rhagfynegi a Gwerthuso Effeithiau'r Canllawiau Cynllunio Drafft, gan gynnwys Opsiynau Amgen**

2.1.9 Ar ôl i'r opsiwn (opsiynau) a ffefrir gael ei ddatblygu (eu datblygu), y cam hwn yn y broses yw gwerthuso'r effeithiau arwyddocaol a ragwelir. Mae'r gwerthusiad yn cynnwys llunio barn ynghylch a fyddai'r effeithiau a ragwelir yn arwyddocaol ai peidio. Mae Camau B5 a B6 yn hanfodol i'r broses hon ac maent yn cynnwys argymhellion ar gyfer gwella canlyniadau ac, o bosibl, fonitro effeithiau arwyddocaol a ragwelir.

**2.1.10 Camau C a D – Adroddiad Drafft ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ac Ymgynghoriad**

2.1.11 Ar y cam hwn, cyhoeddir Adroddiad drafft ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (Cam C) i gyd-fynd â'r ymgynghoriad ar y fersiwn ddrafft o'r canllawiau cynllunio peilot ar gyfer Gwastadeddau Gwent (Cam D), a ddisgwylir ar hyn o bryd yn ystod gaeaf 2025/26.

2.1.12 Yn dilyn yr ymgynghoriad ar y canllawiau cynllunio drafft, caiff yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig eu diweddaru er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau sylweddol oherwydd yr ymgynghoriad (parhad Cam D). Yna, caiff Adroddiad terfynol ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ei lunio i gyd-fynd â'r Canllawiau Cynllunio Peilot cyhoeddedig ar gyfer Gwastadeddau Gwent yn ddiweddarach yn 2026.

### 2.1.13 Cam E: Monitro Effeithiau Arwyddocaol y Canllawiau Cynllunio

2.1.14 Mae'r cam hwn yn cynnwys cwblhau fframwaith monitro a ddefnyddir i nodi materion cadarnhaol a negyddol ac effeithiau arwyddocaol y canllawiau cynllunio dros amser. Yn dilyn cyhoeddi'r canllawiau, efallai y caiff Datganiad Ôl-fabwysiadu Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ei lunio, ochr yn ochr â Datganiad o Fanylion Amgylcheddol, gan roi manylion ar y ffordd y mae proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig wedi dylanwadu ar ddatblygiad y canllawiau cynllunio, yr effeithiau arwyddocaol a ragwelir a'r fframwaith monitro.

Ffigur 2-1 Camau ym Mhroses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

| Asesiadau Integredig | Camau'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig |
|---|---|
| Sgrinio ar gyfer Hawliau Plant, Cydraddoldebau, Prawfesur Gwledig, Rheoli Tir yn Gynaliadwy, Iechyd, Datblygu Economaidd, y Gymraeg, Economaidd-gymdeithasol, Newid Hinsawdd, Bioamrywiaeth, Cyfiawnder, Preifatrwydd ac Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol | **Sgrinio Arfarniad o Gynaliadwyedd/AAS**<br><br>A oes angen Arfarniad ffurfiol o Gynaliadwyedd sy'n bodloni'r Rheoliadau AAS? |
| Mae gwaith cwmpasu a chasglu tystiolaeth ar gyfer pob un o'r canlynol wedi'i ymgorffori ym mhob cam o broses Gwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig:<br><br>Sgrinio ar gyfer Hawliau Plant, Cydraddoldebau, Prawfesur Gwledig, Rheoli Tir yn Gynaliadwy, Iechyd, Datblygu Economaidd, y Gymraeg, Economaidd-gymdeithasol, Newid Hinsawdd a Bioamrywiaeth<br><br>Sgriniwyd allan Gyfiawnder, Preifatrwydd ac Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol fel y nodir ym mharagraff 2.2.7 o'r adroddiad hwn | **Cam A: Cwmpasu**<br><br>A1: Nodi cynlluniau, rhaglenni ac amcanion diogelu'r amgylchedd perthnasol eraill<br>A2: Casglu gwybodaeth sylfaenol<br>A3: Nodi problemau o ran cynaliadwyedd<br>A4: Datblygu Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig<br>A5: Ymgynghori ar yr Adroddiad Cwmpasu |
| Mae mewnbwn i ddatblygu opsiynau amgen ac asesu effeithiau ar gyfer pob un o'r canlynol wedi'i ymgorffori ym mhob cam o'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig Cam B drwy Fframwaith yr | **Cam B: Datblygu a mireinio opsiynau amgen ac asesu effeithiau**<br><br>B1: Profi amcanion canllawiau Gwastadeddau Gwent yn erbyn |

| | |
|---|---|
| Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a mewnbwn arbenigol:<br><br>Sgrinio ar gyfer Hawliau Plant, Cydraddoldebau, Prawfesur Gwledig, Rheoli Tir yn Gynaliadwy, Iechyd, Datblygu Economaidd, y Gymraeg, Economaidd-gymdeithasol, Newid Hinsawdd a Bioamrywiaeth | amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig<br>B2: Datblygu opsiynau amgen strategol<br>B3: Rhagfynegi effeithiau'r canllawiau gan gynnwys opsiynau amgen<br>B4: Gwerthuso effeithiau'r canllawiau gan gynnwys opsiynau amgen<br>B5: Ystyried ffyrdd o liniaru effeithiau niweidiol a sicrhau'r manteision mwyaf posibl<br>B6: Cynnig mesurau i fonitro effeithiau rhoi canllawiau ar waith |
| Yr asesiad o'r uchod i'w gofnodi yn yr Adroddiad ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig | **Cam C: Llunio Adroddiad Drafft ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig**<br><br>Llunio Adroddiad ffurfiol ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a Chrynodeb Annhechnegol er mwyn cofnodi canfyddiadau'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o'r canllawiau cynllunio drafft |
| Ymgynghori ar yr asesiadau uchod fel rhan o'r Adroddiad Drafft ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig<br><br>Diweddaru'r asesiad o'r uchod fel rhan o'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o'r canllawiau cynllunio terfynol a'r adroddiad yn yr Adroddiad terfynol ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig | **Cam D: Ymgynghori ar yr Adroddiad drafft ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ac asesu newidiadau sylweddol**<br><br>D1: Ymgynghori ar yr Adroddiad ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig<br>D2: Asesu newidiadau sylweddol a wnaed i'r canllawiau cynllunio terfynol a diweddaru'r Adroddiad ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig<br>D3: Datganiad Ôl-fabwysiadu a Datganiad o Fanylion |
| Monitro effeithiau arwyddocaol yr asesiadau uchod fel rhan o waith Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig | **Cam E: Monitro Effeithiau Arwyddocaol Canllawiau Cynllunio Gwastadeddau Gwent** |

## 2.2 Dull Integredig o Asesu Effaith

2.2.1 Mae adran 1 o'r adroddiad hwn yn nodi, yn ogystal â'r AAS ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd posibl (ni phenderfynwyd eto a oes angen ei gynnal), y bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn integreiddio cyfres o asesiadau effaith. Nodir manylion y dull o ymdrin â'r asesiadau effaith yn ddiweddarach yn yr Adroddiad Cwmpasu hwn ac mae'n cydnabod y penderfynyddion ehangach sy'n gorgyffwrdd rhwng y gwahanol asesiadau effaith ac yn ein galluogi i edrych ar hyn mewn modd cyfannol.

2.2.2 Mae rhai o'r asesiadau effaith yn statudol ac mae eraill yn ofynnol gan Lywodraeth Cymru fel y nodir isod:

**2.2.3 Asesiadau Effaith Statudol:**

1. **Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant:** Mae'n ofynnol i Weinidogion roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau
2. **Asesiad Effaith Rheoleiddiol:** Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod Dyletswydd Cydraddoldeb Cyffredinol ar awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, i roi 'sylw dyladwy' i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth, yn ogystal â hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cydberthnasau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn rhannu nodwedd warchodedig.
3. **Asesiad Effaith ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy:** Mae gofyniad cyfreithiol, pryd bynnag y mae Gweinidogion Cymru yn rheoleiddio neu'n darparu cymorth ar gyfer amaethyddiaeth, gweithgareddau eraill a gynhelir ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth neu weithgareddau ategol, fod yn rhaid iddynt wneud hynny yn unol â'r ddyletswydd Rheoli Tir yn Gynaliadwy.
4. **Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg:** Mae gan Lywodraeth Cymru rwymedigaeth statudol i ystyried yn llawn yr effeithiau ar y Gymraeg. Mae hyn yn golygu ystyried y Gymraeg ym mhopeth a wnawn. Ystyried effeithiau cadarnhaol a negyddol ein gwaith ar y Gymraeg a phobl a chymunedau Cymraeg eu hiaith.
5. **Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth:** Cyflwynodd adran 6 yn Rhan 1 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau uwch (dyletswydd adran 6) ar gyfer awdurdodau cyhoeddus (fel y'u rhestrir yn adran 6(9) o'r Ddeddf), gan gynnwys Gweinidogion Cymru, wrth arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â Chymru. Mae dyletswydd adran 6 yn nodi bod yn rhaid i Weinidogion Cymru geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer

eu swyddogaethau'n briodol ac, wrth wneud hynny, hyrwyddo gwydnwch ecosystemau.

**2.2.4 Asesiadau sy'n Ofynnol gan Lywodraeth Cymru:**

1. **Asesiad Effaith Prawfesur Gwledig:** Prawfesur gwledig yw un o ymrwymiadau Llywodraeth Cymru, sy'n seiliedig ar egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol, cynaliadwyedd, cydraddoldeb a thegwch, ac sy'n cynnwys camau gweithredu i wella ansawdd bywyd ar gyfer y rhai sy'n byw yn ein cymunedau gwledig yng Nghymru.
2. **Asesiad o'r Effaith ar Iechyd:** Mae'r asesiad hwn yn ystyried sut y gall cam gweithredu arfaethedig, p'un a yw'n bolisi, rhaglen, cynllun neu newid i drefniadaeth gwasanaeth cyhoeddus neu'r ffordd y'i darperir, effeithio ar iechyd a llesiant poblogaeth.
3. **Asesiad o'r Effaith ar y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol:** Mae'r Ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, wrth wneud penderfyniadau strategol, roi sylw dyladwy i'r angen i leihau anghydraddoldeb canlyniadau sy'n deillio o anfanteision economaidd-gymdeithasol.
4. **Asesiad o'r Effaith Economaidd:** Mae'r asesiad hwn yn bwysig i ddeall effaith deddfau neu bolisïau arfaethedig neu gamau gweithredu arfaethedig eraill ar fusnesau ac ar y sector preifat, y trydydd sector a'r sector gwirfoddol yng Nghymru
5. **Asesiad o'r Effaith ar Newid Hinsawdd:** Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y bydd polisi yn effeithio ar allyriadau nwyon tŷ gwydr a sut y gallai patrymau tywydd sy'n newid oherwydd newid hinsawdd effeithio ar y ffordd y caiff ei roi ar waith.

2.2.5 Mae pob un o'r 10 asesiad effaith a nodwyd uchod wedi'u sgrinio i mewn a'u hintegreiddio yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Mae pob asesiad wedi'i sgrinio er mwyn nodi a allai'r canllawiau cynllunio gael effaith bosibl ar gyfer yr asesiad penodol hwnnw, a rhoddir crynodeb o'r canfyddiadau yn Nhabl 2-1 isod. Caiff y canfyddiadau cychwynnol hyn eu hystyried ymhellach a'u hasesu yng Ngham B o broses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig fel y nodir yn Ffigur 2-1.

**2.2.6 Asesiadau a Sgriniwyd Allan**

2.2.7 Mae tri asesiad effaith arall wedi'u sgrinio ac ystyrir nad yw'r canllawiau cynllunio yn effeithio ar yr asesiadau hyn, ac am nad oes unrhyw ofyniad cyfreithiol i'w cynnal, maent wedi'u sgrinio allan o'r broses. Fodd bynnag, bydd hyn yn cael ei adolygu'n barhaus:

- **Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder:** Nid oes i'r canllawiau cynllunio unrhyw oblygiadau cyfreithiol am nad ydynt yn gyfystyr â deddfwriaeth sylfaenol newydd nac yn creu, yn dileu nac yn diwygio trosedd.

- **Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd:** Nid yw'r canllawiau cynllunio yn cynnwys defnyddio data personol
- **Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol:** Mae angen cynnal asesiad o'r effaith amgylcheddol ar gyfer prosiectau a datblygiadau adeiledig mawr sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd. Mae Atodiad I ac Atodiad II i'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn nodi'r prosiectau hyn, sy'n cynnwys, ymhlith pethau eraill, ddatblygiad tai a phrosiectau seilwaith mawr, megis traffyrdd neu orsafoedd pŵer. Nid yw Canllawiau Cynllunio Gwastadeddau Gwent yn perthyn i'r naill na'r llall o'r categorïau hyn. At hynny, dylai unrhyw effeithiau amgylcheddol posibl y gallai'r canllawiau cynllunio eu cael gael eu nodi drwy'r Arfarniad o Gynaliadwyedd/AAS sydd eisoes wedi'i ymgorffori yn Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig.

Tabl 2-1 Crynodeb o'r Asesiadau Effaith a Sgriniwyd i mewn i'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

| Asesu Effaith | Crynodeb o Ganlyniadau'r Gwaith Sgrinio |
|---|---|
| **1. Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant** | Ar y cam cynnar hwn, daethpwyd i'r casgliad y gallai'r canllawiau cynllunio effeithio ar hawliau plant.<br><br>Mae'r Erthyglau yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) wedi'u hadolygu a nodwyd mai'r erthyglau canlynol yw'r rhai mwyaf perthnasol hyd yma sy'n ymdrin yn fras ag iechyd, addysg ac anabledd plant:<br><br>• Erthygl 2 – dim gwahaniaethu<br>• Erthygl 6 – bywyd, goroesi a datblygu<br>• Erthygl 12 – parch tuag at farn y plentyn<br>• Erthygl 13 – rhyddid mynegiant<br>• Erthygl 15 – rhyddid i ymgynnull<br>• Erthygl 23 – plant ag anabledd<br>• Erthygl 24 – iechyd a gwasanaethau Iechyd<br>• Erthygl 27 – safon byw ddigonol<br>• Erthygl 28 – hawl i addysg<br>• Erthygl 29 – nodau addysg<br>• Erthygl 31 – hamdden, chwarae a diwylliant<br>• Erthygl 42 – gwybodaeth am hawliau<br><br>Mae sylwadau Cloi CCUHP ar chweched a seithfed adroddiad cyfnodol cyfun Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon hefyd wedi'u hadolygu a nodwyd bod adran 45 yn berthnasol am ei bod yn ymdrin â newid hinsawdd a llygredd. |

| | |
|---|---|
| | Mae canfyddiadau'r gwaith cwmpasu hwn wedi nodi sut y gallai'r canllawiau hyrwyddo erthyglau CCUHP. Gellid gwneud hyn, o bosibl, drwy ddiogelu a gwella Gwastadeddau Gwent drwy hwyluso hamdden a gwella mynediad i fyd natur i bawb, gan gynnwys plant a phobl ifanc. Gallai'r canllawiau helpu i feithrin dewis ffordd o fyw iach, cefnogi llesiant corfforol a meddyliol ac annog rhyngweithio cymdeithasol mewn gwahanol leoliadau. At hynny, mae gan y canllawiau gyfle i hyrwyddo datblygu mannau addysgol a meithrin sgiliau, a all helpu i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth amgylcheddol. Gallai hefyd gyfrannu at gyflawni targedau newid hinsawdd drwy gefnogi mesurau i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a lleihau llygredd aer a dŵr.<br><br>Mae'r adolygiad wedi nodi bod angen sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cymryd rhan, ac yn cael eu cynnwys, yn y broses o ddatblygu'r ddogfen ganllaw.<br><br>Felly, mae Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn ystyried y gofynion mewn perthynas â phlant a phobl ifanc (gweler Tabl 5-1). |
| **2. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** | Ar y cam cynnar hwn, daethpwyd i'r casgliad y gallai'r canllawiau cynllunio effeithio ar gyfleoedd i hyrwyddo cyfle cyfartal.<br><br>Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi naw grŵp o nodweddion gwarchodedig ac, o blith y grwpiau hyn, mae'r canlynol wedi'u sgrinio i'w hystyried ymhellach yn y broses asesu gan mai'r rhain yw'r nodweddion y mae'r canllawiau yn fwyaf tebygol o ddylanwadu arnynt:<br><br>• Oedran<br>• Anabledd<br>• Beichiogrwydd a Mamolaeth<br><br>Yn achos y nodweddion gwarchodedig hynny a sgriniwyd allan (isod), ystyriwyd ar y cam hwn na fyddai'r canllawiau cynllunio, sy'n canolbwyntio ar weithredu gofynion Polisi 9 yn Cymru'r Dyfodol i wella bioamrywiaeth, gwydnwch ecosystemau a darpariaeth mannau gwyrdd, yn effeithio arnynt, ond bydd hyn yn cael ei adolygu'n barhaus.<br><br>• Rhyw<br>• Cyfeiriadedd rhywiol<br>• Ailbennu rhywedd |

| | |
|---|---|
| | • Priodas a phartneriaeth sifil<br>• Hil<br>• Crefydd neu gred<br><br>Mae Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn cynnwys amcanion a chwestiynau sy'n hwyluso penderfyniadau sy'n ymwneud â hyrwyddo cyfle cyfartal (gweler Tabl 5-1). |
| **3. Asesiad Effaith ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy** | Ar y cam cynnar hwn, daethpwyd i'r casgliad y gallai'r canllawiau cynllunio effeithio ar reoli tir yn gynaliadwy ar gyfer amaethyddiaeth.<br><br>Felly, mae Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn cynnwys amcanion a chwestiynau sy'n hwyluso penderfyniadau sy'n ymwneud â rheoli tir yn gynaliadwy ac amaethyddiaeth (gweler Tabl 5-1). |
| **4. Asesiad o'r effaith ar y Gymraeg** | Ar y cam cynnar hwn, daethpwyd i'r casgliad y gallai'r canllawiau cynllunio effeithio ar y Gymraeg.<br><br>Felly, mae Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn cynnwys amcanion a chwestiynau sy'n hwyluso penderfyniadau sy'n ymwneud â'r Gymraeg (gweler Tabl 5-1). |
| **5. Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth** | Ar y cam cynnar hwn, daethpwyd i'r casgliad y gallai'r canllawiau cynllunio effeithio ar fioamrywiaeth.<br><br>Mae Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus, sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru, i gynnal a gwella bioamrywiaeth ac, wrth wneud hynny, hyrwyddo gwydnwch ecosystemau.<br><br>Felly, mae Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn cynnwys amcanion a chwestiynau sy'n cynorthwyo penderfyniadau sy'n ymwneud â bioamrywiaeth (gweler Tabl 5-1). |
| **6. Asesiad Effaith Prawfesur Gwledig** | Ar y cam cynnar hwn, daethpwyd i'r casgliad y gallai'r canllawiau cynllunio effeithio ar ardaloedd gwledig.<br><br>Felly, mae Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn cynnwys amcanion a chwestiynau sy'n cynorthwyo penderfyniadau sy'n ymwneud â phrawfesur gwledig (gweler Tabl 5-1). |
| **7. Asesiad o'r Effaith ar Iechyd** | Ar y cam cynnar hwn, daethpwyd i'r casgliad y gallai'r canllawiau cynllunio effeithio ar iechyd a llesiant. |

| | |
|---|---|
| | Bydd yr asesiad o'r effaith ar iechyd yn seiliedig ar y fethodoleg a argymhellir ar wefan Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru.<br><br>Felly, mae Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn cynnwys amcanion a chwestiynau sy'n cynorthwyo penderfyniadau sy'n ymwneud ag iechyd a llesiant (gweler Tabl 5-1). |
| **8. Asesiad o'r Effaith ar y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol** | Ar y cam cynnar hwn, daethpwyd i'r casgliad y gallai'r canllawiau cynllunio effeithio ar y nod o leihau anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.<br><br>Mae Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn cynnwys amcanion a chwestiynau sy'n cynorthwyo penderfyniadau i wella cydraddoldeb a lleihau anfantais economaidd-gymdeithasol (gweler Tabl 5-1). |
| **9. Asesiad o'r Effaith Economaidd:** | Ar y cam cynnar hwn, daethpwyd i'r casgliad y gallai'r canllawiau cynllunio effeithio ar yr economi, sy'n cynnwys busnesau, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector a'r cyhoedd.<br><br>Felly, mae Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn cynnwys amcanion a chwestiynau sy'n cynorthwyo penderfyniadau sy'n ymwneud â'r economi (gweler Tabl 5-1). |
| **10. Asesiad o'r Effaith ar Newid Hinsawdd** | Ar y cam cynnar hwn, daethpwyd i'r casgliad y gallai'r canllawiau cynllunio effeithio ar y newid hinsawdd.<br><br>Mae Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn cynnwys amcanion a chwestiynau sy'n cynorthwyo penderfyniadau sy'n ymwneud â'r newid hinsawdd a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr (gweler Tabl 5-1). |

2.2.8 Mae'r 10 asesiad effaith a restrir yn Nhabl 2-1 wedi'u integreiddio'n llawn yn Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig drwy amcanion penodol a chwestiynau penodol sy'n hwyluso penderfyniadau. Cydnabyddir natur drawsbynciol yr effeithiau hyn ac hefyd, gan y bydd pob pwnc yn cael ei ystyried yn gyfannol, efallai na fydd angen ailadrodd pynciau ar draws thema

# 3. CAM A1: Adolygiad o Gynlluniau, Rhaglenni ac Amcanion Amgylcheddol Perthnasol

## 3.1 Cyflwyniad

3.1.1 Er mwyn nodi cwmpas clir ar gyfer Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, mae angen ystyried amrywiaeth ehangach o gynlluniau, polisïau a rhaglenni sy'n berthnasol i Ganllawiau Cynllunio Gwastadeddau Gwent a meithrin dealltwriaeth ohonynt.  Bydd deall y berthynas hon yn galluogi Llywodraeth Cymru i fanteisio ar synergeddau, nodi cyfleoedd ac ymdrin ag anghysondebau a chyfyngiadau.

3.1.2 Am fod Canllawiau Cynllunio Gwastadeddau Gwent yn ddogfen ardal-benodol, bydd cynlluniau, polisïau a rhaglenni perthnasol eraill ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

3.1.3 Bydd natur iteraidd y gwaith yn sicrhau y gall cynlluniau, polisïau a rhaglenni newydd a gyhoeddir wrth i'r canllawiau cynllunio ddatblygu gael eu hystyried ac y byddant yn cael eu hystyried.

3.1.4 Mae gofynion y Gyfarwyddeb AAS ar gyfer y cam hwn yn y broses fel a ganlyn:

'….amlinelliad o'r cynnwys, prif amcanion y cynllun neu'r rhaglen a'r gydberthynas â chynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill (Atodiad 1(a)).

'amcanion diogelu'r amgylchedd, a bennwyd ar lefel ryngwladol (Ewropeaidd), ar lefel y Gymuned Ewropeaidd neu ar lefel genedlaethol , sy'n berthnasol i'r cynllun neu'r rhaglen a'r ffordd y mae'r amcanion hynny ac unrhyw ystyriaethau amgylcheddol wedi'u hystyried wrth ei baratoi/pharatoi (Atodiad 1(e)).

3.1.5 Cynhaliwyd adolygiad o gynlluniau, polisïau a rhaglenni eraill a allai effeithio ar y broses o lunio'r canllawiau cynllunio er mwyn cyfrannu at ddatblygu'r canllawiau a'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig.  Roedd hyn yn cynnwys:

- Nodi unrhyw amcanion amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd y dylid eu hadlewyrchu ym mhroses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ac sy'n bwysig i bob un o'r meysydd asesu integredig.
- Nodi unrhyw ffactorau a allai ddylanwadu ar y broses o lunio'r canllawiau cynllunio
- Nodi themâu neu synergeddau cyffredin rhwng cynlluniau a rhaglenni
- Nodi unrhyw amcanion neu nodau a fyddai naill ai'n cyfrannu'n gadarnhaol at y broses o ddatblygu'r canllawiau cynllunio, cynlluniau a rhaglenni eraill neu a allai wrthdaro â hynny neu ei herio

- Nodi unrhyw ddata sylfaenol sy'n berthnasol i'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

3.1.6 Cyflwynir themâu cyffredin allweddol o'r adolygiad o gynlluniau, polisïau a rhaglenni eraill yn Nhabl 3-1 isod.  Ystyrir y themâu yn erbyn y saith nod llesiant a'r materion amgylcheddol sy'n berthnasol i'r AAS, fel y'u rhestrir yn Atodiad 1(f) i'r Gyfarwyddeb AAS.  Rhoddir dadansoddiad manylach yn Atodiad A.

Tabl 3-1 Themâu Allweddol sy'n Deillio o'r Adolygiad o Gynlluniau, Polisïau a Rhaglenni Eraill

| **Thema 1: Ffawna (rhywogaethau)** | |
|---|---|
| **Themâu Allweddol o'r Adolygiad** | **Nodau Llesiant Perthnasol** |
| Nodi a diogelu rhwydweithiau ecolegol gwydn yn ofodol er mwyn cynnal a gwella bioamrywiaeth<br><br>Wrth wraidd rhwydweithiau ecolegol gwydn mae diogelu a rheoli safleoedd a rhywogaethau dynodedig statudol ac anstatudol<br><br>Mae'r gwaith o warchod a gwella bioamrywiaeth yn fwy effeithiol drwy sicrhau mwy o ymgysylltu, cyfathrebu a throsglwyddo gwybodaeth ar bob lefel o'r broses gwneud penderfyniadau.<br><br>Deall effaith gwaith rheoli a datblygiadau amhriodol ar rywogaethau a nodweddion diffiniedig SoDdGA.<br><br>Gwella cynefinoedd a chysylltedd ar Wastadeddau Gwent a fydd, yn ei dro, yn helpu i gefnogi ac adfer nodweddion ACA ac AGA Afon Wysg, Afon Gwy ac Aber Afon Hafren (rhwydwaith Natura 2000). | Cymru Lewyrchus<br><br>Cymru Gydnerth<br><br>Cymru Iachach<br><br>Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang |
| **Thema 2: Yr Amgylchedd Naturiol a'i Adnoddau** | |
| Themâu Allweddol o'r Adolygiad | Nodau Llesiant Perthnasol |
| Nodi ardaloedd y dylid eu diogelu a'u creu fel rhwydweithiau ecolegol er mwyn gwneud ein systemau naturiol yn fwy gwydn yn yr hirdymor a helpu i fynd i'r | Cymru Lewyrchus<br><br>Cymru Gydnerth |

| | |
|---|---|
| afael â'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur.<br><br>Cefnogi agenda twf gwyrdd ac economi sy'n defnyddio adnoddau yn effeithlon drwy adeiladu ar lwyddiant ynni adnewyddadwy ac ailgylchu<br><br>Gwarchod ac adfer natur er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau a manteision ecosystemau nawr ac yn y dyfodol.<br><br>Gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwydnwch ecosystemau ar Wastadeddau Gwent<br><br>Cefnogi a hyrwyddo dull cynaliadwy o gynhyrchu bwyd, gan sicrhau bod arferion o'r fath yn cyfrannu at fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur. | Cymru Iachach<br><br>Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang |
| **Thema 3: Seilwaith Gwyrdd** | |
| Themâu Allweddol o'r Adolygiad | Nodau Llesiant Perthnasol |
| Cynyddu hyd yr eithaf ar ddarpariaeth Seilwaith Gwyrdd a'i rwydweithiau a'r diogelwch a roddir iddynt<br><br>Sicrhau mwy o Seilwaith Gwyrdd mewn ardaloedd trefol, o'u hamgylch a rhyngddynt gyda mynediad a chysylltiadau gwell<br><br>Nodi ardaloedd sy'n cynnig cyfleoedd i ddarparu mwy o seilwaith gwyrdd a sicrhau'r manteision mwyaf posibl i rwydweithiau ecolegol gwydn | Cymru o Gymunedau Cydlynus<br><br>Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu<br><br>Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang<br><br>Cymru Lewyrchus<br><br>Cymru Gydnerth<br><br>Cymru Iachach |
| **Thema 4: Fflora (Cynefinoedd)** | |
| Themâu Allweddol o'r Adolygiad | Nodau Llesiant Perthnasol |
| Nodi ardaloedd y dylid eu diogelu a'u creu fel rhwydweithiau ecolegol gwydn | Cymru Lewyrchus |

| | |
|---|---|
| er mwyn helpu i warchod, adfer neu greu cynefinoedd.<br><br>Gwella gwydnwch ein hamgylchedd naturiol a'i ddynodiadau statudol drwy adfer a rheoli cynefinoedd a mynd i'r afael â phwysau allweddol<br><br>Cefnogi cynefinoedd a bywyd gwyllt sy'n unigryw i Wastadeddau Gwent gan ganolbwyntio ar sefydlu a rheoli glaswelltiroedd, gwrychoedd a pherllannau.<br><br>Lleihau lledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol. | Cymru Gydnerth<br><br>Cymru Iachach<br><br>Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang |
| **Thema Allweddol 5: Treftadaeth Ddiwylliannol a Thirwedd** | |
| Themâu Allweddol o'r Adolygiad | Nodau Llesiant Perthnasol |
| Gwarchod a gwella tirwedd hanesyddol a diwylliannol Gwastadeddau Gwent er budd cymunedau lleol a hyrwyddo Gwastadeddau Gwent fel cyrchfan i ymwelwyr<br><br>Gwarchod a gwella tirwedd a bioamrywiaeth unigryw Gwastadeddau Gwent drwy nodi a diogelu rhwydweithiau ecolegol gwydn gan ganolbwyntio ar gynnal systemau draenio traddodiadol, glaswelltir lled-naturiol, ardaloedd coediog, storio carbon yn y pridd a gweithgarwch ffermio'r ardal.<br><br>Mapio cyfleoedd i ddiogelu a gwella'r dirwedd hanesyddol a diwylliannol ymhellach er budd cymunedau lleol ac ymwelwyr.<br><br>Ystyried goblygiadau llygredd golau a sicrhau y caiff llonyddwch a natur anghysbell cymeriad tirwedd Gwastadeddau Gwent eu cynnal a'u gwella | Cymru Lewyrchus<br><br>Cymru Gydnerth<br><br>Cymru Iachach<br><br>Cymru o Gymunedau Cydlynus<br><br>Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu<br><br>Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang |

| Thema 6: Amgylchedd Morol ac Arfordirol | |
|---|---|
| Themâu Allweddol o'r Adolygiad | Nodau Llesiant Perthnasol |
| Gwarchod a hyrwyddo amgylchedd morol ac arfordir gwerthfawr Gwastadeddau Gwent er mwyn cefnogi twristiaeth arfordirol a chyfleoedd hamdden a chreu cymunedau gwydn.<br><br>Amlygu pwysigrwydd bioamrywiaeth yr arfordir ac amgylchedd morol Aber Afon Hafren ger Gwastadeddau Gwent. | Cymru Lewyrchus<br><br>Cymru Gydnerth<br><br>Cymru Iachach<br><br>Cymru sy'n Fwy Cyfartal<br><br>Cymru o Gymunedau Cydlynus<br><br>Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu<br><br>Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang |
| **Thema 7: Newid Hinsawdd** | |
| Themâu Allweddol o'r Adolygiad | Nodau Llesiant Perthnasol |
| Cynyddu'r gallu i wrthsefyll newid hinsawdd drwy fynd i'r afael â'r argyfwng natur a'r argyfwng hinsawdd gyda'i gilydd.  Bydd gwella gwydnwch ecosystemau ar Wastadeddau Gwent yn cynyddu hyd yr eithaf ar y gallu i warchod, atal a lleihau effaith newid hinsawdd gan ganolbwyntio ar gysylltu ac adfer cynefinoedd naturiol, rheoli perygl llifogydd, diogelu storfeydd carbon ac ystyried cyfleoedd ar gyfer ynni adnewyddadwy. | Cymru Lewyrchus<br><br>Cymru Gydnerth<br><br>Cymru Iachach<br><br>Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang |
| **Thema 8: Dŵr** | |
| Themâu Allweddol o'r Adolygiad | Nodau Llesiant Perthnasol |
| Mynd i'r afael â llygredd dŵr gwasgaredig ac acíwt a gwella ansawdd dŵr y rhwydwaith o ddraeniau traddodiadol ar Wastadeddau Gwent gyda chymorth dulliau ffermio cynaliadwy<br><br>Gwella'r ffordd y caiff tir a dŵr eu rheoli ar gyfer y systemau draenio traddodiadol ar Wastadeddau Gwent er | Cymru Lewyrchus<br><br>Cymru Gydnerth<br><br>Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang |

| | |
|---|---|
| mwyn lleihau perygl llifogydd a gwella cynefinoedd dyfrol. | |
| **Thema 9: Iechyd a Llesiant** | |
| Themâu Allweddol o'r Adolygiad | Nodau Llesiant Perthnasol |
| Sicrhau bod ein hadnoddau naturiol yn hyrwyddo atebion sy'n seiliedig ar natur i wella iechyd a llesiant drwy hyrwyddo cysylltiadau teithio llesol, cyfleoedd addysgol a marchnadoedd ar gyfer cynnyrch fferm o Wastadeddau Gwent | Cymru Lewyrchus<br><br>Cymru Gydnerth<br><br>Cymru Iachach<br><br>Cymru o Gymunedau Cydlynus<br><br>Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu<br><br>Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang |
| **Thema 10: Aer** | |
| Themâu Allweddol o'r Adolygiad | Nodau Llesiant Perthnasol |
| Gwella gwydnwch ecosystemau ar Wastadeddau Gwent er mwyn darparu atebion seiliedig ar natur sy'n gwella ansawdd aer drwy gefnogi'r gwaith o reoli a darparu coetir a seilwaith gwyrdd a glas | Cymru Lewyrchus<br><br>Cymru Gydnerth<br><br>Cymru Iachach<br><br>Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang |
| **Thema 11: Poblogaeth** | |
| Themâu Allweddol o'r Adolygiad | Nodau Llesiant Perthnasol |
| Ystyried effeithiau ac anghenion y cynnydd posibl yn y boblogaeth yn yr awdurdodau hyn o ran tirwedd Gwastadeddau Gwent | Cymru Lewyrchus<br><br>Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang |

# 4. CAM A2 AC A3: Gwybodaeth Sylfaenol a Nodi Problemau a Chyfleoedd Allweddol sy'n Ymwneud â Chynaliadwyedd

## 4.1 Cyflwyniad

4.1.1 Mae gwybodaeth sylfaenol (amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd) yn darparu'r sail ar gyfer rhagfynegi a monitro effeithiau ac yn helpu i nodi problemau a ffyrdd amgen o ddelio â nhw.

4.1.2 Am fod Canllawiau Cynllunio Gwastadeddau Gwent yn ddogfen safle-benodol/ardal-benodol, mae'r gwaith o gasglu tystiolaeth llinell sylfaen wedi canolbwyntio ar Wastadeddau Gwent, lle y bo'n bosibl. Fodd bynnag, os nad oes data ar gael ar y lefel hon, mae tystiolaeth wedi'i defnyddio o'r haen nesaf i fyny ar lefel awdurdod lleol. Am fod Gwastadeddau Gwent yn ymestyn dros dair ardal awdurdod lleol, mae data sydd ar gael i'r cyhoedd wedi'u defnyddio ym mhob un o'r tri awdurdod yng Nghyngor Caerdydd, Cyngor Dinas Casnewydd a Chyngor Sir Fynwy. Er bod y data hyn yn cynrychioli pob Cyngor yn ei gyfanrwydd (gan gynnwys ardaloedd y tu mewn a'r tu allan i Wastadeddau Gwent), mae'n dal i roi darlun clir o'r dylanwadau amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd sy'n effeithio ar dirwedd Gwastadeddau Gwent.

4.1.3 Casglu gwybodaeth sylfaenol yw un o ofynion y Gyfarwyddeb AAS ar gyfer y cam hwn yn y broses:

> ‘yr agweddau perthnasol ar gyflwr presennol yr amgylchedd a'r ffordd y maent yn debygol o ddatblygu os na chaiff y cynllun neu'r rhaglen ei roi/rhoi ar waith’ a ‘nodweddion amgylcheddol yr ardaloedd y mae'n debygol yr effeithir arnynt yn sylweddol’ (Atodlen 2-2 a 2-3)
>
> ‘unrhyw broblemau amgylcheddol sy'n bodoli eisoes sy'n berthnasol i'r cynllun neu'r rhaglen gan gynnwys, yn arbennig, y rhai sy'n ymwneud ag unrhyw ardaloedd o bwys amgylcheddol penodol, megis ardaloedd a ddynodwyd yn unol â Chyfarwyddeb 79/409/EEC y Cyngor ar gadwraeth adar gwyllt(a) a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd’ (Atodlen 2-4)

4.1.4 Mae deall nodweddion llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Gwastadeddau Gwent yn hanfodol i ddeall effeithiau posibl y canllawiau cynllunio wrth iddynt ddatblygu. Felly, mae disgrifio'r llinell sylfaen, problemau a chyd-destun amgylcheddol a chynaliadwyedd yn bwysig i ddiffinio Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn ei gyfanrwydd ac mae'n cynnwys yr elfennau canlynol:

- Disgrifio'r sefyllfa bresennol o ran llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Gwastadeddau Gwent

- Deall tueddiadau yn y dyfodol yn seiliedig ar dueddiadau presennol ac amcanestyniadau ar gyfer y dyfodol a allai effeithio ar lesiant amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Gwastadeddau Gwent
- Defnyddio'r wybodaeth hon i nodi problemau a chyfleoedd presennol y gallai'r canllawiau cynllunio ddylanwadu arnynt gan gydnabod, mewn rhai achosion, nad y canllawiau yw'r dull gorau o fynd i'r afael â phob un o'r problemau.

## 4.2 Methodoleg

4.2.1 Cafodd y llinell sylfaen amgylcheddol, gymdeithasol, ddiwylliannol ac economaidd ei disgrifio gan ddefnyddio'r dulliau canlynol:

- Adolygu cynlluniau, strategaethau a rhaglenni cenedlaethol, rhanbarthol a lleol perthnasol
- Ymchwil data yn seiliedig ar gyfres o setiau data sylfaenol gan awdurdodau lleol a phartneriaid lleol

4.2.2 Un ffynhonnell allweddol o wybodaeth yw'r Adroddiadau Cwmpasu mwyaf diweddar sy'n cefnogi'r gwaith o lunio CDLlau yng Nghyngor Caerdydd, Cyngor Dinas Casnewydd a Chyngor Sir Fynwy. Mae gwybodaeth safle-benodol sy'n ymwneud â thirwedd Gwastadeddau Gwent wedi'i hadolygu gan ddefnyddio gwybodaeth lle mae i'w chael gan bartneriaid lleol, yn arbennig y CDLl.

4.2.3 Cyflwynir y data sylfaenol llawn gan gynnwys problemau, cyfleoedd a bylchau mewn data yn Atodiad B. Mae'r data sylfaenol hyn wedi'u rhannu yn ôl y saith nod llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac, yna, wedi'u hisrannu'n bynciau. Er bod gorgyffwrdd rhwng y setiau sylfaenol a'r pynciau, cynrychiolir pob un o'r pynciau sylfaenol yn y Rheoliadau AAS.

4.2.4 Mae Tabl 4-1 yn cyflwyno'r problemau a chyfleoedd allweddol sy'n ymwneud â chynaliadwyedd ar gyfer Gwastadeddau Gwent a nodwyd ar draws y saith nod Llesiant ac is-benawdau pynciau'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig sy'n deillio o'r data sylfaenol (Atodiad B). Wrth ystyried ffocws cul canllawiau Gwastadeddau Gwent, o gymharu â chynllun datblygu, bydd y canllawiau yn canolbwyntio'n llwyr ar roi gofynion Polisi 9 yn Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 ac o ganlyniad:

- Mae rhai o bynciau'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig wedi'u grwpio ynghyd er mwyn ymdrin â materion sy'n gorgyffwrdd
- Nid y canllawiau yw'r dull gorau o ymdrin â phob un o bynciau'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig Er enghraifft, mae data sylfaenol wedi'u casglu ar lefelau amddifadedd a'r angen am dai (Atodiad B), ond nid yw hyn wedi arwain at gyfleoedd i'r canllawiau cynllunio fynd i'r afael â nhw oherwydd cwmpas

penodol y canllawiau, sy'n ymwneud â sicrhau rhwydweithiau ecolegol gwydn, gwasanaethau ecosystemau gwydn a seilwaith gwyrdd (a glas).

Tabl 4-1 Problemau a Chyfleoedd Allweddol sy’n Ymwneud â Chynaliadwyedd

| Nodau Llesiant | Crynodeb o'r Problemau Allweddol | Cyfleoedd i'r Canllawiau Cynllunio Fynd i'r Afael â Nhw |
|---|---|---|
| Cymru Lewyrchus | **Yr Economi, Cyflogaeth ac Incwm**<br><br>• Ers pandemig COVID-19, mae'r diwydiant twristiaeth, a'i fanteision economaidd cysylltiedig, wedi dirywio'n sylweddol ledled tirwedd Gwastadeddau Gwent.<br><br>• Yn unol â thueddiadau cenedlaethol, prin yw'r tir cyflogaeth sydd wedi'i ddatblygu mewn awdurdodau sy'n rhychwantu tirwedd Gwastadeddau Gwent ac, am fod y tri awdurdod hyn, ar y cyfan, yn fwy hyfyw (o ran gwerth tir) na'r rhan fwyaf o awdurdodau eraill ledled Cymru, mae hyn yn golygu bod tir cyflogaeth wedi cael ei ddefnyddio at ddibenion amgen, megis datblygiadau tai.<br><br>**Addysg:**<br><br>• Mae cyrhaeddiad addysgol, yn arbennig yng Nghasnewydd, yn llawer is o gymharu ag awdurdodau eraill Caerdydd a Sir Fynwy | • Mae'n bosibl y bydd y canllawiau yn ceisio hyrwyddo'r diwydiant twristiaeth ledled tirwedd Gwastadeddau Gwent er mwyn gwella llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd cymunedau lleol.<br><br>• Mae'n bosibl y bydd y canllawiau yn cynnig cyfleoedd i helpu i hyrwyddo gwydnwch economaidd ledled tirwedd Gwastadeddau Gwent.<br><br>• Mae'n bosibl y bydd y canllawiau yn helpu i wella sgiliau a gwybodaeth leol drwy nodi bod tirwedd Gwastadeddau Gwent yn adnodd dysgu naturiol. |

| | | |
|---|---|---|
| | sy'n rhychwantu tirwedd Gwastadeddau Gwent. | |
| Cymru Gydnerth | **Ansawdd Aer:**<br><br>• Mae ansawdd aer yn wael mewn ardaloedd trefol ger Gwastadeddau Gwent oherwydd allyriadau cerbydau uchel.<br><br>**Bioamrywiaeth, Fflora a Ffawna / Hinsawdd a Pherygl Llifogydd:**<br><br>• Mae gwaith datblygu, darnio, llifogydd ac effeithiau newid hinsawdd yn arbennig oherwydd darnio cronnol cynefinoedd a achosir gan y ffactorau hyn, yn peri risg i gynefinoedd allweddol a nodir yn Adran 7, yn ogystal â dynodiadau anstatudol a safleoedd gwarchodedig ar Wastadeddau Gwent. Gan fod cynefinoedd mewn perygl, mae'r amrywiaeth unigryw o rywogaethau a gynhelir ganddynt hefyd yn agored i golledion sylweddol. Mae darnio yn peri risg i wydnwch ecosystemau ehangach Gwastadeddau Gwent.<br><br>**Amgylchedd Dŵr / Daeareg a Phriddoedd:**<br><br>• Mae Gwastadeddau Gwent a'r parth rhynglanwol yn agored i lifogydd a achosir gan lefel y môr sy'n codi o | • Gallai'r canllawiau gyfrannu at wella ansawdd aer drwy annog teithio llesol ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus, llwybrau a hyrwyddir a llwybrau rhwydweithiau beicio ledled Gwastadeddau Gwent a rhwng ardaloedd trefol cyfagos.<br><br>• Dylai'r canllawiau warchod a diogelu cynefinoedd a rhwydweithiau ecolegol a nodwyd a gwella cysylltedd rhwng cynefinoedd cynhaliol er mwyn gwella bioamrywiaeth a rhoi cyfeiriad strategol ar gyfer eu gwella ar Wastadeddau Gwent.<br><br>• Dylai'r canllawiau helpu i ddiogelu a gwella dynodiadau cadwraeth natur statudol gan gynnwys y nodweddion y cawsant eu dynodi/hysbysu o'u herwydd a'r nodweddion cymhwyso sy'n sail iddynt, a rhywogaethau a warchodir. Rhaid i'r canllawiau gefnogi'r gwaith o addasu i newid hinsawdd a hyrwyddo gwasanaethau ecosystemau allweddol ar lefel Gwent.<br><br>• Dylai canllawiau helpu i sicrhau gwydnwch ecosystemau (Amrywiaeth, |

| | | |
|---|---|---|
| | ganlyniad i newid hinsawdd, llifogydd afonol a gwaith rheoli is-optimaidd o ran systemau draenio'r ardal.<br><br>• Mae capasiti storio dŵr yn ystod cyfnodau o glo llanwol ac argaeledd dŵr yn ystod cyfnodau sych estynedig yn cael effaith negyddol ar lefelau dŵr Gwastadeddau Gwent.<br><br>• Oherwydd rhyng-gysylltedd y rhwydwaith o ffosydd draenio ('reens') a ffosydd caeau a glaswelltiroedd cysylltiedig, gall yr effeithiau ar gyflwr a gweithrediad hydroleg yr SoDdGA (o ran ansawdd dŵr yn ogystal â'r swm o ddŵr), os caiff ei newid, fod yn bellgyrhaeddol.<br><br>• Rhywogaethau goresgynnol anfrodorol a gyflwynir i'r ardal gan weithgarwch llongau, offer a dillad wedi'u halogi o weithgareddau hamdden fel pysgota, gweithrediadau masnachol a chyfarpar neu ddeunyddiau sy'n cael eu symud yn ystod gweithgarwch adfer cynefinoedd. | Cwmpas, Cyflwr a Chysylltedd) a chefnogi swyddogaethau ecosystemau a ddarperir ledled Gwastadeddau Gwent.<br><br>• Dylai'r canllawiau geisio helpu i leihau perygl llifogydd drwy reoli'r system ddraenio ar Wastadeddau Gwent.<br><br>• Dylai'r canllawiau sicrhau bod cynigion ar gyfer rheoli a datblygu tir yn cael eu llywio gan dystiolaeth gadarn sydd wedi ystyried natur gydgysylltiedig y system hydrolegol ledled Gwastadeddau Gwent ac unrhyw effaith bosibl ar hynny.<br><br>• Chwilio am gyfleoedd drwy'r canllawiau i helpu i leihau lledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol. |
| Cymru Iachach | **Iechyd / Llesiant Pobl:** | • Mae'n bosibl y bydd y canllawiau yn ceisio nodi, hyrwyddo a diogelu mannau |

| | | |
|---|---|---|
| | • Prin iawn yw'r mannau amwynder a mannau gwyrdd agored i drigolion a chymunedau eu mwynhau yn yr awdurdodau wedi'u trefoli i'r gorllewin o dirwedd Gwastadeddau Gwent sy'n debygol o fod yn effeithio ar ddisgwyliad oes, iechyd a llesiant cyffredinol.<br><br>• Gallai darnio a newid hinsawdd roi mwy o bwysau ar y system fwyd leol ar Wastadeddau Gwent. | hamdden, mannau gwyrdd a mannau glas sy'n rhan o rwydweithiau ecolegol sydd yn nhirwedd Gwastadeddau Gwent ac yn cyffinio â hi er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch i bawb. Gallai diogelu'r ardaloedd hyn oherwydd eu gwerth amwynder, yn ei dro, gael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant trigolion sy'n byw ar Wastadeddau Gwent ac yn agos atynt, yn ogystal â gwella mynediad i fyd natur yn gyffredinol. |
| Cymru sy'n Fwy Cyfartal | **Poblogaeth:**<br><br>• Disgwylir i'r boblogaeth leol mewn awdurdodau sy'n rhychwantu tirwedd Gwastadeddau Gwent barhau i gynyddu dros y pum mlynedd nesaf a fydd hefyd yn arwain at gynnydd yn y boblogaeth sy'n heneiddio o unigolion 65 oed a throsodd. | • Dylai'r canllawiau geisio diogelu tirwedd Gwastadeddau Gwent fel 'ysgyfaint gwyrdd' yn ardaloedd cynyddol drefoledig ac adeiledig Caerdydd a Chasnewydd.<br><br>• Dylai'r canllawiau geisio hyrwyddo statws tirwedd Gwastadeddau Gwent, a'i manteision cysylltiedig, sy'n cynnwys, ymhlith pethau eraill, gefnogi iechyd pobl hŷn, sicrhau cyfle cyfartal i bobl o bob oedran ac â phob anabledd a gwella cysylltiadau cymdeithasol. |
| Cymru o Gymunedau Cydlynus | **Troseddu:**<br><br>• Mae tipio anghyfreithlon ac achosion eraill o daflu ysbwriel yn broblemau mawr ar Wastadeddau | • Mae'n bosibl y bydd y canllawiau yn nodi'r niwed amgylcheddol a achosir gan achosion o daflu ysbwriel a thipio anghyfreithlon ar Wastadeddau Gwent er |

| | | |
|---|---|---|
| | Gwent ac maent yn peri heriau sylweddol i'r amgylchedd a chymunedau lleol. Mae ysbwriel hefyd yn broblem i Aber Afon Hafren.<br><br>**Trafnidiaeth:**<br><br>• Ceir llawer iawn o dagfeydd traffig a lefelau uchel o allyriadau nwy tŷ gwydr yn yr awdurdodau sy'n rhychwantu tirwedd Gwastadeddau Gwent ac fe'u hachosir, yn bennaf, gan lefelau uchel o gymudo yn ne-ddwyrain Cymru a'r ardaloedd o'i amgylch, a all fod yn effeithio ar dirwedd Gwastadeddau Gwent. | mwyn helpu awdurdodau, partneriaid lleol a thrigolion i fynd i'r afael â'r broblem.<br><br>• Dylai'r canllawiau geisio helpu i gynnal a gwella ansawdd aer ar Wastadeddau Gwent a'r ardaloedd o'u hamgylch drwy wella mannau gwyrdd agored yr ardal a hyrwyddo dulliau teithio heblaw'r car, yn arbennig llwybrau teithio llesol diogel ar gyfer cerdded a beicio. |
| Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu | **Tirwedd / Asedau Diwylliannol a Threftadaeth:**<br><br>• Mae datblygiadau trefol a chynlluniau seilwaith newydd ar Wastadeddau Gwent yn cael effaith sylweddol ar dirwedd hanesyddol, dynodiadau ecolegol a nodweddion gweledol a synhwyraidd yr ardal, yn arbennig ymdeimlad cryf yr ardal o lonyddwch a'i natur anghysbell.<br><br>• Mae'r ffosydd draenio a'r 'reens' ar Wastadeddau Gwent, sy'n nodweddion tirwedd unigryw, yn agored i | • Dylai'r canllawiau nodi cyfleoedd i lywio a rheoli cynigion datblygu newydd ar Wastadeddau Gwent er mwyn helpu i ddiogelu nodweddion hanesyddol a thirwedd yr ardal, hyrwyddo'r Gymraeg a gwarchod dynodiadau ecolegol yr ardal, er budd cymunedau lleol ac ymwelwyr, ymhlith pethau eraill.<br>  • Dylai'r canllawiau geisio diogelu ffosydd draenio, 'reens' a chynefinoedd cynhaliol ar Wastadeddau Gwent er mwyn gwella cysylltedd â safleoedd craidd o |

| | | |
|---|---|---|
| | niwed oherwydd diffyg mesurau rheoli a chynnal a chadw priodol, newidiadau i systemau draenio, newid hinsawdd/tywydd eithafol, pwysau gwaith datblygu, newidiadau i ddefnydd tir ac arferion defnydd tir.<br><br>• Mae cynnydd yn lefel y môr a llifogydd tymhorol ac annhymhorol sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd yn arwain at 'wasgfa arfordirol' a heriau o ran cynhyrchiant amaethyddol ac mae'n peri risg i gartrefi a bywoliaethau. Amcangyfrifir y caiff 11% o'r cynefin morfa heli ei golli o ganlyniad i wasgfa arfordirol erbyn 2055.<br><br>• Mae gweithgareddau'r sector amaethyddol yn cyfrannu at newid tirwedd Gwastadeddau Gwent sy'n arwain at arferion amaethyddol dwysach a gorbori ar y morfa heli, risg gynyddol o lifogydd (drwy ddiffyg mesurau rheoli ffosydd) a dŵr o ansawdd is. | werth ecolegol. Gallai hyn gynnwys gofyniad i fesurau rheoli a chynnal a chadw priodol ar gyfer y system ddraenio fod yn rhan o'r ystyriaeth a roddir i unrhyw fesurau rheoli defnydd tir a chynigion ar gyfer defnydd tir yn y dyfodol.<br><br>• Dylai'r canllawiau nodi bod y ffosydd draenio a'r 'reens' ar Wastadeddau Gwent, sy'n nodweddion tir unigryw, yn agored i newid hinsawdd a thywydd eithafol. Dylai cynigion ar gyfer rheoli a datblygu tir ystyried sut y gallent helpu i fynd i'r afael â goblygiadau newid hinsawdd.<br><br>• Dylai'r canllawiau hyrwyddo a diogelu cynaliadwyedd hirdymor Gwastadeddau Gwent â'i amgylchedd morol gwarchodedig cyffiniol a rhyngddibynnol er mwyn mynd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd a'r pwysau o gynigion datblygu posibl.<br><br>• Mae'n bosibl y bydd y canllawiau yn nodi cyfleoedd i helpu hwyluso cymuned ac economi amaethyddol hyfyw a bywiog drwy hyrwyddo system cyflenwi bwyd lleol ar Wastadeddau Gwent sy'n |

| | | |
|---|---|---|
| | | cyd-fynd â'r gwaith o hyrwyddo, cynnal a chadw a rheoli'r ardal. |
| Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang | **Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr:**<br><br>• Cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol a cheisio lleihau allyriadau carbon ledled tirwedd Gwastadeddau Gwent.<br><br>• Mae gweithgarwch draenio, gwaith datblygu a newid defnydd tir yn peri risg i storfeydd carbon.<br><br>**Cynhyrchu Ynni:**<br><br>• Mae tirwedd Gwastadeddau Gwent yn agored i'r potensial ar gyfer rhagor o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy mawr – yn arbennig cynlluniau solar, ond hefyd ddatblygiadau ynni gwynt ac amrediad llanw. | Mae'n bosibl y bydd y canllawiau yn helpu i leihau allyriadau carbon ledled Gwastadeddau Gwent drwy hyrwyddo cymysgedd o ymdrechion cadwraeth, gweithredu cymunedol a mesurau rheoli tir cynaliadwy.<br><br>• Mae'n bosibl y bydd y canllawiau yn cefnogi'r gwaith o reoli, diogelu a gwella storfeydd carbon ledled tirwedd Gwastadeddau Gwent.<br><br>• Mae'n bosibl y bydd angen i'r canllawiau nodi a oes cyfleoedd a allai gydbwyso datblygiadau ynni adnewyddadwy â gwarchod nodweddion arbennig tirwedd Gwastadeddau Gwent. |

# 5. CAM A4: Y Broses Arfarnu a Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

## 5.1 Y Broses Arfarnu

5.1.1 Ar yr adeg hon, nid yw union gynnwys na strwythur canllawiau cynllunio Gwastadeddau Gwent wedi'u datblygu. Felly, bydd angen i'r dull o arfarnu'r canllawiau fod yn hyblyg nes i'r cynnwys gael ei ddatblygu'n fanylach. Fodd bynnag, mae'n bosibl amlinellu'r egwyddorion sylfaenol a fydd yn sail i'r arfarniad, a ategir gan ofynion yn y Rheoliadau a'r Canllaw AAS (paragraff 1.1.3 o'r adroddiad hwn):

1. Arfarniad ansoddol fydd hwn yn bennaf
2. Mae'n debygol o gael ei gynnal yn fewnol gan swyddogion Llywodraeth Cymru
3. Bydd yr arfarniad yn dilyn dull asesu integredig ac iteraidd a dengys Tabl 5-3 sut mae gofynion yr asesiadau effaith wedi'u cynnwys o fewn Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o amcanion a ddefnyddir i arfarnu'r canllawiau cynllunio
4. Byddwn yn ymgynghori ac yn ymgysylltu ag ymgyngoreion statudol, partïon eraill â diddordeb a'r cyhoedd ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig drafft o'r canllawiau cynllunio (Cam D yn unig)
5. Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o amcanion arfarnu (Tabl 5-1) fydd y prif ddull arfarnu
6. Bydd yr arfarniad yn seiliedig ar dystiolaeth a bydd yn ystyried effeithiau tebygol y canllawiau cynllunio ar linell sylfaen cynaliadwyedd Gwastadeddau Gwent
7. Bydd yr arfarniad yn cynnwys rhoi ystyriaeth i effeithiau gofodol posibl y canllawiau cynllunio a bydd yn defnyddio tystiolaeth o gyfyngiadau, sensitifrwydd a chyfleoedd ffisegol, amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd
8. Bydd yr arfarniad yn defnyddio metrigau i helpu i ddisgrifio effeithiau posibl y canllawiau cynllunio yn erbyn Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig
9. Bydd yr arfarniad yn ystyried (a) effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol (b) effeithiau eilaidd, cronnol a synergyddol (c) effeithiau dros ofod ac amser (d) gwrthdroadwyedd effeithiau (e) effeithiau trawsffiniol ac (f) lefel yr hyder yn yr arfarniad
10. Bydd yr arfarniad yn iteraidd a bydd yn cynnwys bwydo argymhellion yn ôl i'r broses o ddrafftio'r canllawiau cynllunio er mwyn nodi mesurau i liniaru unrhyw effeithiau negyddol a gwella rhai cadarnhaol
11. Caiff opsiynau a ffefrir ar gyfer y canllawiau cynllunio a'r opsiynau amgen rhesymol yn eu lle eu harfarnu.

5.1.2 Dengys Tabl 5-4 sut mae gofynion y Gyfarwyddeb AAS wedi'u cynnwys yn Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o amcanion a ddefnyddir i arfarnu'r canllawiau cynllunio.

### 5.1.3 Cwmpas Daearyddol yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

5.1.4 Caiff cwmpas daearyddol yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ei lywio gan gampws daearyddol y canllawiau cynllunio, sy'n ymwneud ag ardal benodol. Am fod Gwastadeddau Gwent yn safle/ardal strategol sy'n rhychwantu rhannau o dair ardal awdurdod lleol yn ne-ddwyrain Cymru rhwng Caerdydd a Chas-gwent ac ar hyd ymyl ogleddol Aber Afon Hafren, gall rhai o'r materion sylfaenol ymwneud ag ardaloedd cyfagos yn Lloegr (er enghraifft, cyflogaeth a llifoedd cymudo) a bydd angen ystyried effeithiau daearol a morol (hyd at y marc distyll cymedrig).

### 5.1.5 Cwmpas Tymhorol yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

5.1.6 Bydd y canllawiau cynllunio yn gymwys ochr yn ochr â Cymru'r Dyfodol, a fydd yn parhau i fod mewn grym tan 2040 neu nes iddo gael ei ddiweddaru. Adlewyrchir yr amserlen hon yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, ynghyd ag unrhyw effeithiau ar gynaliadwyedd a allai ymestyn yn yr hirdymor y tu hwnt i 2040.

### 5.1.7 Asesu Opsiynau Amgen

5.1.8 Un o ofynion y Gyfarwyddeb AAS yw bod opsiynau amgen rhesymol yn cael eu hasesu gan ddefnyddio Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Ar yr adeg hon, nid yw'r math o opsiynau amgen rhesymol na'u cwmpas yn hysbys, ond bydd yr arfarniad yn nodi effeithiau cadarnhaol ac andwyol pob opsiwn, a'r opsiynau amgen rhesymol iddo, a defnyddir canlyniad yr asesiadau gan Lywodraeth Cymru i lywio ein penderfyniad ar yr opsiwn a ffefrir a helpu i lunio'r ddogfen ganllaw. Ystyrir unrhyw gyfleoedd lliniaru a bydd Llywodraeth Cymru yn cyfiawnhau'r opsiynau amgen a ddewisir ganddi a'r rhesymau dros ddewis y dull gweithredu a ffefrir.

## 5.2 Datblygu Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

5.2.1 Mae amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig wedi'u datblygu drwy wneud y canlynol:

- Adolygu cynlluniau, polisïau, rhaglenni ac amcanion amgylcheddol (cynaliadwyedd) perthnasol
- Adolygu gwybodaeth sylfaenol, problemau a chyfleoedd
- Ystyried meysydd arfarnu eraill a nodir yn Adran 2.2. o'r adroddiad hwn
- Maent wedi cael eu llywio gan amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn y Adroddiad Cwmpasu ar gyfer Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040, lle y bo'n briodol.

5.2.2 Mae pob un o amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig wedi'u hasesu o ran eu cydweddoliad mewnol ac mae matrics cydweddoldeb wedi'i gynnwys yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn yn Nhabl 5-2. Diben yr ymarfer hwn yw tynnu sylw at unrhyw botensial ar gyfer diffyg cydweddoldeb rhwng amcanion ar gam cynnar yn y broses ac i unrhyw broblemau posibl gael eu cydbwyso yn y fframwaith. Yn aml, bydd rhywfaint o ansicrwydd yn perthyn i amcanion Arfarniadau Cynaliadwyedd Integredig, ond mae'r broses arfarnu yn ceisio nodi cydbwysedd neu gyfaddawd rhyngddynt.

## 5.3 Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

5.3.1 Er mwyn profi perfformiad y canllawiau cynllunio, rydym wedi sefydlu Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig sy'n cynnwys 16 o amcanion ar gyfer yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig sy'n ymdrin â materion amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd. Bydd yr asesiad o'r canllawiau cynllunio a gynhelir gan ddefnyddio'r Fframwaith yn ystyried y Fframwaith gyfan mewn ffordd gyfannol ac yn cwmpasu'r cydberthnasau rhwng pob un o'r amcanion a chwestiynau sy'n cynorthwyo penderfynu, lle y bo'n berthnasol.

5.3.2 Bydd amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar wahân i unrhyw amcanion sydd wedi'u cynnwys yng nghanllawiau cynllunio Gwastadeddau Gwent, Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 ac amcanion ehangach Llywodraeth Cymru.

5.3.3 Er mwyn helpu i fesur perfformiad y canllawiau cynllunio yn erbyn amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, ategir yr amcanion gan nifer o gwestiynau sy'n cynorthwyo penderfynu. Ni chaiff pob un o'r cwestiynau hyn eu defnyddio fel rhan o'r asesiad ar bob cam, gan y bydd hyn yn dibynnu ar yr hyn sy'n cael ei asesu a pherthnasedd y cam. Bydd y broses asesu yn dryloyw ac yn glir ynghylch sut y caiff y canllawiau eu datblygu a'r fethodoleg a ddefnyddir. Cyflwynir y fersiwn ddrafft o Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn Nhabl 5-1 isod ynghyd â'r nodau Llesiant cyfatebol.

Tabl 5-1 Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a Chwestiynau

| **Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer Asesu Canllawiau Cynllunio Gwastadeddau Gwent** | | |
|---|---|---|
| Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig | Cwestiynau sy'n cynorthwyo penderfynu ‘A fydd Canllawiau Cynllunio Gwastadeddau Gwent yn….’ | Nod llesiant |
| **Economi** | | |
| 1. Hyrwyddo twf economaidd cynaliadwy a | • Hyrwyddo cyfleoedd i blant a phobl ifanc leisio eu barn ar sut y caiff tir ei ddefnyddio? | Cymru Lewyrchus |

| | | |
|---|---|---|
| gwella gwydnwch yr economi wledig ledled Gwastadeddau Gwent | • Hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer twf economaidd cynaliadwy ?<br>• Cefnogi cyfleoedd i wella ac amrywiaethu'r economi wledig?<br>• Annog cyfleoedd ar gyfer busnesau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes?<br>• Hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer sector amaethyddol bywiog a hyfyw?<br>• Hyrwyddo cyfleoedd i reoli tir amaethyddol yn gynaliadwy?<br>• Cefnogi cyfleoedd i fusnesau a seilwaith ddod yn fwy gwydn wrth wynebu'r risgiau sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd?<br>• Annog cyfleoedd ar gyfer sgiliau a hyfforddiant? | Cymru Gydnerth<br><br>Cymru Iachach<br><br>Cymru sy'n Fwy Cyfartal<br><br>Cymru o Gymunedau Cydlynus<br><br>Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu<br><br>Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang |
| 2. Annog a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer twristiaeth gynaliadwy | • Hyrwyddo ac annog cyfleoedd ar gyfer twristiaeth gynaliadwy sy'n manteisio ar asedau amgylcheddol, diwylliannol a threftadaeth ac asedau tirwedd eraill yr ardal, a hynny mewn modd sensitif?<br>• Cefnogi cyfleoedd ar gyfer busnesau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes? | Cymru Lewyrchus<br><br>Cymru Gydnerth<br><br>Cymru Iachach<br><br>Cymru o Gymunedau Cydlynus<br><br>Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu<br><br>Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang |

| | | |
|---|---|---|
| **Addysg** | | |
| 3. Annog cyfleoedd i gynyddu cyrhaeddiad addysgol ar gyfer pob grŵp oedran drwy ddefnyddio tirwedd Gwastadeddau Gwent fel adnodd dysgu naturiol | • Annog a chefnogi cynnydd mewn lefelau cyfranogiad a chyrhaeddiad addysgol plant ar gyfer pob aelod o gymdeithas?<br>• Annog a chefnogi gwelliant wrth ddarparu addysg a hyfforddiant drwy gynllunio defnydd tir a mentrau cymunedol lleol?<br>• Annog a chefnogi cyfleoedd gwirfoddoli a Phrosiectau Gwyddoniaeth Dinasyddion ar Wastadeddau Gwent?<br>• Annog a chefnogi plant ysgol a sefydliadau addysg uwch i ddefnyddio Gwastadeddau Gwent fel adnodd dysgu naturiol? | Cymru Lewyrchus<br><br>Cymru Iachach<br><br>Cymru sy'n Fwy Cyfartal<br><br>Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu<br><br>Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang |
| **Ansawdd Aer** | | |
| 4. Hyrwyddo cyfleoedd i annog diogelu a gwella ansawdd aer | • Hyrwyddo cyfleoedd i wella a diogelu ansawdd aer?<br>• Annog cyfleoedd lle y caiff effaith allyriadau (o ardaloedd trefol cyfagos, ffyrdd a rheilffyrdd) ei lleihau?<br>• Hyrwyddo cyfleoedd i ddiogelu Gwastadeddau Gwent er mwyn sicrhau na fydd llygredd aer yn cael effaith andwyol arnynt?<br>• Annog teithio llesol ledled Gwastadeddau Gwent?<br>• Gwella cysylltiadau teithio llesol rhwng tirwedd fwy gwledig Gwastadeddau Gwent ac ardaloedd trefol cyfagos? | Cymru Gydnerth<br><br>Cymru Lewyrchus<br>Cymru Gydnerth<br><br>Cymru Iachach<br><br>Cymru o Gymunedau Cydlynus<br><br>Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu<br><br>Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang |

| Bioamrywiaeth, Fflora a Ffawna | | |
|---|---|---|
| 5. Atal a gwrthdroi colli bioamrywiaeth a chyfrannu at warchod 30% o'n tir, dŵr croyw a môr a'i reoli'n effeithiol ar gyfer natur erbyn 2030 | • Nodi cyfleoedd i ddiogelu, gwella a chreu rhwydweithiau ecolegol?<br>• Diogelu rhwydweithiau ecolegol er mwyn sicrhau na fydd gwaith datblygu yn y dyfodol yn amharu'n ormodol arnynt?<br>• Nodi rhwydweithiau ecolegol er mwyn helpu i liniaru'r newid hinsawdd ac addasu iddo?<br>• Nodi rhwydweithiau ecolegol er mwyn gwarchod yr amrywiaeth o rywogaethau a geir ar Wastadeddau Gwent?<br>• Nodi rhwydweithiau ecolegol sy'n cefnogi gwasanaethau ecosystemau allweddol?<br>• Creu cyfleoedd i gynyddu amrywiaeth, cwmpas, cyflwr a chysylltedd ecosystemau ar Wastadeddau Gwent a'u gallu i addasu er mwyn sicrhau Budd Net i Fioamrywiaeth?<br>• Creu cyfleoedd i warchod a gwella cynefinoedd Adran 7 a safleoedd dynodedig statudol ac anstatudol yr ardal?<br>• Creu cyfleoedd i warchod a gwella'r amgylchedd morol?<br>• Creu cyfleoedd i ddiogelu rhyngwyneb dynamig ac ardal rynglanw Gwastadeddau Gwent lle mae'r tir yn cwrdd â'r môr?<br>• Creu cyfleoedd i warchod a gwella mannau gwyrdd naturiol?<br>• Creu cyfleoedd i fonitro dosbarthiad Rhywogaethau Estron Goresgynnol, atal lledaeniad y rhywogaethau hyn a mynd i'r afael â'r problemau a achosir ganddynt?<br>• Creu cyfleoedd i godi ymwybyddiaeth o arferion bioddiogelwch da a'u hyrwyddo er mwyn lleihau lefel a lledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol? | Cymru Gydnerth<br><br>Cymru Iachach<br><br>Cymru o Gymunedau Cydlynus<br><br>Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu<br><br>Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang |

| Hinsawdd a Pherygl Llifogydd | | |
|---|---|---|
| 6. Cyfrannu at leihau a rheoli perygl llifogydd | • Cyfrannu at leihau a rheoli perygl llifogydd?<br>• Annog rheoli system ddraenio'r ardal yn effeithiol ac yn cefnogi hynny?<br>• Annog datblygiadau newydd i allu wrthsefyll newid hinsawdd?<br>• Cefnogi neu wella gallu datblygiadau presennol ac arfaethedig i wrthsefyll perygl llifogydd<br>• Hyrwyddo manteision seilwaith gwyrdd o ran rheoli perygl llifogydd yn gynaliadwy?<br>• Hyrwyddo cyfleoedd i ddiogelu rhyngwyneb dynamig ac ardal rynglanw Gwastadeddau Gwent lle mae risg o lifogydd?<br>• Cefnogi cyfleoedd i fynd i'r afael â heriau o ran cynhyrchiant amaethyddol sy'n gysylltiedig â pherygl llifogydd?<br>• Helpu i ystyried risg briodol ar gyfer gwaith datblygu ym Mharth Llifogydd 2 a gwaith datblygu i'w osgoi ym Mharth Llifogydd 3, yn amodol ar yr eithriadau cyfyngedig. | Cymru Gydnerth<br><br>Cymru Iachach<br><br>Cymru o Gymunedau Cydlynus<br><br>Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu<br><br>Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang |
| 7. Cyfrannu at reoli a chynnal a chadw system ddraenio Gwastadeddau Gwent | • Cyfrannu at reoli a chynnal a chadw system ddraenio Gwastadeddau Gwent?<br>• Cynnal a chadw ffosydd draenio, ffosydd arwyneb bas ('grips') a 'reens' yr ardal, sy'n nodweddion tirwedd unigryw?<br>• Cynnal a chadw cynefinoedd cynhaliol a gwella cysylltedd rhwng system ddraenio'r ardal a safleoedd craidd o werth ecolegol (ac o'u mewn)? | Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu<br><br>Cymru Gydnerth<br><br>Cymru Iachach<br><br>Cymru o Gymunedau Cydlynus<br><br>Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang |
| **Iechyd a Llesiant** | | |
| 8. Cyfrannu at wella iechyd a llesiant corfforol, meddyliol, a chymdeithasol | • Hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer iechyd a llesiant corfforol, meddyliol, a chymdeithasol a chyfleoedd i'w gwella?<br>• Cyfrannu at ffyrdd iach o fyw a hyrwyddo llesiant drwy deithio llesol?<br>• Cyfrannau at wella mynediad at fioamrywiaeth a mannau gwyrdd agored oherwydd eu gwerth o ran amwynder, chwarae a hamdden?<br>• Creu cyfleoedd i gael mynediad i gynefin gwlyptir glân ac unigryw?<br>• Cyfrannu at gynyddu seilwaith gwyrdd?<br>• Annog cyfleoedd i gymunedau lleol leihau risgiau i iechyd sy'n gysylltiedig ag ansawdd aer gwael a newid hinsawdd?<br>• Cefnogi cyfleoedd i leihau anghydraddoldebau iechyd, gan gynnwys ymhlith plant? | Cymru Iachach<br><br>Cymru Gydnerth<br><br>Cymru o Gymunedau Cydlynus<br><br>Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu<br><br>Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang |
| **Poblogaeth** | | |
| 9. Annog cyfleoedd lle y gellir gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb | • Annog cyfleoedd lle y gellir gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb?<br>• Cefnogi cyfleoedd lle y gellir lleihau anfantais economaidd-gymdeithasol?<br>• Hyrwyddo cyfleoedd lle y gellir lleihau anghydraddoldeb oedran (o blant i bobl hŷn)?<br>• Hyrwyddo cyfleoedd lle y gellir lleihau anghydraddoldebau sy'n seiliedig ar anabledd, gan gynnwys ymhlith plant?<br>• Hyrwyddo cyfleoedd lle y gellir lleihau anghydraddoldebau sy'n seiliedig ar feichiogrwydd a mamolaeth?<br>• Annog cyfleoedd i ddatblygu cymunedau cryfach a mwy cydlynol? | Cymru sy'n Fwy Cyfartal<br><br>Cymru Lewyrchus<br><br>Cymru Iachach<br><br>Cymru o Gymunedau Cydlynus<br><br>Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang |
| **Troseddu** | | |
| 10. Hyrwyddo cyfleoedd i leihau tipio anghyfreithlon a thaflu ysbwriel | • Hyrwyddo cyfleoedd i leihau tipio anghyfreithlon a thaflu ysbwriel ar Wastadeddau Gwent neu mewn ardaloedd cyfagos?<br>• Cefnogi cyfleoedd i godi ymwybyddiaeth o niwed a dirywiad amgylcheddol a achosir gan dipio anghyfreithlon a thaflu ysbwriel a'u lleihau?<br>• Cefnogi cyfleoedd i leihau'r ofn a'r niwsans a achosir gan dipio anghyfreithlon a thaflu ysbwriel mewn cymunedau lleol? | Cymru o Gymunedau Cydlynus<br><br>Cymru Gydnerth<br><br>Cymru Iachach<br><br>Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu<br><br>Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang |
| **Y Gymraeg** | | |
| 11. Cyfrannu at lesiant y Gymraeg yn y dyfodol | • Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau gwledig ledled Gwastadeddau Gwent?<br>• Annog cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg?<br>• Hyrwyddo arwyddion, llenyddiaeth, adnoddau a digwyddiadau dwyieithog? | Cymru Lewyrchus<br><br>Cymru sy'n Fwy Cyfartal<br><br>Cymru o Gymunedau Cydlynus<br><br>Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu |
| **Cymeriad y Dirwedd** | | |
| 12. Creu cyfleoedd i warchod a gwella thirwedd a morwedd | • Creu cyfleoedd i warchod a gwella tirwedd a morwedd Gwastadeddau Gwent? | Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r |

| | | |
|---|---|---|
| unigryw a nodedig Gwastadeddau Gwent | • Creu cyfleoedd i warchod a gwella cymeriad tirwedd, nodweddion, amrywiaeth ac ansawdd unigryw yr ardal?<br>• Creu cyfleoedd i lywio a rheoli cynigion datblygu newydd, o ran cynllunio defnydd tir?<br>• Creu cyfleoedd i hyrwyddo datblygu cynaliadwy ac egwyddorion creu lleoedd allweddol ar Wastadeddau Gwent?<br>• Creu cyfleoedd i leihau llygredd sŵn a golau?<br>• Creu cyfleoedd i gynnal nodweddion gweledol a synhwyraidd y dirwedd, gan gynnwys yr ymdeimlad cryf o lonyddwch a'i natur anghysbell?<br>• Creu cyfleoedd i gynnal nodweddion unigryw'r dirwedd a'r forwedd er budd cymunedau lleol ac ymwelwyr?<br>• Creu cyfleoedd i gynnal nodweddion unigryw 'lingo' Gwastadeddau Gwent?<br>• Creu cyfleoedd i sicrhau bod y dirwedd a'r forwedd yn fwy abl i wrthsefyll effeithiau newid hinsawdd?<br>• Helpu i gynnal a datblygu sector amaethyddol ffyniannus a chynaliadwy ar Wastadeddau Gwent sy'n cyd-fynd â'r amgylchedd naturiol? | Gymraeg yn Ffynnu<br><br>Cymru Lewyrchus<br><br>Cymru Gydnerth<br><br>Cymru Iachach<br><br>Cymru o Gymunedau Cydlynus<br><br>Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang |
| 13. Creu cyfleoedd i ddiogelu, gwarchod a gwella amgylchedd hanesyddol Gwastadeddau Gwent ar raddfa tirwedd, gan gynnwys eu hasedau treftadaeth, eu lleoliadau ac arwyddocâd | • Creu cyfleoedd i ddiogelu, gwarchod a gwella asedau hanesyddol dynodedig, eu lleoliadau ac arwyddocâd diwylliannol tirwedd Gwastadeddau Gwent?<br>• Creu cyfleoedd i hyrwyddo arwyddocâd asedau hanesyddol ledled Gwastadeddau Gwent er mwyn gwella mynediad i'r dirwedd gyfan a chynyddu dealltwriaeth a mwynhad pobl ohoni?<br>• Creu cyfleoedd i warchod a gwella'r dirwedd hanesyddol ledled Gwastadeddau Gwent?<br>• Cydnabod, gwarchod a hyrwyddo asedau hanesyddol yr ardal ar raddfa tirwedd? | Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu<br><br>Cymru Gydnerth<br>Cymru Iachach<br><br>Cymru o Gymunedau Cydlynus |

| | | |
|---|---|---|
| diwylliannol yr ardal | • Creu cyfleodd i ddiogelu a hyrwyddo arwyddocâd diwylliannol Gwastadeddau Gwent ar raddfa tirwedd?<br>• Creu cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg yn ogystal â cheisio diogelu diwylliant a threftadaeth Gwastadeddau Gwent?<br>• Creu cyfleoedd i nodi safleoedd archaeolegol claddedig a'u gwarchod. | Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang |
| **Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr** | | |
| 14. Gwarchod a gwella cyfleoedd i allyriadau nwyon tŷ gwydr gael eu lleihau, eu storio a'u hatafaelu ledled Gwastadeddau Gwent. | • Hyrwyddo cyfleoedd i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ar Wastadeddau Gwent?<br>• Hyrwyddo cyfleoedd i leihau allyriadau nwyon tŷ (o drafnidiaeth) ar Wastadeddau Gwent ac o'u hamgylch?<br>• Hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer dylunio cynaliadwy mewn datblygiadau newydd a hyrwyddo egwyddorau creu lleoedd allweddol?<br>• Cefnogi cyfleoedd i leihau'r galw am ynni a gwella effeithlonrwydd ynni?<br>• Cydnabod, diogelu a gwella'r gallu i Wastadeddau Gwent storio ac atafaelu carbon?<br>• Annog cyfleoedd i gyflawni targedau ynni adnewyddadwy cenedlaethol gan ddiogelu cymeriad a chyfanrwydd cyffredinol tirwedd Gwastadeddau Gwent i gyd? | Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang<br><br>Cymru Lewyrchus<br><br>Cymru Gydnerth<br><br>Cymru Iachach<br><br>Cymru o Gymunedau Cydlynus |
| **Dŵr** | | |
| 15. Diogelu a gwella ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr | • Annog a chefnogi'r gwaith o wella statws ecolegol a chemegol cyrff dŵr?<br>• Annog a chefnogi'r gwaith o leihau llygredd tarddle penodol a gwasgaredig?<br>• Hyrwyddo effeithlonrwydd dŵr?<br>• Sicrhau bod adnoddau dŵr yn cael eu rheoli'n gynaliadwy ar gyfer ecosystemau, gweithgarwch echdynnu a hamdden?<br>• Hyrwyddo'r defnydd o atebion sy'n seiliedig ar natur? | Cymru Lewyrchus<br><br>Cymru Gydnerth<br><br>Cymru Iachach<br><br>Cymru o Gymunedau Cydlynus |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang |
| **Rheoli Pridd a Thir** | | |
| 16. Diogelu daeareg a phridd a hyrwyddo'r gwaith o ddefnyddio a rheoli tir yn gynaliadwy | • Hyrwyddo'r gwaith o ddefnyddio a rheoli tir yn gynaliadwy?<br>• Diogelu a gwella priddoedd amaethyddol o ansawdd uchel a'u cydnabod fel adnodd y mae pen draw iddo?<br>• Cefnogi'r gwaith o warchod ac adfer mawndiroedd?<br>• Hyrwyddo cyfleoedd i warchod a gwella iechyd a gweithrediad pridd?<br>• Hyrwyddo cyfleoedd i leihau halogiad tir?<br>• Creu cyfleoedd i ddiogelu safleoedd o bwys daearegol a'u hatal rhag cael eu niweidio?<br>• Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd addysgol a gynigir gan safleoedd daearegol fel adnodd dysgu naturiol. | Cymru Lewyrchus<br><br>Cymru Gydnerth<br><br>Cymru Iachach<br><br>Cymru sy'n Fwy Cyfartal<br><br>Cymru o Gymunedau Cydlynus<br><br>Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu<br><br>Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang |

## 5.4 Cydweddoldeb Mewnol Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

5.4.1 Mae'r 16 o amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig wedi'u profi i weld a ydynt yn cyd-fynd â'i gilydd. Aseswyd bod cydweddoldeb mewnol yr amcanion yn gydweddol, ar y cyfan, neu nad oes unrhyw effaith glir a/neu nad yw'r effaith yn hysbys am eu bod yn ceisio gwella ansawdd yr amgylchedd a chynaliadwyedd Gwastadeddau Gwent. Amcan 1: 'Hyrwyddo twf economaidd cynaliadwy a gwella gwydnwch yr economi wledig ledled Gwastadeddau Gwent' oedd yr amcan lleiaf cydweddol, oherwydd gallai tyfu'r economi wledig effeithio ar fioamrywiaeth leol, tirwedd unigryw Gwastadeddau Gwent a llesiant corfforol a meddyliol drwy leihau natur anghysbell a llonyddwch tirwedd y Gwastadeddau.

Tabl 5-2 Cydweddoldeb Mewnol Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

| Cydweddoldeb Mewnol Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig** | 1 Twf Economaidd Cynaliadwy | 2 Twristiaeth Gynaliadwy | 3 Cyrhaeddiad Addysgol | 4 Ansawdd Aer | 5 Bioamrywiaeth, Fflora a Ffawna | 6 Perygl Llifogydd | 7 System Ddraenio | 8 Iechyd a Llesiant | 9 Cydlyniant Cymdeithasol a Chydraddoldeb | 10 Tipio a Anghyfreithlon a Thaflu Ysbwriel | 11 Y Gymraeg | 12 Tirwedd a Morwedd | 13 Yr Amgylchedd Hanesyddol | 14 Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr | 15 Ansawdd a Swm Dŵr | 16 Rheoli Pridd a Thir |
| 1 Twf Economaidd Cynaliadwy | | + | + | - | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? | + | + | ? | ? |
| 2 Twristiaeth Gynaliadwy | + | | + | - | ? | ? | ? | + | + | - | + | ? | + | ? | ? | ? |
| 3 Cyrhaeddiad Addysgol | + | + | | ? | ? | ? | ? | + | + | ? | + | ? | + | ? | ? | ? |
| 4 Ansawdd Aer | - | - | ? | | + | ? | ? | + | - | ? | + | ? | + | + | + | ? |
| 5 Bioamrywiaeth, Fflora a Ffawna | ? | ? | ? | + | | + | + | + | - | + | ? | + | + | + | + | + |
| 6 Perygl Llifogydd | ? | ? | ? | ? | + | | + | + | + | ? | ? | + | + | + | + | + |
| 7 System Ddraenio | ? | ? | ? | ? | + | + | | ? | ? | ? | ? | + | + | + | + | + |
| 8 Iechyd a Llesiant | ? | + | + | + | + | + | ? | | + | + | + | ? | + | + | + | + |
| 9 Cydlyniant Cymdeithasol a Chydraddoldeb | ? | + | + | - | - | + | ? | + | | + | + | ? | + | ? | ? | ? |
| 10 Tipio a Anghyfreithlon a Thaflu Ysbwriel | ? | - | ? | ? | + | ? | ? | + | + | | ? | + | + | ? | + | + |
| 11 Y Gymraeg | ? | + | + | + | ? | ? | ? | + | + | ? | | + | + | ? | ? | ? |
| 12 Tirwedd a Morwedd | ? | ? | ? | ? | + | + | + | ? | ? | + | + | | + | + | + | + |
| 13 Yr Amgylchedd Hanesyddol | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | | + | + | + |
| 14 Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr | + | ? | ? | + | + | + | + | + | ? | ? | ? | + | + | | + | + |
| 15 Ansawdd a Swm Dŵr | ? | ? | ? | + | + | + | + | + | ? | + | ? | + | + | + | | + |
| 16 Rheoli Pridd a Thir | ? | ? | ? | ? | + | + | + | + | ? | + | ? | + | + | + | + | |
| | **Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig** | | | | | | | | | | | | | | | |

| Allwedd | |
|---|---|
| Mae'r amcanion yn gydweddol | + |
| Dim effaith glir a/neu effaith anhysbys | ? |
| Nid yw'r amcanion yn cydweddu â'i gilydd | - |

## 5.5 Cwmpas yr Asesiadau Effaith Integredig yn ôl Amcan yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

5.5.1 Dengys Tabl 5-3 sut mae gofynion yr asesiadau effaith wedi'u cynnwys yn Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o amcanion:

Tabl 5-3 Asesiadau Effaith Integredig a Phrif Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

| Cwmpas asesiadau effaith integredig eraill yn ôl Amcan yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig | | |
|---|---|---|
| Asesiad Effaith drafft | Prif Amcan(ion) yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig | Sgriniwyd i mewn? |
| Hawliau Plant | 1, 2, 3, 8 and 9 | Do |
| Cydraddoldebau | 1, 2, 3, 8 and 9 | Do |
| Prawfesur Gwledig | 1, 2, 5, 6 10, 12 and 16 | Do |
| Rheoli Tir yn Gynaliadwy | 1, 2, 5, 6, 7, 10, 12, 13, 14, 15 and 16 | Do |
| Ddeddf Iechyd a Diogelwch | 1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10 13, 14, 15 and 16 | Do |
| Economaidd | 1, 2, 3, 14 and 16 | Do |
| Y Gymraeg | 1, 2 and 11 | Do |
| Bioamrywiaeth | 4, 5, 6, 7, 10, 15 and 16 | Do |
| Newid Hinsawdd | 1, 2, 4, 5, 6, 7, 8, 14, 15 and 16 | Do |

## 5.6 Cwmpas Pynciau'r Gyfarwyddeb AAS yn ôl Amcan yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

5.6.1 Dengys Tabl 5-4 sut mae gofynion y Gyfarwyddeb AAS wedi'u cynnwys yn Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o amcanion:

Tabl 5-4 Pynciau'r Gyfarwyddeb AAS a Phrif Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

| **Cwmpas Pynciau'r Gyfarwyddeb AAS yn ôl Amcan yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig** | |
|---|---|
| Pynciau'r Gyfarwyddeb AAS | Prif Amcan(ion) yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig |
| Bioamrywiaeth | 4, 5, 6, 7, 10, 15 and 16 |
| Poblogaeth | 1, 2, 3, 4, 8, 9, 11, 13 and 15 |
| Iechyd Pobl | 1, 2, 3, 4, 5, 6, 8, 9, 10, 13, 14 and 15 |
| Ffawna | 5, 6, 7, 10, 14, 15 and 16 |
| Fflora | 5, 6, 7, 10, 14, 15 and 16 |
| Pridd | 5, 6, 7, 10, 12, 14, 15 and 16 |
| Dŵr | 5, 6, 7, 10, 14, 15 and 16 |
| Aer | 4, 5 and 14 |
| Ffactorau Hinsoddol | 1, 2, 4, 5, 6, 7, 8, 14, 15 and 16 |
| Asedau materol (gan gynnwys seilwaith, adnoddau tir, asedau cyhoeddus, adeiladau ac eiddo) | 1, 2, 5, 6, 7, 12, 13, 14 and 16 |
| Treftadaeth Ddiwylliannol gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archeolegol | 2, 7, 8, 9, 11, 12 and 13 |
| Tirwedd | 2, 7, 8, 9, 12, 13, 15 and 16 |

# 6.Y Camau Nesaf

## 6.1 Cyffredinol

6.1.1 Mae'r Adroddiad Cwmpasu hwn wedi nodi'r fframwaith asesu ac wedi amlinellu sut rydym yn bwriadu cynnal yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o Ganllawiau Cynllunio Gwastadeddau Gwent. Bu fersiwn ddrafft o'r ddogfen yn destun ymgynghoriad statudol pum wythnos rhwng mis Medi a mis Hydref 2025. Cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd ochr yn ochr â'r Adroddiad Cwmpasu terfynol hwn.

6.1.2 Y cam nesaf ar gyfer Canllawiau Cynllunio Gwastadeddau Gwent yw llunio fersiwn ddrafft o'r canllawiau ac ymgynghori arni, a ddisgwylir ar hyn o bryd yn ystod Gaeaf 2025/26. Ymgynghorir ar fersiwn ddrafft o'r adroddiad ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ochr yn ochr â'r canllawiau drafft. Bydd yr ymgynghoriad ar y fersiwn ddrafft o'r adroddiad ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn gwneud y canlynol:

- Dangos sut mae proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig wedi llywio'r gwaith o ddatblygu'r canllawiau cynllunio hyd yma
- Nodi'r fethodoleg ar gyfer yr arfarniad
- Nodi'r opsiynau (gan gynnwys opsiynau amgen rhesymol), sut y cawsant eu nodi ac unrhyw fesurau lliniaru
- Cymharu effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd yr opsiynau a'r opsiynau amgen rhesymol
- Disgrifio'r cynigion monitro.

* * * * * * * * * * * * * *

ATODIAD A

**Cynlluniau, Rhaglenni ac Amcanion Diogelu'r Amgylch a Adolygwyd**

Mae'r tabl isod yn crynhoi canlyniadau'r adolygiad o gynlluniau, polisïau ac amcanion diogelu'r amgylchedd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'n nodi'r goblygiadau a'r themâu allweddol ar gyfer yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a'r canllawiau cynllunio sy'n cysylltu â Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig .

| |
|---|
| Cynlluniau a Pholisïau **Cenedlaethol** (mewn Gwyrdd) |
| Cynlluniau a Pholisïau **Rhanbarthol** (mewn Oren) |
| Cynlluniau a Pholisïau **Lleol** (mewn Glas) |

| **Cynllun, Rhaglen neu Amcan Cynaliadwy** | **Amcanion neu Ofynion** | **Goblygiadau i'r Canllawiau / Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig** | **Themâu Allweddol** |
|---|---|---|---|
| **THEMA 1: Ffawna (rhywogaeth)** | | | |
| Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 (Polisi 9) | Y cynllun datblygu cenedlaethol sy'n nodi'r cyfeiriad ar gyfer gwaith datblygu yng Nghymru tan 2040.<br><br>Cyflawni gofynion Polisi 9 i wella bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau. | Nodi ardaloedd y dylid eu diogelu a'u creu fel rhwydweithiau ecolegol i warchod rhywogaethau, ymhlith pethau eraill. | • Nodi a diogelu rhwydweithiau ecolegol gwydn yn ofodol er mwyn cynnal a gwella bioamrywiaeth<br><br>• Wrth wraidd rhwydweithiau ecolegol gwydn mae diogelu a rheoli safleoedd a |
| Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 | Mae'n helpu i fynd i'r afael â'r her o ddod o hyd i ffordd o sicrhau | Hyrwyddo (ac nid lleihau) bioamrywiaeth. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ecosystemau iach, gwydn a chynhyrchiol ar gyfer y dyfodol gan fydd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig â chreu swyddi, tai a seilwaith.<br><br>Mae Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth pan fyddant yn arfer eu swyddogaethau'n briodol. | | rhywogaethau dynodedig statudol ac anstatudol<br><br>• Mae'r gwaith o warchod a gwella bioamrywiaeth yn fwy effeithiol drwy sicrhau mwy o ymgysylltu, cyfathrebu a throsglwyddo gwybodaeth ar bob lefel o'r broses gwneud penderfyniadau. |
| Cyfoeth Naturiol Cymru (2015) Rhaglen Natura 2000 LIFE yng Nghymru | Cynllun strategol sy'n nodi'r gofynion o ran rheoli ac adfer rhwydwaith Natura 2000. | Gwella cynefinoedd a chysylltedd ar Wastadeddau Gwent a fydd, yn ei dro, yn helpu i gefnogi nodweddion ACA ac AGA Afon Wysg, Afon Gwy ac Aber Afon Hafren er mwyn adfer rhwydwaith Natura 2000.<br><br>Mae AGA Aber Afon Hafren yn cyffinio â Gwastadeddau Gwent. | • Deall effaith gwaith rheoli a datblygiadau amhriodol ar rywogaethau a nodweddion diffiniedig SoDdGA<br><br>• Gwella cynefinoedd a chysylltedd ar Wastadeddau Gwent a fydd, yn ei dro, yn helpu i gefnogi ac adfer nodweddion ACA ac AGA Afon Wysg, Afon Gwy ac |
| Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (2010) | Mae'n esbonio'r rolau, y cylchoedd gwaith a'r prosesau sy'n hanfodol i | Dull mwy cydgysylltiedig, effeithiol ac integredig o | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Fframwaith Bioamrywiaeth Cymru | warchod a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru. | warchod a gwella bioamrywiaeth ledled Cymru.<br><br>Mwy o gyfleoedd i amrywiaeth ehangach o unigolion/rhanddeiliaid gymryd rhan.<br><br>Mwy o ymwybyddiaeth well ac ehangach o fioamrywiaeth a sut y gall pawb chwarae eu rhan wrth ei gwarchod a'i gwella.<br><br>Cyfathrebu mwy effeithiol rhwng pawb sy'n ymwneud â gwarchod a gwella bioamrywiaeth.<br><br>Mwy o gydweithio er enghraifft ar brosiectau ar raddfa tirwedd. | Aber Afon Hafren (rhwydwaith Natura 2000). |
| Llywodraeth Cymru (2024) Polisi Cynllunio Cymru – Argraffiad 12 (Pennod 6) | Polisi cynllunio cenedlaethol i greu lleoedd unigryw a naturiol sy'n gwneud y canlynol, ymhlith pethau eraill:<br><br>• Diogelu, cynnal a gwella bioamrywiaeth, | Helpu i gynnal a gwella bioamrywiaeth.<br><br>Sicrhau bod safleoedd a chynefinoedd dynodedig statudol ac anstatudol yn cael eu gwarchod a'u rheoli'n briodol a bod eu rôl wrth wraidd rhwydweithiau | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gwella gwydnwch ein hecosystemau a'n hamgylchedd naturiol. | ecolegol gwydn yn cael ei diogelu.<br><br>Diogelu rhywogaethau a warchodir a rhywogaethau o'r pwysigrwydd pennaf, asedau bioamrywiaeth sy'n bodoli eisoes a'r elfennau sy'n sail iddynt rhag effeithiau andwyol uniongyrchol, anuniongyrchol neu gronnol.<br>Sicrhau bod gwydnwch ecosystemau a rhwydweithiau ecolegol gwydn yn cael eu cynnal a'u gwella. | |
| Llywodraeth Cymru (2020) Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru | Dyma Strategaeth a Chynllun Gweithredu Cenedlaethol Cymru ar gyfer Bioamrywiaeth sy'n nodi'r ymrwymiad i wrthdroi colli bioamrywiaeth yng Nghymru a'r amcanion ar gyfer gweithredu. | Rhoi camau gweithredu gofodol ar waith er mwyn cynnal a gwella Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn<br><br>Rhoi camau gweithredu trawsnewidiol ar waith er mwyn cynyddu gwybodaeth, sicrhau bod mwy o wybodaeth yn cael ei throsglwyddo a'i phrif ffrydio a chynyddu gweithgarwch llywodraethu ac adrodd ar gynnydd. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru: 2021 | Adroddiad i helpu dinasyddion a llunwyr polisi yng Nghymru i ddeall y tueddiadau a'r ffactorau ysgogi mawr sy'n debygol o lywio dyfodol Cymru.<br><br>Un o'r pedwar ysgogydd newid mawr yw Iechyd a Therfynau'r Blaned gyda bioamrywiaeth yn cael ei cholli yng Nghymru yn gynt nag erioed.  Er bod poblogaethau rhai rhywogaethau yng Nghymru wedi gwella, mae lleihad difrifol mewn niferoedd wedi'i gofnodi ymhlith rhywogaethau eraill (glöynnod byw, gwyfynod, rhywogaethau infertebrat a llawer o rywogaethau o blanhigion) gyda cholli bioamrywiaeth yn cael effaith uniongyrchol ar ecosystemau Cymru, sydd â lefel isel o wydnwch ar hyn o bryd. | Gwella gwydnwch rhwydweithiau ecolegol. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Adroddiad Tystiolaeth Natur Bositif 2030 gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, Natural England, Cyfoeth Naturiol Cymru, NatureScot ac Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon. | Mae'n nodi sut y gall y DU lwyddo i gyflawni ei hymrwymiadau mewn ymateb i golli bioamrywiaeth. Yn fwyaf nodedig drwy'r Addewid Arweinwyr dros Natur a lansiwyd yng Nghynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig yn 2020, ac ymrwymiad 30erbyn30 i warchod 30% o'n tir a'n moroedd ar gyfer byd natur erbyn 2030. Mae angen ystyried yr ymrwymiadau hyn gan sicrhau, ar yr un pryd, bod adfer natur yn chwarae ei rôl hollbwysig o ran cyflawni sero net. | O'r naw newid y gellir eu cyflawni'n gyflym gydag effeithiau sylweddol o ran gwrthdroi colli bioamrywiaeth, dylai'r canllawiau ystyried y canlynol:<br><br>• Sicrhau bod bywyd gwyllt yn ffynnu o fewn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAau) ac Ardaloedd Morol Gwarchodedig<br>• Gwarchod cynefinoedd bywyd gwyllt yn well y tu allan i SoDdGAau, yn arbennig yr ardaloedd hynny a nodwyd fel rhannau o rwydweithiau natur neu y nodwyd eu bod yn seilwaith gwyrdd/glas pwysig<br>• Buddsoddi yn y gwaith o adfer a chreu cynefinoedd er mwyn atgyfnerthu rhwydweithiau natur sy'n cyflawni ar gyfer bioamrywiaeth a newid hinsawdd | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | • Sicrhau bod canlyniadau ar gyfer byd natur yn cael eu hintegreiddio mewn cynlluniau datblygu ar y tir a'r môr<br>• Datblygu'r farchnad ar gyfer cyllid gwyrdd<br>• Datblygu sail dystiolaeth y DU er mwyn sicrhau ei bod yn barod i gefnogi'r newidiadau trawsnewidiol mwy o faint sy'n mynd rhagddynt<br>• Addasu targedau i fod yn Natur Bositif. | |
| CIEEM (2022) Welsh Government's Approach to Net Benefits for Biodiversity and the DECCA Framework in the Terrestrial Planning System | Mae'r papur briffio hwn yn nodi'r dirwedd polisi cynllunio daearol gyffredinol yng Nghymru, dull Llywodraeth Cymru o sicrhau buddion net ar gyfer bioamrywiaeth ac ystyriaethau allweddol i ecolegwyr a datblygwyr wrth gyflwyno cynigion cynllunio. | Hyrwyddo gwydnwch ecosystemau a chynnal a gwella bioamrywiaeth. | |
| Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. | Mae'r Ddeddf hon yn sicrhau bod cyrff cyhoeddus ac | Darparu mesurau diogelu ar gyfer SoDdGAau a hyrwyddo'r gwaith o warchod | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ymgymerwyr statudol yn cymryd camau rhesymol i warchod a gwella nodweddion arbennig Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAau) wrth arfer eu swyddogaethau. | a rheoli nodweddion arbennig SoDdGAau | |
| Strategaeth Gadwraeth ar gyfer y gardwenynen feinlais *bombus sylvarum* yng Nghymru a Lloegr, 2020-2030 | Adroddiadau ar y statws a'r tueddiadau presennol mewn perthynas â'r rhywogaeth hon. Mae hefyd yn nodi nodau ar gyfer cynyddu'r boblogaeth o gardwenyn meinlais. | Ehangu gwybodaeth a dealltwriaeth o gardwenyn meinlais. Ceisio gwella gwydnwch ar gyfer y gardwenynen feinlais heb unrhyw golled net o ran y cynefin sydd ei angen arni na'i phoblogaethau | |
| Cyfoeth Naturiol Cymru (2023) Rhwydweithiau Ecolegol â Blaenoriaeth | Mae Rhwydweithiau Ecolegol â Blaenoriaeth yn yr amgylchedd daearol yn fersiynau o rwydweithiau cynefinoedd Cymru Gyfan sy'n dangos ardaloedd o gysylltedd rhwng Safleoedd Gwarchodedig. | Hyrwyddo gwella, adfer neu greu cynefinoedd, a leolir o fewn ffiniau Rhwydwaith Ecolegol â Blaenoriaeth Gwastadeddau Gwent (ACA Afon Hafren) neu a leolir ger ei ymylon er mwyn cyfuno, ymestyn neu gysylltu gwahanol rwydweithiau ecolegol â blaenoriaeth. | |
| Cyfoeth Naturiol Cymru (2025) Terrestrial and Freshwater Species in Peril in Wales | Mae'r adroddiad hwn yn rhoi asesiad cynhwysfawr o'r rhywogaethau daearol a | Argymhellir bod cynllun gweithredu â blaenoriaeth yn cael ei ddatblygu ar gyfer SoDdGAau a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | dŵr croyw mwyaf agored i niwed yng Nghymru fel y'i deallwyd yn 2024. At ddibenion y gwaith hwn, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi canolbwyntio ar brinder gofodol fel mesur bod yn agored i newid gyda phob rhywogaeth<br>yn digwydd ar bum safle neu lai yng Nghymru | safleoedd eraill er mwyn cefnogi gwaith rheoli sympathetig ar gyfer Rhywogaethau mewn Perygl, gan leihau'r risg y bydd rhywogaethau yn diflannu'n llwyr neu o ardaloedd lleol. Dylid hefyd ystyried darparu mesurau diogelwch a sicrhau trefniadau rheoli priodol drwy ddynodi rhagor o SoDdGAau fel rhan o fframwaith â blaenoriaeth yng Nghymru.<br><br>Mae'r saith SoDdGA ar Wastadeddau Gwent, sy'n cynnwys 5000 hectar o dir a adferwyd (sy'n dir amaethyddol yn bennaf) ac 870 milltir o ffosydd ('reens') – sydd, gyda'i gilydd, yn cynnal 54 o rywogaethau sy'n Rhywogaethau mewn Perygl, gyda Chors Magwyr gerllaw yn cynnal 50 o rywogaethau. Pryfed dyfrol a lled-ddyfrol sy'n gysylltiedig â'r ffosydd draenio yw'r mwyafrif o'r rhywogaethau hyn. | |
| Cynllun Gweithredu Adferiad Natur Gwent Fwyaf (2022) | Dogfen strategol â dull rhanbarthol o adfer natur ledled Ardal Gwent | Ymgysylltu ac annog cyfranogi a dealltwriaeth er mwyn ymgorffori | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Fwyaf. Mae'r cynllun yn rhoi arweiniad ac argymhellion ar gamau gweithredu i adfer natur er mwyn atal dirywiad bioamrywiaeth a hyrwyddo adferiad natur ledled Gwent Fwyaf. | bioamrywiaeth drwy brosesau gwneud penderfyniadau ar bob lefel<br><br>Diogelu rhywogaethau o'r pwysigrwydd pennaf a sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n well<br><br>Mynd i'r afael â'r pwysau ar rywogaethau. | |
| Technical Ecology (2021) Gwent Fwyaf Sefyllfa Natur | Nod yr adroddiad hwn yw disgrifio'r hyn a wyddom am statws a thueddiadau detholiad o rywogaethau yng Ngwent Fwyaf, a'r bygythiadau sy'n effeithio arnynt, gan gynnwys rhywogaethau ar Wastadeddau Gwent. | Sicrhau newid mewn polisi a chamau gweithredu i gefnogi rhywogaethau ar Wastadeddau Gwent. | |
| Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol Sir Fynwy | Canllaw er mwyn helpu i warchod ac adfer natur yn Sir Fynwy. Fe'i lluniwyd gan Bartneriaeth Natur Leol Sir Fynwy ac mae'n gweithio ochr yn ochr â chynlluniau eraill yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. | Goblygiadau i'r Canllawiau / Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig:<br><br>Yr amcanion Allweddol yw:<br>• Atal colli bioamrywiaeth<br>• Gwella gwydnwch ecosystemau<br>• Ymgorffori adfer natur mewn prosesau | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gwneud penderfyniadau<br>• Cynnwys a grymuso cymunedau<br>• Darparu atebion sy'n seiliedig ar natur | |
| Gwent Levels. Mapping Resilient Ecological Network (REN) core zones and nature recovery zones (2025)<br><br>Gwastadeddau Gwent – Rhwydweithiau Ecolegol Cadarn \| MapDataCymru<br><br>Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyhoeddiadau, tystiolaeth ac ymchwil ar rywogaethau dŵr croyw a daearol) | Mae'r adroddiad hwn (a'i waith mapio) yn dangos parthau craidd a pharthau adfer natur Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn Gwastadeddau Gwent, fel y'u nodwyd ac unedau gofodol a fapiwyd er mwyn llywio ymyriadau adfer natur. Y diben yw dylanwadu ar amcanion a chamau rheoli tir, er mwyn cynnal a datblygu gwydnwch ecosystemau yn nhirwedd Gwastadeddau Gwent. | Cefnogi/<br>hyrwyddo'r gwaith o wella, adfer neu greu cynefinoedd mewn rhwydweithiau o gynefinoedd sy'n cysylltu safleoedd gwarchodedig a llecynnau cyfoethog o ran bioamrywiaeth ledled y dirwedd ehangach a nodi ardaloedd sy'n cynnig cyfle ecolegol gyda'r nod o sicrhau'r manteision mwyaf posibl ar gyfer bioamrywiaeth a llesiant dynol. | |
| Your Special Site and Its Future (Amrywiol) | Mae hyn yn rhan o ymrwymiad i wella'r ffordd y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda | Mae'r Datganiadau Rheoli Safle yn ymwneud yn benodol â nodweddion y SoDdGAau yn unig, y problemau y mae'r | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | pherchnogion a meddianwyr SoDdGAau. Ynddo, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn esbonio'r hyn sy'n arbennig am y bywyd gwyllt ar bob SoDdGA ar Wastadeddau Gwent a'r gofal sydd ei angen i ofalu am eu bywyd gwyllt yn y dyfodol. | SoDdGAau yn eu hwynebu a'r opsiynau rheoli. Mae'n ddogfen lefel uchel. | |
| Paul Whitehead (2019) Gwent Levels Traditional Orchard Invertebrate Study 2019-2021 | Cynhaliwyd astudiaethau o infertebratau mewn perllannau traddodiadol ar Wastadeddau Gwent a blaendraeth Afon Hafren gerllaw. | Helpu i adfer a rheoli perllannau. | |
| Cynllun Gweithredu Llwybr Hamdden Aber Afon Hafren | Mae'r cynllun gweithredu yn cefnogi mesurau diogelwch er mwyn osgoi achosion o halogi o ganlyniad i weithgarwch hamdden. Yn yr amgylchedd morol, cydnabyddir bod hamdden yn llwybr allweddol i gyflwyno a lledaenu rhywogaethau estron goresgynnol. Priodolir hyn i anifeiliaid | Dylai gweithgarwch hamdden ddilyn y camau bioddiogelwch yng nghynllun gweithredu Llwybr, gan gynnwys Archwilio, Glanhau a Sychu citiau a chyfarpar, sefydlu protocolau bioddiogelwch ar gyfer eu clybiau neu grŵp a chynnal a chadw cychod yn briodol, gan gynnwys mesurau gwrth-lygru ac atal biolygru. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | (fel wyau ac yn eu cyfnodau larfaol, ieuengaidd a ffurf lawn dwf) neu wymon (fel darnau neu sborau) yn cael eu trosglwyddo gan ddefnyddwyr hamdden a/neu eu cyfarpar rhwng lleoliadau. Mae'r cynllun gweithredu yn helpu i wella ymwybyddiaeth o'r effeithiau y gallai gweithgarwch hamdden eu cael ac addysgu pobl amdanynt. | | |
| Graham and Hammond (2022) Investigating ditch biodiversity in the Gwent Levels | Mae'r astudiaeth yn ymchwilio i ffosydd ar safleoedd pum fferm o fewn SoDdGAau Gwastadeddau Gwent a macro-infertebratau dyfrol<br><br>Nododd yr astudiaeth fod y mwyafrif helaeth o'r ffosydd ar bob un o'r safleoedd â dŵr agored wedi'u gorchuddio â llawer iawn o fwyd yr hwyaid (yn aml gyda wyneb y corff dŵr cyfan wedi'i orchuddio). Mae gorchudd helaeth o fwyd | Cefnogi'r gwaith o reoli'r rhwydwaith dŵr traddodiadol, gan gynnwys cyfyngu gwrychoedd i un ochr i ffosydd yn unig er mwyn i olau allu treiddio. | |

<table>
<tr><td></td><td>yr hwyaid yn atal planhigion dyfrol o dan y dŵr rhag tyfu drwy eu cysgodi ac, mewn rhai achosion, gall gael effaith negyddol ar ffawna drwy achosi lefelau isel o ocsigen yn sydyn ar ddiwedd yr haf.</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td colspan="4">THEMA 2: Yr Amgylchedd Naturiol a'i Adnoddau</td></tr>
<tr><td>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015</td><td>Mae a wnelo'r Ddeddf â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn diffinio datblygu cynaliadwy ac yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i sicrhau datblygu cynaliadwy.</td><td>Cyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol, yn arbennig:<br><br>• Cymru Gydnerth<br>• Cymru Iachach<br>• Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang<br>• Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu.</td><td rowspan="2">• Nodi ardaloedd y dylid eu diogelu a'u creu fel rhwydweithiau ecolegol er mwyn gwneud ein systemau naturiol yn fwy gwydn yn yr hirdymor a helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur.<br><br>• Cefnogi agenda twf gwyrdd ac economi sy'n defnyddio adnoddau yn effeithlon drwy adeiladu ar lwyddiant</td></tr>
<tr><td>Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 (Polisi 9)</td><td>Y cynllun datblygu cenedlaethol sy'n nodi'r cyfeiriad ar gyfer gwaith datblygu yng Nghymru tan 2040.<br><br>Cyflawni gofynion Polisi 9 i wella bioamrywiaeth, gwydnwch ecosystemau</td><td>Nodi ardaloedd y dylid eu diogelu a'u creu fel rhwydweithiau ecolegol</td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | a darpariaeth seilwaith gwyrdd. | | ynni adnewyddadwy ac ailgylchu<br><br>• Gwarchod ac adfer natur er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau a manteision ecosystemau nawr ac yn  y dyfodol<br><br>• Gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwydnwch ecosystemau ar Wastadeddau Gwent.<br><br>• Cefnogi a hyrwyddo dull cynaliadwy o gynhyrchu bwyd, gan sicrhau bod arferion o'r fath yn cyfrannu at fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur. |
| Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 | Mae'n helpu i fynd i'r afael â'r her o ddod o hyd i ffordd o sicrhau ecosystemau iach, gwydn a chynhyrchiol ar gyfer y dyfodol gan fydd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig â chreu swyddi, tai a seilwaith. | Diogelu a gwella gwydnwch systemau naturiol i barhau i ddarparu buddion yn yr hirdymor. | |
| Rhaglen Llywodraethu – Diweddariad | Ymrwymiad i ymgorffori ymateb y Llywodraeth i'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur ym mhopeth a wnawn. | Helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur. | |
| Llywodraeth Cymru (2024) Polisi Cynllunio Cymru – Argraffiad 12 (Pennod 6) | Polisi cynllunio cenedlaethol i greu lleoedd unigryw a naturiol sy'n gwneud y canlynol, ymhlith pethau eraill:<br><br>• Rhoi gwerth ar ansawdd ein tirweddau a'n hamgylchedd hanesyddol<br>• Diogelu, cynnal a gwella bioamrywiaeth, | Diogelu, cynnal a gwella bioamrywiaeth, gan wella gwydnwch ecosystemau a'n hamgylchedd naturiol. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gwella gwydnwch ein hecosystemau a'n hamgylchedd naturiol<br>• Hyrwyddo dewis adnoddau carbon isel a phriodol sy'n mynd i'r afael ag achosion newid hinsawdd<br>• Darparu gwasanaethau ecosystemau costeffeithiol megis aer a dŵr glân. | | |
| Llywodraeth Cymru (2017) Polisi Adnoddau Naturiol | Mae'r polisi yn canolbwyntio ar y ffordd rydym yn rheoli ein hadnoddau naturiol. Ymhlith pethau eraill, mae'r polisi yn nodi tair blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer rheoli ein hadnoddau naturiol:<br><br>1. Darparu atebion sy'n seiliedig ar natur<br>2. Cynyddu ynni adnewyddadwy ac | Darparu atebion sy'n seiliedig ar natur, megis datblygu rhwydweithiau ecolegol gwydn, cefnogi'r gwaith o addasu i newid hinsawdd a'i liniaru a gwella'r ffordd y mae seilwaith (gan gynnwys seilwaith gwyrdd), tir a dŵr yn cael eu rheoli<br><br>Adeiladu ar lwyddiant ynni adnewyddadwy ac ailgylchu er mwyn datblygu economi sy'n defnyddio adnoddau yn fwy effeithlon a chefnogi twf gwyrdd | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | effeithlonrwydd adnoddau<br>3. Gweithredu mewn ffordd sy'n seiliedig ar leoedd. | Canolbwyntio ar gydweithio er mwyn cyflawni canlyniadau gwell yn lleol. | |
| Llywodraeth Cymru (2019) Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: canllaw | Mae'r canllaw hwn yn nodi beth yw rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, pam mae'n bwysig a'r camau y gallwn eu cymryd i ddatblygu cynaliadwyedd. | Darparu atebion sy'n seiliedig ar natur, megis datblygu rhwydweithiau ecolegol gwydn, cefnogi'r gwaith o addasu i newid hinsawdd a'i liniaru a gwella'r ffordd y mae seilwaith (gan gynnwys seilwaith gwyrdd), tir a dŵr yn cael eu rheoli.<br><br>Adeiladu ar lwyddiant ynni adnewyddadwy ac ailgylchu er mwyn datblygu economi sy'n defnyddio adnoddau yn fwy effeithlon a chefnogi twf gwyrdd.<br><br>Canolbwyntio ar gydweithio er mwyn cyflawni canlyniadau gwell yn lleol. | |
| Llywodraeth Cymru (2022) Plymio Dwfn Bioamrywiaeth: Argymhellion | Mae'n datblygu set o gamau y gallwn eu cymryd ar y cyd i gefnogi'r gwaith o gyflawni nod '30 erbyn 30' | Datblygu canllawiau ar gyfer Polisi 9 Cymru'r Dyfodol drwy brosiect peilot Gwastadeddau Gwent. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | mewn modd ystyrlon er mwyn diogelu o leiaf 30% o'r tir a 30% o'r môr erbyn 2030.<br><br>Un o'r Amcanion yw parhau i ddiwygio prosesau rheoli a chynllunio tir a môr (gan gynnwys yn ofodol) er mwyn cyflawni mwy ar gyfer safleoedd gwarchodedig a thirweddau / morweddau ehangach. O dan yr Amcan mae angen gweithredu ar unwaith drwy wneud y canlynol:<br><br>• Datblygu canllawiau cryfach ar gyfer Polisi 9 Cymru'r Dyfodol drwy brosiect peilot Gwastadeddau Gwent ar gyfer prif ffrydio bioamrywiaeth, gwydnwch ecosystemau a seilwaith gwyrdd mewn polisïau | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cynllunio mewn Ardaloedd Rheoli Adnoddau Naturiol Cenedlaethol yng Nghymru. | | |
| Cyfoeth Naturiol Cymru (2021) Terrestrial and freshwater Resilient Ecological Networks: a guide for practitioners in Wales | Mae'r canllaw hwn yn darparu fframwaith cefnogi penderfyniadau tri cham ar gyfer dylunio rhwydweithiau ecolegol gwydn yn seiliedig ar egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. | Ystyried defnyddio'r canllaw ar gyfer dylunio Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn a chyfeirio ato. | |
| Cyfoeth Naturiol Cymru (2024) Adroddiad Interim ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol | Asesiad o'r graddau y mae Cymru yn llwyddo i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y prif heriau i'n hadnoddau naturiol, sef colli natur, newid hinsawdd a llygredd a gwastraff. | Rheoli ardaloedd gwarchodedig yn well<br><br>Gwarchod cynefinoedd y tu allan i ardaloedd gwarchodedig<br><br>Adfer cynefinoedd er mwyn creu ac atgyfnerthu rhwydweithiau natur | |
| Cynllun Ffermio Cynaliadwy – Diweddarwyd ddiwethaf yn 2025 | Nod y cynllun yw helpu i sicrhau bod bwyd yn cael ei gynhyrchu'n gynaliadwy gan fynd i'r afael â'r argyfwng | Cefnogi a hyrwyddo dull cynaliadwy o gynhyrchu bwyd, gan sicrhau bod arferion o'r fath yn cyfrannu at fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | hinsawdd a'r argyfwng natur ar yr un pryd. | | |
| Datganiad Ardal Canol De Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru)<br><br>Dolen i'r Datganiad | Mae'r datganiad yn mynd ati i fynd i'r afael â gwaddol y gorffennol ynghyd â heriau a chyfleoedd y dyfodol, gan ystyried ffyrdd y gallwn gydweithio i warchod, gwerthfawrogi a chofleidio'r amgylchedd naturiol ac, ar yr un pryd, sicrhau ei fod wrth wraidd y broses gwneud penderfyniadau.<br><br>Un o'r pum thema yw creu ecosystemau gwydn. | Gwarchod ac adfer natur er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau a manteision ecosystemau nawr ac yn y dyfodol. | |
| Gwent Levels. Mapping Resilient Ecological Network core zones and nature recovery zones (2025)<br><br>Gwastadeddau Gwent – Rhwydweithiau Ecolegol Cadarn \| MapDataCymru | Y rhwydweithiau ecolegol gwydn yw cynnyrch Datganiad Ardal De-ddwyrain Cymru a Datganiad Ardal Canol De Cymru ac maent yn cyfrannu at ddisgrifio'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.<br><br>Mae'r adroddiad hwn (a'i waith mapio) yn dangos | Diben dylunio a mapio'r rhwydweithiau ecolegol gwydn oedd cyfrannu tystiolaeth ofodol er mwyn dylanwadu ar amcanion a chamau rheoli tir, er mwyn cynnal a datblygu gwydnwch ecosystemau yn nhirwedd Gwastadeddau Gwent. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyhoeddiadau, tystiolaeth ac ymchwil ar rywogaethau dŵr croyw a daearol) | parthau craidd a pharthau adfer natur Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn Gwastadeddau Gwent, fel y'u nodwyd ac unedau gofodol a fapiwyd er mwyn llywio ymyriadau adfer natur. Y diben yw dylanwadu ar amcanion a chamau rheoli tir, er mwyn cynnal a datblygu gwydnwch ecosystemau yn nhirwedd Gwastadeddau Gwent | | |
| Cynllun Gwella Strategol Gwastadeddau Gwent 2023 | Mae'r cynllun yn darparu fframwaith ar gyfer sicrhau budd net i fioamrywiaeth ar gyfer y safleoedd M4CAN sydd wedi'u lleoli ledled Gwastadeddau Gwent. Mae'r asesiad o safleoedd yn seiliedig ar fframwaith DECCA ac yn darparu ar gyfer cymharu safleoedd o ran eu gwerth ecolegol posibl ac mae'n ffurfio sail dystiolaeth er mwyn blaenoriaethau safleoedd | Datblygu gwydnwch ecosystemau a sicrhau budd net i fioamrywiaeth. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ar gyfer gweithgarwch gwella strategol. | | |
| Cynllun Datblygu Lleol Amnewid Sir Fynwy – Cynllun Adnau (2024) | Dogfen bolisi sy'n dyrannu tir i'w ddatblygu, yn dynodi ardaloedd i'w gwarchod ac yn cynnwys polisïau y caiff ceisiadau cynllunio yn y dyfodol eu hasesu yn eu herbyn. | Diogelu a gwarchod Gwastadeddau Gwent a'u dynodiadau amgylcheddol. | |
| Cynllun Datblygu Lleol Amnewid Caerdydd – Cynllun Adnau (2025) | Dogfen bolisi sy'n dyrannu tir i'w ddatblygu, yn dynodi ardaloedd i'w gwarchod ac yn cynnwys polisïau y caiff ceisiadau cynllunio yn y dyfodol eu hasesu yn eu herbyn. | Gwella bioamrywiaeth (budd net) a hyrwyddo gwydnwch ecosystemau a darpariaeth seilwaith gwyrdd ar gyfer Gwastadeddau Gwent | |
| Cynllun Datblygu Lleol Amnewid Casnewydd – Strategaeth a Ffefrir (2023) | Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn sail i'r CDLl CDLL. Ymhlith pethau eraill, mae'r strategaeth yn cynnwys Gweledigaeth ac Amcanion ac fe'i hategir gan nifer o bolisïau strategol a safleoedd arfaethedig i gyflawni'r strategaeth. | Hyrwyddo a diogelu'r swyddogaethau a'r cyfleoedd a gynigir gan Wastadeddau Gwent. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwent Levels Our Vision for the Future (2022) | Mae'n nodi rôl Partneriaeth Tirlun Lefelau Byw, yr hyn y mae wedi'i gyflawni hyd yma, ei Gweledigaeth ar gyfer y Gwastadeddau a chamau gweithredu er mwyn helpu i gyflawni'r Weledigaeth.<br><br>Un o'r camau gweithredu yw:<br><br>Gwarchod a gwella cyfanrwydd hanesyddol, diwylliannol ac ecolegol Gwastadeddau Gwent drwy ddatblygu a gweithredu polisïau cynllunio a datblygu economaidd cyson sy'n cyd-fynd â'i gilydd ym mhob ardal awdurdodau lleol. | Datblygu polisïau cynllunio cyson ym mhob ardal awdurdod lleol ar y Gwastadeddau. | |
| **THEMA 3: Seilwaith Gwyrdd** | | | |
| Rhaglen Lywodraethu – Diweddariad | Ymrwymiad i ymgorffori ymateb y Llywodraeth i'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur ym mhopeth a wnawn drwy | Creu mannau gwyrdd neu eu gwella'n sylweddol. | • Cynyddu hyd yr eithaf ar ddarpariaeth Seilwaith Gwyrdd a'i rwydweithiau a'r |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ehangu trefniadau i greu mannau gwyrdd neu eu gwella'n sylweddol, ymhlith pethau eraill. | | diogelwch a roddir iddynt<br><br>• Sicrhau mwy o Seilwaith Gwyrdd mewn ardaloedd trefol, o'u hamgylch a rhyngddynt gyda mynediad a chysylltiadau gwell.<br><br>• Nodi ardaloedd sy'n cynnig cyfleoedd i ddarparu mwy o seilwaith gwyrdd a sicrhau'r manteision mwyaf posibl i rwydweithiau ecolegol gwydn. |
| Llywodraeth Cymru (2024) Polisi Cynllunio Cymru – Argraffiad 12 (Pennod 6) | Polisi cynllunio cenedlaethol i greu lleoedd unigryw a naturiol sy'n gwneud y canlynol, ymhlith pethau eraill:<br><br>• Gwarchod seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol, a all wneud cyfraniad sylweddol at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac, yn arbennig, at warchod, cynnal a gwella bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau, a darparu ar gyfer y seilwaith hwnnw. | Cynyddu hyd yr eithaf ar ddarpariaeth asedau a rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd a'r diogelwch a roddir iddynt. | |
| Llywodraeth Cymru (2017) Polisi Adnoddau Naturiol | Mae'r polisi yn canolbwyntio ar y ffordd rydym yn rheoli ein hadnoddau naturiol. | Cynyddu seilwaith gwyrdd mewn ardaloedd trefol ac o'u hamgylch. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ymhlith pethau eraill, mae'r polisi yn nodi tair blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer rheoli ein hadnoddau naturiol, sy'n cynnwys:<br><br>1. Darparu atebion sy'n seiliedig ar natur. | | |
| Llywodraeth Cymru (2019) Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: canllaw | Mae'r canllaw hwn yn nodi beth yw rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, pam mae'n bwysig a'r camau y gallwn eu cymryd i ddatblygu cynaliadwyedd. | Darparu mwy o seilwaith gwyrdd trefol bioamrywiol, sy'n cynnwys y cysylltiadau rhwng ein hardaloedd trefol a'r ardaloedd o'u hamgylch er mwyn sicrhau eu bod yn cysylltu â'i gilydd. | |
| Grid Gwyrdd Gwent (2024) Strategaeth Seilwaith Gwyrdd Ranbarthol | Mae'r strategaeth yn nodi fframwaith rhanbarthol lefel uchel er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu dyletswyddau drwy ddull rhanbarthol o ymdrin â seilwaith gwyrdd sy'n adlewyrchu polisi adnoddau naturiol a chynllunio Llywodraeth Cymru. | Diogelu, ehangu a gwella seilwaith gwyrdd ar Wastadeddau Gwent. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae Gwastadeddau Gwent wedi'u nodi yn y strategaeth ar gyfer cynllunio, rheoli a darparu seilwaith gwyrdd strategol. | | |
| Gwent Levels. Mapping Resilient Ecological Network core zones and nature recovery zones (2025)<br><br>Gwastadeddau Gwent – Rhwydweithiau Ecolegol Cadarn \| MapDataCymru<br><br>Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyhoeddiadau, tystiolaeth ac ymchwil ar rywogaethau dŵr croyw a daearol) | Mae'r adroddiad hwn yn dangos parthau craiff a pharthau adfer natur Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn Gwastadeddau Gwent, fel y'u nodwyd ac unedau gofodol a fapiwyd er mwyn llywio ymyriadau adfer natur. Y diben yw dylanwadu ar amcanion a chamau rheoli tir, er mwyn cynnal a datblygu gwydnwch ecosystemau yn nhirwedd Gwastadeddau Gwent. | Diben dylunio a mapio'r rhwydweithiau ecolegol gwydn oedd cyfrannu tystiolaeth ofodol er mwyn dylanwadu ar amcanion a chamau rheoli tir, er mwyn cynnal a datblygu gwydnwch ecosystemau yn nhirwedd a seilwaith gwyrdd Gwastadeddau Gwent. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Chris Blandford Associates (2017) Gwent Levels Green Infrastructure Strategy | Nod y Strategaeth yw helpu i lywio'r gwaith o reoli seilwaith gwyrdd ar Wastadeddau Gwent mewn modd cadarnhaol er budd cymunedau lleol a bywyd gwyllt.<br><br>Mae gan y Strategaeth ar gyfer Seilwaith Gwyrdd ddau nod, sef:<br><br>• Nodi a mapio asedau seilwaith gwyrdd presennol, asesu'r gwasanaethau neu'r buddion ecosystemau a ddarperir gan yr asedau hyn a nodi anghenion a chyfleoedd i wella asedau seilwaith gwyrdd yr ardal.<br>• Datblygu gweledigaeth hirdymor gyffredinol, egwyddorion a fframwaith ar gyfer cynllunio a darparu seilwaith gwyrdd. | Helpu i gyflawni'r blaenoriaethau allweddol canlynol:<br><br>• Gwella asedau seilwaith gwyrdd presennol<br>• Cynyddu hyd yr eithaf ar gyfleoedd ar gyfer seilwaith gwyrdd<br>• Gwella mynediad, cysylltiadau a chyfleusterau sy'n ymwneud â mannau gwyrdd<br>• Gwrthdroi'r broses o erydu a darnio cynefinoedd naturiol a lled-naturiol<br>• Hyrwyddo dylunio datblygiadau newydd sensitif o ansawdd uchel. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Canllawiau Cynllunio Atodol Sir Fynwy ar gyfer Seilwaith Gwyrdd (Ebrill 2015) | Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol hyn yn helpu i ddehongli polisïau seilwaith gwyrdd S13 a GI1 yng Nghynllun Datblygu Lleol mabwysiedig Sir Fynwy. | Cefnogi cyfanrwydd a chysylltedd y rhwydwaith seilwaith gwyrdd er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei gynnal, ei warchod a'i wella mewn ffordd a gynlluniwyd ac a reolir. | |
| Strategaeth Seilwaith Gwyrdd Sir Fynwy (2019) Cyfrolau 1 a 2 | Mae'r strategaeth yn hyrwyddo dull integredig a chydgysylltiedig o ddarparu seilwaith gwyrdd sy'n ystyried anghenion cymunedau, amgylchedd ac economi Sir Fynwy.<br><br>Mae Cyfrol 2 o'r strategaeth yn darparu cynllun cyflawni'r Cyngor ar gyfer seilwaith gwyrdd yn Sir Fynwy. | Gwarchod, diogelu a gwella asedau seilwaith gwyrdd Sir Fynwy. | |
| Canllawiau Cynllunio Atodol Caerdydd ar gyfer Seilwaith Gwyrdd (Tachwedd 2017) | Maent yn rhoi cyngor cynllunio ar nifer o feysydd sy'n ymwneud â gwaith datblygu a'r amgylchedd, gan gynnwys gwarchod a darparu mannau agored, ecoleg a bioamrywiaeth, coed, priddoedd, hawliau | Gwarchod nodweddion SoDdGA Gwastadeddau Gwent: Rhymni a Llanbedr Gwynllŵg a nodwyd. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | tramwy cyhoeddus a choridorau afonydd. Mae hefyd yn cyfeirio at systemau draenio cynaliadwy (SuDS) sy'n rhan o seilwaith gwyrdd.<br><br>Mae'n nodi nodweddion SoDdGA Gwastadeddau Gwent: Rhymni a Llanbedr Gwynllŵg ar gyfer cynnal nifer o rywogaethau pwysig o blanhigion gan gynnwys Brwyn Blodeuol, Crafanc Dŵr Lled Hallt, yr Alaw Lleiaf a Dyfrllys Blewynnaidd.<br><br>Mae'r ffawna infertebrat dyfrol yn amrywiol iawn ac mae'n cynnwys llawer o rywogaethau prin a nodedig. | | |
| Asesiad Seilwaith Gwyrdd Caerdydd (Ionawr 2025) | Mae’r adroddiad yn tynnu sylw at Gwastadeddau Gwent (Wentloo) fel tirlun o bwysigrwydd cenedlaethol o reeniau a chynefinoedd gwlyptir sy’n ffurfio rhan allweddol | Mae’n nodi Gwastadeddau Gwent (Wentloog) fel un o’i rhwydweithiau ecolegol gwydn. Mae angen i’r Canllawiau adlewyrchu hyn yn llawn | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | o rwydwaith seilwaith gwyrdd Caerdydd. Mae’n pwysleisio’r angen i warchod ac atgyfnerthu byfferau cynefinoedd, gwella rheolaeth y ffosydd a’r reeniau, ehangu cynefinoedd addas ar gyfer rhywogaethau fel y gwenynen garder grwnnefol, ac wella cysylltedd rhwng y Lefelau, coridorau afonydd a mannau gwyrdd cyfagos i gefnogi bioamrywiaeth, rheoli llifogydd ac adfywiad ecolegol | | |
| Asesiad o Seilwaith Gwyrdd Casnewydd (Mai 2022) | Mae'n darparu dull strategol o gynllunio rhwydweithiau seilwaith gwyrdd.<br><br>Nodir cyfleoedd ar gyfer seilwaith gwyrdd ar y 1200km, fwy neu lai, o ffosydd caeau sy'n croesi'r Gwastadeddau sydd angen eu cynnal a chadw er mwyn cynnal yr amrywiaeth gyfoethog o blanhigion a | Cynnal ffosydd caeau a ffosydd draenio ('reens'). | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | phoblogaethau cysylltiedig o infertebratau a geir yma a lle mae'r cyrsiau dŵr yn llawn llystyfiant, mae capasiti storio llifogydd y system ddraenio wedi'i lleihau, a allai arwain at lifogydd lleol. | | |
| **THEMA 4: Fflora (cynefinoedd)** | | | |
| Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 | Mae'n helpu i fynd i'r afael â'r her o ddod o hyd i ffordd o sicrhau ecosystemau iach, gwydn a chynhyrchiol ar gyfer y dyfodol gan fydd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig â chreu swyddi, tai a seilwaith.<br><br>Rhaid i awdurdodau cyhoeddus, wrth gydymffurfio â dyletswydd Adran 6, ystyried rhestrau Adran 7, sy'n darparu ffocws ar rywogaethau a chynefinoedd o'r pwysigrwydd pennaf. | Cydnabod Gwastadeddau Gwent fel un o'r cynefinoedd a nodir yn Adran 7, sydd o'r pwysigrwydd pennaf er mwyn cynnal a gwella bioamrywiaeth. | • Nodi ardaloedd y dylid eu diogelu a'u creu fel rhwydweithiau ecolegol gwydn er mwyn helpu i warchod, adfer neu greu cynefinoedd.<br><br>• Gwella gwydnwch ein hamgylchedd naturiol a'i ddynodiadau statudol drwy adfer a rheoli cynefinoedd a mynd i'r afael â phwysau allweddol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 (Polisi 9) | Y cynllun datblygu cenedlaethol sy'n nodi'r cyfeiriad ar gyfer gwaith datblygu yng Nghymru tan 2040.<br><br>Cyflawni gofynion Polisi 9 i wella bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau. | Nodi ardaloedd y dylid eu diogelu a'u creu fel rhwydweithiau ecolegol er mwyn gwarchod, adfer neu greu cynefinoedd, ymhlith pethau eraill. | • Cefnogi cynefinoedd a bywyd gwyllt sy'n unigryw i Wastadeddau Gwent gan ganolbwyntio ar sefydlu a rheoli glaswelltiroedd, gwrychoedd a pherllannau.<br><br>• Lleihau lledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol. |
| Cyfoeth Naturiol Cymru (2015) Rhaglen Natura 2000 LIFE yng Nghymru | Cynllun strategol sy'n nodi'r gofynion o ran rheoli ac adfer rhwydwaith Natura 2000. Mae'r rhwydwaith yn cynnwys cynefinoedd dan fygythiad a rhywogaethau a warchodir gan Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau) ac AGAau. | Defnyddio ffiniau a nodweddion ACA Afon Wysg, Afon Gwy ac Aber Afon Hafren ar Wastadeddau Gwent i helpu i reoli ac adfer rhwydwaith Nature 2000.<br><br>Mae AGA Aber Afon Hafren yn cyffinio â Gwastadeddau Gwent. | |
| Llywodraeth Cymru (2024) Polisi Cynllunio Cymru – Argraffiad 12 (Pennod 6) | Polisi cynllunio cenedlaethol i greu lleoedd unigryw a naturiol sy'n gwneud y canlynol, ymhlith pethau eraill:<br><br>• Mae'n sicrhau na ddylai gwaith datblygu arwain at | Gwella gwydnwch ecosystemau neu ei gwneud yn bosibl i wydnwch ecosystemau gael eu gwella. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | golli cynefinoedd ar raddfa fawr. | | |
| Cyfoeth Naturiol Cymru (2023) Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAau) | Mae'r set ddata hon yn cynnwys ffiniau SoDdGAau sy'n ymestyn dros amrywiaeth eang o gynefinoedd o ffeniau bach, corsydd a dolydd glan afon i dwyni tywod, gwlyptiroedd ac ardaloedd helaeth o ucheldiroedd. | Sicrhau y caiff nodweddion SoDdGAau sy'n ymestyn dros Wastadeddau Gwent eu rheoli mewn ffordd gyson a ffafriol | |
| Cynllun Gweithredu Adferiad Natur Gwent Fwyaf (2022) | Dogfen strategol â dull rhanbarthol o adfer natur ledled Ardal Gwent Fwyaf. Mae'r cynllun yn rhoi arweiniad ac argymhellion ar gamau gweithredu i adfer natur er mwyn atal dirywiad bioamrywiaeth a hyrwyddo adferiad natur ledled Gwent Fwyaf. | Gwella gwydnwch ein hamgylchedd naturiol drwy adfer cynefinoedd sy'n dirywio a chreu cynefinoedd.<br><br>Diogelu cynefinoedd o'r pwysigrwydd pennaf a sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n well.<br><br>Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar gynefinoedd. | |
| Cynllun Gweithredu Bioddiogelwch Aber Afon Hafren | Mae Cynllun Gweithredu Bioddiogelwch Aber Afon Hafren yn nodi mesurau er mwyn helpu i atal a rheoli lledaeniad | Mae camau gweithredu allweddol yn cynnwys hyrwyddo'r protocol “Archwilio, Glanhau, Sychu”, penodi arweinwyr | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | rhywogaethau estron goresgynnol ar draws yr aber. Mae'n mabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar lwybrau, sy'n canolbwyntio ar weithgareddau megis hamdden, pysgota, gweithrediadau masnachol, marinas, adfer cynefinoedd, ymchwil a digwyddiadau. | bioddiogelwch mewn sefydliadau a chodi ymwybyddiaeth ymhlith defnyddwyr. Nod y mesurau hyn yw diogelu bioamrywiaeth, lleihau costau cynnal a chadw a sicrhau cydymffurfedd â rhwymedigaethau amgylcheddol. | |
| Asesiadau Cyflwr Nodweddion Dangosol ar Lefel Safle (ACA Aber Afon Hafren, 2018) | Mae Adroddiad ACA 2018 yn darparu asesiad llinell sylfaen o gyflwr cynefinoedd a rhywogaethau allweddol yn Ardal Cadwraeth Arbennig Aber Afon Hafren. Mae'n gwerthuso cynefinoedd a nodir yn Atodiad I megis aberoedd, fflatiau llaid a morfeydd heli, ynghyd â rhywogaethau Atodiad II gan gynnwys llysywod pendoll a herlod. Mae'r canfyddiadau hyn yn hanfodol i ddeall cysylltedd cynefinoedd a llywio blaenoriaethau o ran gwaith adfer. | Mae'r adroddiad yn nodi pwysau sy'n effeithio ar y nodweddion hyn ac amcanion cadwraeth i gynnal cyfanrwydd ecolegol | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwent Levels. Mapping Resilient Ecological Network (REN) core zones and nature recovery zones (2025)<br><br>Gwastadeddau Gwent – Rhwydweithiau Ecolegol Cadarn \| MapDataCymru<br><br>Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyhoeddiadau, tystiolaeth ac ymchwil ar rywogaethau dŵr croyw a daearol) | Mae'r adroddiad hwn yn dangos parthau craiff a pharthau adfer natur Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn Gwastadeddau Gwent, fel y'u nodwyd ac unedau gofodol a fapiwyd er mwyn llywio ymyriadau adfer natur. Y diben yw dylanwadu ar amcanion a chamau rheoli tir, er mwyn cynnal a datblygu gwydnwch ecosystemau yn nhirwedd Gwastadeddau Gwent. | Cefnogi/ hyrwyddo'r gwaith o wella, adfer neu greu cynefinoedd mewn rhwydweithiau o gynefinoedd sy'n cysylltu safleoedd gwarchodedig a llecynnau cyfoethog o ran bioamrywiaeth ledled y dirwedd ehangach a nodi ardaloedd sy'n cynnig cyfle ecolegol gyda'r nod o sicrhau'r manteision mwyaf posibl ar gyfer bioamrywiaeth llesiant dynol. | |
| | Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r Astudiaeth Monitro Ôl-adeiladu o ddatblygiadau mawr a adeiladwyd o fewn SoDdGAau Gwastadeddau Gwent neu'n agos atynt a gynhaliwyd er mwyn gwneud y canlynol: | Cyflawni, o bosibl, yr argymhellion canlynol yn y canllawiau:<br><br>• Datblygu Canllawiau a/neu restr wirio o asesiad seiliedig ar feini prawf Fframwaith DECCA | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Asesu a gafodd effeithiau ar fioamrywiaeth, a'r rhai sy'n ymwneud â nodweddion y SoDdGAau, eu nodi'n llwyddiannus, a'u hosgoi a/neu eu lliniaru.<br>• Ystyried a allai camau a gymerwyd a mesurau a roddwyd ar waith ar y pryd gydweddu â gofynion presennol o ran amcanion ac egwyddorion Polisi 9 (Cymru'r Dyfodol) i sicrhau buddion net i fioamrywiaeth ac, os nad oeddent yn gydweddol neu os oeddent yn annhebygol, ystyried pam felly. | • Canllawiau cynllunio penodol ar gyfer Gwastadeddau Gwent<br>• Ymchwilio ymhellach er mwyn nodi'r ffactorau sydd wedi dylanwadu ar weithgarwch creu ac adfer cynefinoedd ar y Gwastadeddau i fod yn llwyddiannus neu fethu.<br>• Safonau amodau cynllunio a geiriad cyson ar gyfer y diogelwch a sicrhau budd net i fioamrywiaeth a gweithgarwch rheoli a monitro hirdymor addasol<br>• Ystyried bod cynlluniau cyflawni, rheoli a monitro manwl i sicrhau budd net i fioamrywiaeth yn rhan o'r cais cynllunio yn hytrach na thrwy amod cynlluniau a/neu ymrwymiadau drwy gytundeb o dan A106 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | • Cyflwyno bondiau budd net i fioamrywiaeth/'bondiau peidio â chyflawni', ardollau, cosbau neu gymhellion mewn polisïau a rheoliadau er mwyn gwella'r broses o sicrhau budd net i fioamrywiaeth.<br><br>• Mesurau diogelwch pellach ar gyfer cynefinoedd sy'n darparu gwydnwch ecosystemau i Ardaloedd Gwarchodedig a/neu fesurau cadwraeth natur newydd er mwyn osgoi colli rhwydweithiau natur. | |
| Reading Agricultural Consultants (2022) Wetland Landscape Restoration and Maintenance in the Gwent Levels – Costings | Mae'r ddogfen hon yn nodi dadansoddiad o gostau tebygol i fusnesau fferm sy'n gysylltiedig â gweithredu polisïau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy gan roi ystyriaeth benodol i'r canlynol: rheoli glaswelltir a chynefinoedd ehangach | Cefnogi'r gwaith o gynnal a chadw a gwella glaswelltiroedd gwlyb ar gyfer eu cynefinoedd cysylltiedig gan bryfed peillio a phryfed buddiol eraill.<br><br>Cefnogi'r gwaith o reoli gwrychoedd ar gyfer bywyd gwyllt ac er mwyn osgoi cysgodi dŵr. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ar gyfer pryfed peillio; rheoli gwrychoedd ar gyfer bywyd gwyllt; ac adfer perllannau.<br><br>Mae'r adroddiad yn cydnabod gwerth glaswelltir gwlyb i sicrhau buddion ar ben ei werth cadwraeth. Mae atafaelu carbon, lliniaru llifogydd, amsugno maethynnau a llygredd ac ail-lenwi dŵr daear oll yn wasanaethau a ddarperir gan y cynefin.<br><br>Nodwyd nad yw gweithgarwch plannu gwrychoedd bob amser yn briodol yn nhirwedd y Gwastadeddau a gan amlaf bod angen rheoli gwrychoedd yn dda neu eu clirio hyd yn oed er mwyn gwarchod nodweddion dŵr wyneb.<br><br>Mae perllannau wedi chwarae rôl bwysig yn hanes diwylliannol Gwastadeddau Gwent. | Cefnogi'r gwaith o adfer ac ailsefydlu perllannau. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Legal Advice: Sustaining the Gwent Levels project (Partneriaeth y Lefelau Byw, 2022) | Mae'r adroddiad hwn yn nodi camau rheoli allweddol ar gyfer rheoli tir yn gynaliadwy ar Wastadeddau Gwent. Mae a wnelo dau o'r camau gweithredu allweddol â rheoli gwlyptir a rheoli coed a gwrychoedd. | Cefnogi'r gwaith o reoli glaswelltiroedd:<br><br>Mae cynnal a chreu glaswelltiroedd sy'n llawn blodau a'u cysylltu â'i gilydd ledled y Gwastadeddau, yn fuddiol i lawer o rywogaethau.<br><br>Cyfyngu ar y defnydd o blaleiddiaid, a mewnbynnau eraill am eu bod yn lleihau amrywiaeth y borfa ac yn gallu bod yn niweidiol i wenyn a phryfed eraill.<br><br>Help i gynnal ardaloedd gwlyb a llaith bas h.y. ffosydd arwyneb bas ('grips').<br><br>Cadw porfa agored er mwyn cadw'r llystyfiant yn agored ac yn fyr.<br><br>Mae clirio prysgwydd a rhannau o wrychoedd er mwyn adfer y ffosydd hefyd yn helpu adar sy'n nythu ar y ddaear. | |

| **THEMA 5: Treftadaeth a thirwedd ddiwylliannol** | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfoeth Naturiol Cymru LANDMAP | Mae LANDMAP yn adnodd mapio i hwyluso'r broses o wneud penderfyniadau cynaliadwy a chynllunio adnoddau naturiol sy'n seiliedig ar bum set ddata ofodol sy'n genedlaethol gyson:<br><br>- Tirwedd Ddaearegol<br>- Cynefinoedd Tirwedd<br>- Gweledol a Synhwyraidd<br>- Tirwedd Hanesyddol<br>- Tirwedd Ddiwylliannol. | Gellir ei ddefnyddio er mwyn helpu i gyfeirio gwaith datblygu neu newidiadau i drefniadau rheoli tir at leoliadau tirwedd llai sensitif. | • Gwarchod a gwella tirwedd hanesyddol a diwylliannol Gwastadeddau Gwent er budd cymunedau lleol a hyrwyddo Gwastadeddau Gwent fel cyrchfan i ymwelwyr<br><br>• Gwarchod a gwella tirwedd a bioamrywiaeth unigryw Gwastadeddau Gwent drwy nodi a diogelu rhwydweithiau ecolegol gwydn gan ganolbwyntio ar gynnal systemau draenio traddodiadol, glaswelltir lled-naturiol, ardaloedd coediog, storio carbon yn y pridd a gweithgarwch ffermio'r ardal. |
| Llywodraeth Cymru (2024) Polisi Cynllunio Cymru – Argraffiad 12 (Pennod 6) | Polisi cynllunio cenedlaethol i greu lleoedd unigryw a naturiol sy'n gwneud y canlynol, ymhlith pethau eraill:<br><br>• Darparu ar gyfer gwarchod a, lle y bo'n briodol, wella tirweddau lleol. | Darparu ar gyfer gwarchod a, lle y bo'n briodol, wella tirweddau lleol. | |
| Cofrestr o Dirweddau o | Nodir bod Gwastadeddau Gwent yn Dirwedd | Cael yr effaith andwyol leiaf bosibl ar ardal tirwedd | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru | Hanesyddol yng Nghymru. | hanesyddol Gwastadeddau Gwent. | • Mapio cyfleoedd i ddiogelu a gwella'r dirwedd hanesyddol a diwylliannol ymhellach er budd cymunedau lleol ac ymwelwyr.<br><br>• Ystyried goblygiadau llygredd golau a sicrhau y caiff llonyddwch a natur anghysbell cymeriad tirwedd Gwastadeddau Gwent eu cynnal a'u gwella. |
| Datganiad Ardal De-ddwyrain Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru)<br><br>Dolen i'r Datganiad | Lluniwyd y datganiad ar raddfa tirwedd drwy ystyried ble a pham rydym am ddatblygu gwydnwch ecosystemau o ran yr ardal tirwedd arbennig ac unigryw.<br><br>Un o'r pedair thema yw cysylltu'r tirweddau. | Gwella gwydnwch ein hecosystemau ledled Gwent<br><br>Gwell dealltwriaeth o'r angen i ddiogelu a gwella rhwydweithiau cynefinoedd craidd a chefnogi cysylltedd ecolegol ar ein 'safleoedd gorau' a rhyngddynt ledled Gwent.<br><br>Cynyddu capasiti sefydliadau ac unigolion, gan sicrhau bod ganddynt yr adnoddau, y sgiliau a'r arweiniad sydd eu hangen i ddiogelu a gwella ein rhwydweithiau cynefinoedd craidd ledled Gwent. | |
| Gwent Levels. Mapping Resilient Ecological Network (REN) core zones and nature recovery zones (2025) | Mae'r adroddiad hwn yn dangos parthau craiff a pharthau adfer natur Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn Gwastadeddau Gwent, fel y'u nodwyd ac unedau gofodol a fapiwyd er mwyn llywio ymyriadau adfer natur. Y diben yw | Diben dylunio a mapio'r rhwydweithiau ecolegol gwydn oedd cyfrannu tystiolaeth ofodol er mwyn dylanwadu ar amcanion a chamau rheoli tir, er mwyn cynnal a datblygu gwydnwch ecosystemau yn nhirwedd Gwastadeddau Gwent. Mae | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwastadeddau Gwent – Rhwydweithiau Ecolegol Cadarn \| MapDataCymru<br><br>Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyhoeddiadau, tystiolaeth ac ymchwil ar rywogaethau dŵr croyw a daearol | dylanwadu ar amcanion a chamau rheoli tir, er mwyn cynnal a datblygu gwydnwch ecosystemau yn nhirwedd Gwastadeddau Gwent. | hyn yn cynnwys cydnabod y cyfleoedd a gynigir gan asedau diwylliannol a threftadaeth Gwastadeddau Gwent. | |
| Llonyddwch a Lle – Awyr Dywyll – Cyfoeth Naturiol Cymru (2025) | Dadansoddiad o'r llygredd golau ar gyfer pob ardal awdurdod lleol, ardaloedd gweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru, ardaloedd Polisi 9 Cymru'r Dyfodol ac ardaloedd cymeriad tirwedd cenedlaethol yng Nghymru â map rhyngweithiol. Mae hefyd yn amlinellu sut y dylid ymgorffori gwybodaeth o'r astudiaeth hon mewn cynlluniau strategol er | Mae'n hyrwyddo'r syniad y dylid trin llygredd golau fel cymeriad tirwedd ac adnodd naturiol i'w hystyried ar gyfer Gwastadeddau Gwent ac ardaloedd awdurdod lleol cysylltiedig. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | mwyn darparu llonyddwch a lle drwy awyr dywyll a lleihau llygredd golau. Un o ganfyddiadau allweddol yr astudiaeth hon oedd, er yr ymddengys fod y golau sy'n cael ei allyrru mewn dinasoedd yn lleihau, fod yr ardaloedd o amgylch dinasoedd fel petaent yn dod yn oleuach. | | |
| Cynllun Rheoli Gwastadeddau Gwent (Partneriaeth y Lefelau Byw, 2022) | Mae'r cynllun yn adolygu cyflawniadau Partneriaeth y Lefelau Byw, yn asesu'r cyd-destunau polisi sy'n berthnasol i'r gwaith o reoli Gwastadeddau Gwent, yn crynhoi nodweddion allweddol tirwedd y Gwastadeddau ac yn darparu gweledigaeth a set o nodau ar gyfer ei rheoli. Yn olaf, mae'n nodi cynllun gweithredu o amcanion a chamau gweithredu mewn rhaglen pum mlynedd, gan nodi asiantaethau arweiniol, adnoddau a risgiau | Gwarchod a gwella cyfanrwydd hanesyddol, diwylliannol ac ecolegol Gwastadeddau Gwent. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Un o'r nodau y gall y canllawiau helpu i'w gyflawni yw:<br><br>Caiff cyfanrwydd hanesyddol, diwylliannol ac ecolegol Gwastadeddau Gwent ei warchod a'i wella drwy ddatblygu a gweithredu polisïau cynllunio a datblygu economaidd cyson sy'n cyd-fynd â'i gilydd ym mhob ardal awdurdodau lleol. | | |
| Chris Blandford Associates (2017) Gwent Levels Landscape Character Assessment (LCA) | Diben yr Asesiad o Gymeriad y Dirwedd yw helpu i lywio'r gwaith o reoli a chynllunio Gwastadeddau Gwent mewn ffordd gadarnhaol drwy asesu cymeriad unigryw a nodweddion arbennig yr ardal y mae'n ddymunol eu diogelu, eu gwarchod a'u gwella.<br><br>Mae amcanion yr asesiad yn cynnwys: | Gwarchod, diogelu a gwella Gwastadeddau Gwent.<br><br>Gwella seilwaith gwyrdd.<br><br>Tynnu sylw at hanes Gwastadeddau Gwent. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Gwarchod, diogelu a gwella nodweddion unigryw yr ardaloedd<br>• nodi cyfleoedd ar gyfer gwella asedau seilwaith gwyrdd yn yr ardaloedd cymeriad tirwedd<br>• Dod â stori datblygiad hanesyddol a chymeriad presennol Gwastadeddau Gwent yn fyw er mwyn helpu i wella dealltwriaeth pobl o'r dirwedd a'u cysylltiadau â hi. | | |
| Astudiaeth Ardal Tirwedd Arbenning Caerdydd (Ionawr 2025) | Mae'r adroddiad yn nodi ac yn mapio'r Lefelau Wentloog fel Ardal Tirwedd Arbennig ymgeisiol (SLA) 4, gan gadarnhau eu bod yn haeddu parhau i gael dynodiad tirwedd leol oherwydd eu rhwydwaith | Rhaid i gynllunio a rheoli ddiogelu cymeriad arfordirol agored a gwastad yr ardal, ei thawelwch, ei golygfeydd eang, a'i systemau reen a chaeau hanesyddol, ynghyd â'i nodweddion ecolegol o bwysigrwydd rhyngwladol, | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | dŵr dyddodion reen prin ei fath yn genedlaethol, eu cynefinoedd sydd â dynodiadau rhyngwladol (SAC/SPA/Ramsar), a'u cydnabyddiaeth fel rhan o'r Dirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Rhagorol yng Nghymru. | gan atal ymlediad trefol neu ddiwydiannol pellach. | |
| Datganiad Ardal De-ddwyrain Cymru – Proffil Tirwedd Gwastadeddau Gwent<br><br>Dolen i'r Datganiad 2018 | Mae'n nodi proffiliau tirwedd allweddol Gwastadeddau Gwent, y mae tri ohonynt:<br><br>• Yn laswelltir ac yn dir ffermio<br>• Yn goetir<br>• Yn amgylchedd trefol. | Sicrhau y parheir i ddefnyddio cymaint o'r gwastadeddau â phosibl at ddibenion amaethyddol.<br><br>Dylid rheoli ardaloedd o laswelltir lled-naturiol sy'n bodoli eisoes a hwyluso gwrthdroi dirywiad ardaloedd o laswelltir lled-naturiol neu greu rhagor o ardaloedd o'r fath.<br><br>Gwella gwydnwch a chysylltedd coetir.<br><br>Sicrhau y gwneir dewisiadau gwydn ar gyfer seilwaith a datblygiadau adeiledig presennol a newydd. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfoeth Naturiol Cymru (2014) Asesiad Cymeriad Tirwedd Cenedlaethol 34: Gwastadeddau Gwent | Mae'n nodi nodweddion tirwedd allweddol Gwastadeddau Gwent yn seiliedig ar y canlynol:<br><br>• Proffil gweledol a synhwyraidd<br>• Tirwedd ddaearegol<br>• Cynefin tirwedd<br>• Tirwedd hanesyddol<br>• Tirwedd Ddiwylliannol. | Gwarchod tirwedd a bioamrywiaeth unigryw Gwastadeddau Gwent gan ganolbwyntio'n arbennig ar gynnal y patrwm unigryw o ffosydd draenio a 'reens'. | |
| 2018-2025 Seven Estuary Management Scheme- ASERA | Mae'r Cynllun Rheoli yn hwyluso gwneud penderfyniadau ac yn datblygu'n barhaus er mwyn ystyried materion sy'n newid a'r dirwedd bolisi. Mae'n ceisio adlewyrchu amgylchiadau lleol y safle (h.y. maint, trawsffiniol) ac ystyried arferion da o Safleoedd Morol Ewropeaidd eraill yn y DU. Lansiodd ASERA y Cynllun Rheoli ar gyfer Safle Morol Ewropeaidd Môr Hafren gyntaf yn 2004 | Mae'r gofynion allweddol ar gyfer Safle Morol Ewropeaidd Môr Hafren fel a ganlyn:<br><br>• Dylid ei reoli er mwyn cael ‘statws cadwraeth ffafriol’ y cynefinoedd a'r rhywogaethau y'i dynodwyd o'u herwydd;<br>• Dylid cymryd camau priodol i atal y cynefinoedd a'r rhywogaethau rhag dirywio neu sicrhau na therfir yn ddifrifol arnynt; | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | • Rhaid i weithgareddau a chynlluniau neu brosiectau sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar gadwraeth cynefinoedd a rhywogaethau y dynodwyd y safle o'u herwydd gael eu hasesu. | |
| Partneriaeth y Lefelau Byw (2017) Landscape Conservation Action Plan | Mae'r cynllun yn darparu naratif o'r dirwedd, gan ddisgrifio'r hyn sy'n rhoi ei chymeriad unigryw i'r ardal, gan asesu'r risgiau, a'r bygythiadau a'r cyfleoedd y mae'n eu hwynebu. Mae'r cynllun yn cynnwys nodau ac amcanion i gyflawni gweledigaeth hirdymor Partneriaeth y Lefelau Byw<br><br>Nodir mai'r ddau brif fygythiad i'r Gwastadeddau yw:<br><br>1. Datgysylltiad cynyddol oddi wrth y dirwedd ymhlith rhannau cynyddol | Cefnogi'r rhaglen ar Adfer Treftadaeth Naturiol drwy ddiogelu, gwarchod a gwella treftadaeth naturiol ac asedau seilwaith gwyrdd Gwastadeddau Gwent a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd parhau i reoli'r dirwedd unigryw hon er budd y cymunedau sy'n byw ac yn gweithio ar y Gwastadeddau, yn ogystal â'r ardal o'u hamgylch.<br><br>Cefnogi'r Rhaglen ar Reoli a Dehongli Cyrchfannau a Chael Mynediad Atynt er mwyn cynyddu nifer yr ymwelwyr â Gwastadeddau Gwent, eu gwerth economaidd a'r mwynhad ohonynt drwy wella mynediad, | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | o'r gymuned, sy'n arwain at golli nodweddion treftadaeth o ganlyniad i leihad mewn arferion rheoli tir traddodiadol ar y Gwastadeddau.<br><br>2. "Gweledigaeth" ac "ymdeimlad o le" annatblygedig ar gyfer dyfodol hirdymor y dirwedd hon. Mae hyn yn arwain at waith datblygu amhriodol; cyfleoedd a gollwyd ar gyfer twristiaeth a mewnfuddsoddiad; a mwy o effeithiau negyddol sy'n deillio o gytrefi lleol. | ymwybyddiaeth a phrofiad ymwelwyr a helpu i ailgysylltu'r gymuned leol â thirwedd Gwastadeddau Gwent a'i threftadaeth drwy gynnwys pobl o bob oedran, cefndir a gallu a'u cysylltu â'u mannau gwyrdd lleol, safleoedd o ddiddordeb treftadaeth a straeon pobl Gwastadeddau Gwent. | |
| Cynidr Consulting (2021) PES and the Gwent Levels: Cyfleoedd lleol i | Mae'n ystyried ffyrdd newydd o annog rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a thalu am | Cefnogi cynhyrchion amaethyddiaeth er budd yr amgylchedd, bywyd gwyllt, diwylliant a'r economi. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| dalu am Wasanaethau Ecosystemau | hynny drwy Dalu am Wasanaethau Ecosystemau.<br><br>Mae'r adroddiad yn edrych ar y cyfleoedd, y manteision a'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â Thalu am Wasanaethau Ecosystemau sy'n cynnwys cynhyrchion fferm, dal carbon, lefel ac ansawdd dŵr, cynefinoedd bywyd gwyllt, twristiaeth ac addysg. | Cefnogi systemau draenio traddodiadol er budd bioamrywiaeth a chynefinoedd a helpu i atal llifogydd. | |
| Partneriaeth y Lefelau Byw, 2020 A Resilient Future for the Gwent Levels Interim Summary | Mae'n nodi proses a chanlyniadau ymgysylltu â chyfranogwyr yn gysylltiedig â gwneud gwell defnydd o'r ecosystem ar Wastadeddau Gwent. Roedd rhai o'r cyfleoedd a nodwyd yn gysylltiedig hefyd:<br><br>• Denu cerddwyr ac ymwelwyr<br>• Ffosydd draenio ('reens') | Cefnogi'r ardaloedd o'r pwysigrwydd pennaf er mwyn sicrhau gwydnwch ecosystemau ar Wastadeddau Gwent drwy wneud y canlynol:<br><br>• Gweithgarwch rheoli dŵr yn gysylltiedig â chynnal a chadw 'reens' a ffosydd er budd yr economi, cymdeithas a'r amgylchedd | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Cynnal a chadw priddoedd a'u ffrwythlondeb<br>• Cynefinoedd<br>• Rheoli dŵr. | • Gwella bioamrywiaeth, cysylltedd cynefinoedd, glaswellt a choed. | |
| Environment Systems (2021) Monitoring Sustaining the Gwent Levels | Mae'r ddogfen hon yn cynnwys allbynnau wedi'u mapio Prosiect Cynnal Gwastadeddau Gwent. Nodwyd saith thema i'w dadansoddi'n ofodol ac ym mhob thema ceir pedwar model.<br><br>Mae'r gwaith modelu yn seiliedig ar SENCE (Tystiolaeth Ofodol ar gyfer Gwerthuso Cyfalaf Naturiol), sy'n defnyddio data gofodol i raddio pwysigrwydd unrhyw ddarn o dir i ddosbarthiad syml o addasrwydd/ansawdd, yn seiliedig ar wybodaeth arbenigol a seiliau rheolau gwyddonol.<br><br>Mae'r thema a nodwyd i'w dadansoddi'n ofodol fel a ganlyn: | Cefnogi cynefin cornicyllod<br><br>Cefnogi cynefin cardwenyn meinlais<br><br>Cefnogi cynefin ystlumod<br><br>Rheoli 'reens' a ffosydd a chefnogi caeau â ffosydd arwyneb bas ('grips').<br><br>Problem llygredd gwasgaredig o ffermydd yn effeithio ar ansawdd dŵr<br><br>Gwneud arwynebau yn fwy garw er mwyn cefnogi cynefinoedd lled-naturiol<br><br>Cefnogi nodweddion coediog<br><br>Cynyddu nifer y rhwydweithiau a chysylltu cynefinoedd brodorol | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Cynefinoedd adar hirgoes (Cornicyllod)<br>• Cynefinoedd pryfed peillio (Cardwenyn Meinlais)<br>• Cysylltedd tirwedd (rhywogaethau ystlumod)<br>• Cynefin dyfrol<br>• Adeiledd tirwedd<br>• Ansawdd dŵr<br>• Storio carbon. | Cefnogi storio carbon yn y pridd | |
| The Gwent Levels Sense of Place Toolkit (Partneriaeth y Lefelau Byw, 2021) | Mae'r llyfryn hwn yn darparu llawer o wybodaeth ac awgrymiadau ynglŷn â sut i archwilio tirwedd unigryw Gwastadeddau Gwent yn gysylltiedig â'i:<br><br>• Hanes<br>• Crëwyd gan weithgarwch dynol<br>• Dŵr<br>• Bywyd gwyllt<br>• Cadwraeth<br>• Hamdden<br>• Diwylliant. | Manteisio ar yr hyn sy'n arbennig ac yn unigryw am yr ardal. | |

| THEMA 6: Amgylchedd Morol ac Arfordirol | | | |
|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru (2019) Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru | Cynllun 20 mlynedd ar gyfer rheoli ein moroedd yn gynaliadwy, gan helpu i sicrhau eu bod yn iach ac yn wydn. Ymhlith pethau eraill, mae'r cynllun yn canolbwyntio ar yr arfordir ar gyfer twristiaeth, hamdden, twf economaidd, llesiant a hyrwyddo cymunedau arfordirol gwydn. | Helpu i gyflawni amcanion arfordirol y cynllun i wneud y canlynol:<br>• Cydnabod a diogelu gwerth sylweddol twristiaeth a hamdden arfordirol i economi a llesiant Cymru<br>• Cyfrannu at gefnogi'r gwaith o ddatblygu cymunedau arfordirol bywiog, tecach, cydlynol a gwydn sy'n unigryw o ran eu diwylliant a'u hiaith.<br>• Annog mynediad teg a diogel i amgylchedd morol gwydn, gan ddiogelu a hyrwyddo tirweddau, morweddau ac asedau hanesyddol ar yr un pryd.<br>• Tynnu sylw at bwysigrwydd amgylchedd morol Aber Afon Hafren ger | • Gwarchod a hyrwyddo amgylchedd morol ac arfordir gwerthfawr Gwastadeddau Gwent er mwyn cefnogi twristiaeth arfordirol a chyfleoedd hamdden a chreu cymunedau gwydn.<br>• Amlygu pwysigrwydd bioamrywiaeth yr arfordir ac amgylchedd morol Aber Afon Hafren ger Gwastadeddau Gwent. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Gwastadeddau Gwent oherwydd ei fioamrywiaeth. | |
| Llywodraeth Cymru (2024) Polisi Cynllunio Cymru – Argraffiad 12 (Pennod 6) | Polisi cynllunio cenedlaethol i greu lleoedd unigryw a naturiol sy'n gwneud y canlynol, ymhlith pethau eraill:<br><br>• Gofyn i ni fod yn ymwybodol o'r heriau sy'n deillio o'r rhyngweithio dynamig rhwng pwysau naturiol a phwysau gwaith datblygu mewn ardaloedd arfordirol ac ymateb yn briodol i'r heriau hynny. | Gwarchod neu wella cymeriad a thirwedd naturiol neu hanesyddol morlinau heb eu datblygu. | |
| Blue Carbon Potential of Welsh Marine Protected Area Network | Mae'r astudiaeth hon yn tynnu sylw ar y rôl bwysig y mae ardaloedd morol gwarchodedig yn ei chwarae o ran storio ac atafaelu carbon ym moroedd Cymru. Dangoswyd bod | Mae'r adroddiad yn argymell y dylid integreiddio ystyriaethau carbon glas mewn cynlluniau morol a strategaethau adfer, gan sicrhau bod Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn elfen allweddol o ymateb Cymru i newid hinsawdd. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cynefinoedd megis morfa heli, gwelyau morwellt a gwaddodion yn dod â manteision sylweddol o ran lliniaru effaith newid hinsawdd yn ogystal â diogelu bioamrywiaeth. | | |
| Cyfoeth Naturiol Cymru (2024) Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (2024) Adroddiad Interim | Asesiad o'r graddau y mae Cymru yn llwyddo i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y prif heriau i'n hadnoddau naturiol, sef colli natur, newid hinsawdd a llygredd a gwastraff. | Mae'r adroddiad yn pwysleisio atebion sy'n seiliedig ar natur, gwaith rheoli arfordiroedd addasol a gwaith cynllunio morol integredig er mwyn diogelu bioamrywiaeth a helpu i sicrhau y defnyddir adnoddau mewn modd cynaliadwy. Mae cydweithio rhwng sectorau yn hanfodol i atal diraddio a meithrin gwydnwch cymunedau ac ecosystemau ar hyd arfordiroedd Cymru. | |
| Cyfoeth Naturiol Cymru (2020) Datganiad Ardal Morol<br><br>Dolen i'r Datganiad | Mae'r Datganiad Ardal Morol yn ymdrin â dyfroedd mewndirol Cymru ac yn nodi'r camau gweithredu canlynol:<br><br>• Cefnogi gwaith a all helpu i 'ailgysylltu' pobl â moroedd Cymru | Darparu ar gyfer rheoli'r morlin yn gynaliadwy ar gyfer ei fioamrywiaeth a'i bwysigrwydd amgylcheddol, hamdden a thwristiaeth yn gysylltiedig â llesiant ac economïau lleol. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Ymgysylltu'n lleol er mwyn canfod beth mae pobl yng Nghymru yn ei werthfawrogi am ein harfordiroedd a'n moroedd<br>• Gweithio'n agosach drwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i nodi problemau a chyfleoedd morol ac arfordirol a mynd i'r afael â nhw<br>• Codi proffil ardaloedd morol ac arfordirol a'u rôl o ran cefnogi llesiant lleol. | | |
| Natural Resource Wales Oaten et al (2024) - Understanding the likely scale of deterioration of Marine Protected Area features due to coastal squeeze: | Nod y prosiect hwn oedd gwella dealltwriaeth o leoliad, amseriad a graddfa debygol colli cynefinoedd sy'n digwydd mewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru oherwydd gwasgfa arfordirol. Rhaid | Cydnabod effaith Gwasgfa arfordirol a'i bod yn arwain at golli cynefinoedd neu ostyngiad yn eu hansawdd a achosir gan strwythurau artiffisial, neu weithredoedd, sy'n atal cynefinoedd rhag symud tua'r tir mewn ymateb i gynnydd yn lefel y môr. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Volume 2- Results and discussion | gwneud hyn er mwyn cynllunio'n effeithiol ar gyfer adfer ac ail-greu nodweddion cynefin a gollwyd o ganlyniad i wasgfa arfordirol a, thrwy hynny, gynnal cydlyniaeth y rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig. | Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y canlynol fel cynefinoedd penodol sydd dan fygythiad ar Wastadeddau Gwent:<br><br>• Colli Morfeydd Heli: Rhagwelir colledion sylweddol o dan bob senario, yn arbennig os cedwir yr amddiffynfeydd presennol. Mae polisi SMP2 (adlinio a reolir) yn lleihau colledion ond nid yw'n eu dileu.<br><br>• Fflatiau llaid/Fflatiau tywod: Tuedd debyg o ran colledion a ragwelir o dan senarios cadw amddiffynfeydd môr, gydag enillion posibl dim ond lle mae tir ar gael ar gyfer cynefinoedd arfordirol ('accommodation space').<br><br>• 'Accommodation Space': Mae'r ardaloedd helaeth o dir | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | a adferwyd ar Wastadeddau Gwent y tu ôl i forgloddiau yn golygu mai ychydig iawn o le sydd ar gael i gynefinoedd allu mudo tua'r tir iddo, sy'n golygu eu bod yn agored iawn i wasgfa arfordirol. | |
| Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru: 2021 | Adroddiad i helpu dinasyddion a llunwyr polisi yng Nghymru i ddeall y tueddiadau a'r ffactorau ysgogi mawr sy'n debygol o lywio dyfodol Cymru.<br><br>Un o'r pedwar ysgogydd newid mawr yw Iechyd a Therfynau'r Blaned gydag ansawdd dŵr yng Nghymru, p'un a yw mewn moroedd, afonydd, nentydd neu ar y ddaear, yn gwella ar y cyfan, mae llygredd seiliedig ar nitrogen o amaethyddiaeth yn achosi niwed sylweddol i fioamrywiaeth ac | Ymdrechu i leihau allyriadau nitrogen amaethyddol wrth symud tuag at ddulliau ffermio mwy cynaliadwy. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ecosystemau, gan arwain at ewtroffeiddio ac asideiddio dyfrffyrdd a phriddoedd. | | |
| Severn Estuary Coastal Group (2017) Severn Estuary Shoreline Management Plan (SMP2) | Mae'r SMP2 wedi'i ddatblygu gan ystyried newidiadau a ragwelir i'r cynnydd yn lefel y môr a achosir gan newid hinsawdd. Mae'r SMP2 yn adnodd / canllaw pwysig i wneud yn siŵr na fydd defnydd tir ar y draethlin yn y dyfodol yn peryglu cenedlaethau'r dyfodol na gosod beichiau ariannol na ellir eu rheoli o ran amddiffynfeydd arfordirol. | • Noder, yn ardal Llanbedr Gwynllŵg, mai'r ymateb polisi yw Daliwch y Lein yn yr hirdymor hyd at 2105.<br><br>• Noder, yn ardal Casnewydd a Brynbuga mai'r ymateb polisi yw Daliwch y Lein yn yr hirdymor hyd at 2105.<br><br>• Noder, yn ardal Cil-y-coed, mai'r ymateb polisi yw Daliwch y Lein yn yr hirdymor hyd at 2105.<br><br>• Mae Daliwch y Lein yn golygu cadw llinell yr amddiffynfa fwy neu lai yn ei lleoliad presennol. Bydd i bolisïau Daliwch y Lein ganlyniadau sylweddol ar gyfer ACA, AGA, | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | safle Ramsar a SoDdGA Aber Afon Hafren o ganlyniad i golli cynefinoedd oherwydd gwasgfa arfordirol. Mae colli'r cynefinoedd hyn hefyd yn ystyriaethau pwysig ar gyfer carbon glas. | |
| Cyfoeth Naturiol Cymru (2017) Ardaloedd 29: Aber Hafren | Mae'n nodi lleoliad, nodweddion, dylanwadau a phriodweddau'r ardal cymeriad morol hon sy'n ymestyn o'r ffin genedlaethol â Lloegr i ymylon gorllewinol y Barri.<br><br>Yn y llain hon, cydnabyddir Gwastadeddau Gwent am eu pwysigrwydd ar sail y canlynol:<br><br>• mae fflatiau llanw, morfeydd heli a'r glaswelltiroedd gwlyb helaeth o bwys rhyngwladol ar gyfer adar gwyllt | Gwarchod cynefinoedd morol, hanes a golygfeydd agored Gwastadeddau Gwent | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | sy'n gaeafu ac adar mudol<br>• Hanes hir o adfer tir arfordirol, argloddiau a ffosydd, yn arbennig gwastadeddau helaeth Gwent a Gwynllŵg<br>• Golygfeydd o ddatblygiadau masnachol a diwydiannol a datblygiadau porthladd mawr yng Nghaerdydd ac Avonmouth, yn ogystal â'r ddwy bont ffordd, sy'n cyferbynnu â'r golygfeydd agored a gwag sy'n nodweddu Gwastadeddau Gwent. | | |
| Aber Afon Hafren: Canllaw cynllunio morol trawsffiniol | Nod y cynllun yw rhoi eglurder ac arweiniad ar gyfer gwaith cynllunio yn aber Afon Hafren yn benodol mewn perthynas | Y goblygiadau i Wastadeddau Gwent yw bod y canllaw cynllunio yn darparu mesurau mwy cadarn ar gyfer diogelu'r amgylchedd rhag pwysau | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | â goblygiadau trawsffiniol. Mae'r adroddiad yn pwysleisio bod angen integreiddio gwaith cynllunio morol a thir, mesurau gwarchod cynefinoedd ac addasu i newid hinsawdd yn fwy cadarn. | gwaith datblygu. Mae dogfen y canllaw cynllunio hefyd yn atgyfnerthu'r defnydd o SMP2 i ddeall effeithiau trawsffiniol gwaith datblygu yn y rhanbarth. | |
| Gwent Levels. Mapping Resilient Ecological Network (REN) core zones and nature recovery zones (2025)<br><br>Gwastadeddau Gwent – Rhwydweithiau Ecolegol Cadarn \| MapDataCymru<br><br>Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyhoeddiadau, tystiolaeth ac ymchwil ar rywogaethau dŵr croyw a daearol | Mae'r adroddiad hwn yn dangos parthau craiff a pharthau adfer natur Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn Gwastadeddau Gwent, fel y'u nodwyd ac unedau gofodol a fapiwyd er mwyn llywio ymyriadau adfer natur. Y diben yw dylanwadu ar amcanion a chamau rheoli tir, er mwyn cynnal a datblygu gwydnwch ecosystemau yn nhirwedd Gwastadeddau Gwent. | Cefnogi/hyrwyddo'r gwaith o wella, adfer neu greu cynefinoedd mewn rhwydweithiau o gynefinoedd sy'n cysylltu safleoedd gwarchodedig a llecynnau cyfoethog o ran bioamrywiaeth ledled y dirwedd ehangach a nodi ardaloedd sy'n cynnig cyfle ecolegol gyda'r nod o sicrhau'r manteision mwyaf posibl ar gyfer bioamrywiaeth llesiant dynol.<br><br>Mae parthau craidd y rhwydwaith ecolegol gwydn yn cynnwys yr Ardal Cadwraeth Arbennig sy'n barthau dynodedig ar hyd Aber Afon Hafren. Mae'r safleoedd NATURA 2000 hyn | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | a Gwastadeddau Gwent yn dibynnu'n fawr ar ei gilydd. | |
| Severn Estuary Conservation Advice Package for the European Marine Site (The Severn Estuary / Môr Hafren) Association of Severn Estuary Relevant Authorities (ASERA) | Mae Cynllun Rheoli ASERA yn darparu mecanwaith i Awdurdodau Perthnasol bennu'r fframwaith lle y caiff eu gweithgareddau eu rheoli er mwyn cyflawni amcanion cadwraeth natur y safle. Mae'n ystyried a yw gweithgareddau yn cael effeithiau andwyol ac, os felly, sut y gall gweithgareddau o'r fath gael eu rheoli gan Awdurdodau Perthnasol er mwyn atal nodweddion dynodedig y Safle Morol Ewropeaidd rhag cael eu difrodi. | Mae Pecyn Cyngor Cadwraeth Aber Afon Hafren yn hanfodol i reoli Gwastadeddau Gwent am ei fod yn pennu rhwymedigaethau statudol o ran y Rheoliadau Cynefinoedd. Mae dynodiadau ACA, AGA a Ramsar yr aber yn gofyn am waith cynllunio a rheoli tir lleol er mwyn osgoi effeithiau andwyol ar ei gyfanrwydd. Yn achos Gwastadeddau Gwent, mae hyn yn golygu cynnal hydroleg drwy 'reens', gwella cysylltedd a bioamrywiaeth cynefinoedd ac integreiddio adfer natur mewn penderfyniadau datblygu. | |
| Datganiad Ardal De-ddwyrain Cymru – Proffil Tirwedd Gwastadeddau Gwent<br><br>Dolen i'r Datganiad | Mae'n nodi proffiliau tirwedd allweddol Gwastadeddau Gwent, y mae un ohonynt yn arfordirol ac yn forol. | Meithrin gwydnwch cynefinoedd rhynglanwol. | |

| THEMA 7: Newid Hinsawdd | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfoeth Naturiol Cymru (2024) Adroddiad Interim ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol | Asesiad o'r graddau y mae Cymru yn llwyddo i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y prif heriau i'n hadnoddau naturiol, sef colli natur, newid hinsawdd a llygredd a gwastraff. | Mae meysydd gweithredu i feithrin y gallu i wrthsefyll risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn cynnwys addasu natur a'r economi wledig a diogelu moroedd ac arfordiroedd. | • Cynyddu'r gallu i wrthsefyll newid hinsawdd drwy fynd i'r afael â'r argyfwng natur a'r argyfwng hinsawdd gyda'i gilydd. Bydd gwella gwydnwch ecosystemau ar Wastadeddau Gwent yn cynyddu hyd yr eithaf ar y gallu i warchod, atal a lleihau effaith newid hinsawdd gan ganolbwyntio ar gysylltu ac adfer cynefinoedd naturiol, rheoli perygl llifogydd, diogelu storfeydd carbon ac ystyried cyfleoedd ar gyfer ynni adnewyddadwy. |
| Adroddiad Tystiolaeth Natur Bositif 2030 gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, Natural England, Cyfoeth Naturiol Cymru, NatureScot ac Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon. | Mae'n nodi sut y gall y DU lwyddo i gyflawni ei hymrwymiadau mewn ymateb i golli bioamrywiaeth. Yn fwyaf nodedig drwy'r Addewid Arweinwyr dros Natur a lansiwyd yng Nghynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig yn 2020, ac ymrwymiad 30erbyn30 i warchod 30% o'n tir a'n moroedd ar gyfer byd natur erbyn 2030. Mae angen ystyried yr ymrwymiadau hyn gan sicrhau, ar yr un pryd, bod adfer natur yn | O'r naw newid y gellir eu cyflawni'n gyflym gydag effeithiau sylweddol o ran mynd i'r afael â'r newid hinsawdd, dylai'r canllawiau ystyried y canlynol:<br><br>• Buddsoddi yn y gwaith o adfer a chreu cynefinoedd er mwyn atgyfnerthu rhwydweithiau natur sy'n cyflawni ar gyfer bioamrywiaeth a newid hinsawdd<br>• Defnyddio atebion sy'n seiliedig ar natur<br>• Mabwysiadu targedau i fod yn natur bositif a | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | chwarae ei rôl hollbwysig o ran cyflawni sero net. | mynd i'r afael â'r argyfwng bioamrywiaeth a'r argyfwng newid hinsawdd gyda'i gilydd. | |
| Sylw cyffredinol Rhif 26 (2023) ar hawliau plant a'r amgylchedd, gyda ffocws arbennig ar newid hinsawdd: Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, 22 Awst 2023 | Mae Sylw Cyffredinol Rhif 26 (2023) yn cadarnhau hawliau plant i amgylchedd glân, iach a chynaliadwy o dan CCUHP. Mae'n galw ar wladwriaethau i atal niwed amgylcheddol, mabwysiadu mesurau rhagofalus ac integreiddio dulliau gweithredu sy'n ystyriol o blant mewn polisïau ar yr hinsawdd a bioamrywiaeth. Mae egwyddorion allweddol yn cynnwys cyfranogi, mynediad i wybodaeth a thegwch rhwng y cenedlaethau. Mae'r canllawiau yn annog gweithredu ar frys i fynd i'r afael â newid hinsawdd a llygredd a gwarchod ecosystemau, gan nodi bod iechyd yr amgylchedd yn hanfodol i sicrhau holl hawliau plant. | Dylai polisïau ar gyfer Gwastadeddau Gwent ymgorffori hawl plant i amgylchedd iach, gan roi blaenoriaeth i'r gallu i wrthsefyll newid hinsawdd, bioamrywiaeth ac atal llygredd. Rhaid iddynt fabwysiadu dull rhagofalus, sicrhau tegwch rhwng y cenedlaethau a hyrwyddo cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn penderfyniadau: | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| CCUHP Arsylwadau cloi ar chweched adroddiad a seithfed adroddiad cyfnodol cyfun Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon. Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, 22 Mehefin 2023 | Mae sylwadau Cloi CCUHP (2023) yn annog mabwysiadu mesurau cryfach i amddiffyn hawliau plant, gan dynnu sylw ar weithredu ar newid hinsawdd, lleihau tlodi, mynediad at addysg, cymorth iechyd meddwl a diwygio'r system gyfiawnder. Mae'n galw am fabwysiadau polisïau cynhwysol, diogelu grwpiau sy'n agored i niwed a sicrhau cyfranogiad ystyrlon plant er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb, llesiant a gwydnwch yn wyneb heriau byd-eang. | Mae sylwadau cloi yn annog y DU i atgyfnerthu mesurau diogelu ar gyfer hawliau plant mewn meysydd allweddol. Mae'n galw am weithredu ar frys i fynd i'r afael â newid hinsawdd a niwed amgylcheddol, gan sicrhau hawl plant i amgylchedd glân, iach a chynaliadwy. Mae'r argymhellion yn cynnwys lleihau tlodi plant, gwella mynediad at addysg gynhwysol ac ehangu gwasanaethau iechyd meddwl. Mae'r adroddiad yn pwysleisio bod angen diogelu grwpiau sy'n agored i niwed, diwygio systemau cyfiawnder plant a rhoi terfyn ar arferion niweidiol. Mae hefyd yn pwysleisio cyfranogiad ystyrlon plant mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. | |
| Llywodraeth Cymru (2022) Plymio Dwfn Bioamrywiaeth: Argymhellion | Mae'n datblygu set o gamau y gallwn eu cymryd ar y cyd i gefnogi'r gwaith o gyflawni nod ‘30 erbyn 30’ mewn modd ystyrlon er | Ymdrechu i fynd i'r afael â'r argyfwng natur a'r argyfwng hinsawdd gyda'i gilydd a nodi camau y gall unigolion a sefydliadau eu cymryd. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | mwyn diogelu o leiaf 30% o'r tir a 30% o'r môr erbyn 2030.<br><br>Un o'r Amcanion yw creu sail gadarn ar gyfer cyflawni yn y dyfodol drwy feithrin gallu, newid ymddygiad, codi ymwybyddiaeth a datblygu sgiliau.  O dan yr Amcan mae angen gweithredu ar unwaith drwy wneud y canlynol:<br><br>• Cynnwys camau gweithredu i fynd i'r afael â'r argyfwng natur yn y rhaglen newid ymddygiad gyffredinol i fynd i'r afael â newid hinsawdd<br>• Gwella addysg ac ymwybyddiaeth o'r argyfwng natur a'r argyfwng hinsawdd a'r camau y gall unigolion a sefydliadau eu cymryd. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru: 2021 | Adroddiad i helpu dinasyddion a llunwyr polisi yng Nghymru i ddeall y tueddiadau a'r ffactorau ysgogi mawr sy'n debygol o lywio dyfodol Cymru.<br><br>Un o'r pedwar ysgogydd newid mawr yw Iechyd a Therfynau'r Blaned gyda thymereddau byd-eang yn codi'n raddol yn gysylltiedig â chynnydd yn nifer y trychinebau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a lleihad yng nghynnyrch cnydau yn fyd-eang. | Cynyddu'r gallu i wrthsefyll newid hinsawdd. | |
| Nodyn Cyngor Technegol 15 : Datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol 2025 | Mae newid hinsawdd yn cynyddu perygl llifogydd i gymunedau a difrifoldeb llifogydd. Felly, dylid ystyried newid hinsawdd yn llawn wrth ddatblygu strategaethau ar gyfer rheoli perygl llifogydd. | Dylid rhoi ystyriaeth lawn i effeithiau newid hinsawdd ar Wastadeddau Gwent fel ffactor o ran rheoli perygl llifogydd a gwella gwydnwch ecosystemau. | |
| Llywodraeth Cymru (2019) Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: canllaw | Mae'r canllaw hwn yn nodi beth yw rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, pam mae'n bwysig a'r camau y | Cefnogi'r gwaith o addasu i newid hinsawdd a'i liniaru drwy ddiogelu systemau storio carbon mewn pridd a choed, hyrwyddo seilwaith | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gallwn eu cymryd i ddatblygu cynaliadwyedd. | gwyrdd a chynnydd mwn biomas o seilwaith gwyrdd ar gyfer cyfleoedd ynni adnewyddadwy. | |
| Llywodraeth Cymru (2017) Polisi Adnoddau Naturiol | Mae'r polisi yn canolbwyntio ar y ffordd rydym yn rheoli ein hadnoddau naturiol. Ymhlith pethau eraill, mae'r polisi yn nodi tair blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer rheoli ein hadnoddau naturiol:<br><br>1. Darparu atebion sy'n seiliedig ar natur. | Cefnogi'r gwaith o addasu i newid hinsawdd a'i liniaru a rheoli perygl llifogydd. | |
| Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru 2024 (Llywodraeth Cymru) | Mae atebion sy'n seiliedig ar natur yn bwysig i liniaru perygl llifogydd, adfer cynefinoedd naturiol a gwarchod systemau storio carbon megis mawndiroedd a gwlyptiroedd fel rhan o'r gwaith o addasu i newid hinsawdd. Mae hyn yn gofyn am gydweithio rhwng Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a grwpiau | Mae'n pwysleisio pwysigrwydd cydweithio ar atebion sy'n seiliedig ar natur ar gyfer rheoli perygl llifogydd, gwarchod gwlyptiroedd a mawndiroedd ac adfer cynefinoedd naturiol sy'n gwella'r gallu i wrthsefyll newid hinsawdd. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | arfordirol eraill i wella'r gallu i wrthsefyll newid hinsawdd. | | |
| Rhaglen Lywodraethu – Diweddariad | Ymrwymiad i fynd i'r afael â Newid Hinsawdd drwy gefnogi'r gwaith o adfer cynefinoedd morwellt a morfa heli ar hyd ein morlin a helpu cymunedau i greu coetiroedd newydd a chysylltu ardaloedd o gynefin, ymhlith pethau eraill. | Adfer cynefinoedd morwellt a morfa heli a chreu coetiroedd newydd a chynefinoedd cysylltiol. | |
| Mae Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n effro i'r hinsawdd | Mae newid hinsawdd yn peri risg sylweddol i gymunedau, seilwaith, busnesau, amaethyddiaeth, coedwigaeth, cyflenwadau dŵr, iechyd a llesiant a gwasanaethau o ganlyniad i nifer cynyddol o lifogydd a mwy o erydu arfordirol a thywydd eithafol. Dylai gwaith ymchwil a chamau gweithredu i feithrin gallu cenedlaethol i wrthsefyll newid hinsawdd gael eu | Mae llifogydd a achosir gan newid hinsawdd cynyddol yn peri risg i wasanaethau a diwydiannau cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i wella'r gallu i wrthsefyll newid hinsawdd ac, felly, dylai hyn gynnwys Gwastadeddau Gwent fel ardal sy'n agored i gynnydd yn lefel y môr a achosir gan newid hinsawdd. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | blaenoriaethu ar lefel genedlaethol. | | |
| Llywodraeth Cymru (2024) Polisi Cynllunio Cymru – Argraffiad 12 (Pennod 6) | Nod polisi cynllunio cenedlaethol yw sicrhau y gall cefn gwlad wrthsefyll effeithiau newid hinsawdd a'i fod yn chwarae rôl wrth leihau achosion newid hinsawdd drwy warchod dalfeydd carbon ac fel adnodd ynni cynaliadwy. | Gwella'r gallu i wrthsefyll newid hinsawdd. | |
| Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 | Mae'n cynnwys dyletswydd i bennu targedau ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn ogystal a phennu cyllidebau carbon. Bydd hyn yn helpu i gyflawni prif dargedau ynghynt ac yn helpu i feithrin gwydnwch yn ein hamgylchedd i wrthsefyll digwyddiadau tywydd eithafol. | Meithrin gwydnwch yn yr amgylchedd. | |
| Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 (Polisi 9) | Y cynllun datblygu cenedlaethol sy'n nodi'r cyfeiriad ar gyfer gwaith datblygu yng Nghymru tan 2040. | Diogelu, creu a gwella rhwydweithiau ecolegol. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cyflawni gofynion Polisi 9 i greu rhwydweithiau ecolegol oherwydd eu pwysigrwydd ar gyfer addasu i newid hinsawdd. | | |
| Datganiad Ardal De-ddwyrain Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru)<br><br>Dolen i'r Datganiad | Lluniwyd y datganiad ar raddfa tirwedd drwy ystyried ble a pham rydym am ddatblygu gwydnwch ecosystemau o ran yr ardal tirwedd arbennig ac unigryw.<br><br>Un o'r pedair thema yw paratoi ar gyfer effeithiau newid hinsawdd. | Gwella iechyd a gwydnwch ein hecosystemau er mwyn cynyddu hyd yr eithaf ar eu gallu i ddiogelu rhag effeithiau newid hinsawdd, eu hatal a'u lleihau ledled Gwent.<br><br>Gwella dealltwriaeth o'r risgiau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd ledled Gwent.<br><br>Cynyddu capasiti sefydliadau ac unigolion, gan sicrhau bod ganddynt yr adnoddau, y sgiliau a'r arweiniad sydd eu hangen i'w galluogi i addasu i effeithiau newid hinsawdd ledled Gwent. | |
| Gwent Levels. Mapping Resilient Ecological Network (REN) core zones and nature recovery zones (2025) | Diben dylunio a mapio'r rhwydweithiau ecolegol gwydn oedd cyfrannu tystiolaeth ofodol er mwyn dylanwadu ar amcanion a chamau rheoli tir, er | Diogelu, creu a gwella rhwydweithiau ecolegol er mwyn sicrhau y gallant wrthsefyll newid hinsawdd. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwastadeddau Gwent – Rhwydweithiau Ecolegol Cadarn \| MapDataCymru<br><br>Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyhoeddiadau, tystiolaeth ac ymchwil ar rywogaethau dŵr croyw a daearol) | mwyn cynnal a datblygu gwydnwch ecosystemau yn nhirwedd Gwastadeddau Gwent | | |
| Severn Estuary Coastal Group (2017) Severn Estuary Shoreline Management Plan | Mae'r SMP2 wedi'i ddatblygu gan ystyried newidiadau a ragwelir i'r cynnydd yn lefel y môr a achosir gan newid hinsawdd. Mae'r SMP2 yn adnodd / canllaw pwysig i wneud yn siŵr na fydd defnydd tir ar y draethlin yn y dyfodol yn peryglu cenedlaethau'r dyfodol na gosod beichiau ariannol na ellir eu rheoli o ran amddiffynfeydd arfordirol. | Cynnig dull strategol a rennir o reoli'r morlin yn gynaliadwy er mwyn ei ddiogelu rhag llifogydd arfordirol a risgiau erydu yn yr hirdymor (hyd at 2105). Nod yr SMP yw lleihau'r risgiau i bobl a'r amgylcheddau datblygedig, hanesyddol a naturiol dros y ganrif nesaf. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynllun Rheoli Gwastadeddau Gwent (Partneriaeth y Lefelau Byw, 2022) | Mae'r cynllun yn adolygu cyflawniadau Partneriaeth y Lefelau Byw, yn asesu'r cyd-destunau polisi sy'n berthnasol i'r gwaith o reoli Gwastadeddau Gwent, yn crynhoi nodweddion allweddol tirwedd y Gwastadeddau ac yn darparu gweledigaeth a set o nodau ar gyfer ei rheoli. Yn olaf, mae'n nodi cynllun gweithredu o amcanion a chamau gweithredu mewn rhaglen pum mlynedd, gan nodi asiantaethau arweiniol, adnoddau a risgiau<br><br>Un o'r nodau y gall y canllawiau helpu i'w gyflawni yw:<br><br>1. Mae Gwastadeddau Gwent yn cynnal ecosystemau gwydn, iach, mae eu hôl troed yn garbon-negyddol ac mae pobl yn deall pwysigrwydd paratoi ar gyfer newid | Deall pwysigrwydd addasu i newid hinsawdd a'r angen i wneud hynny ar fyrder. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | hinsawdd ac addasu iddo a'r angen i wneud hynny ar fyrder. | | |
| **THEMA 8: Dŵr** | | | |
| Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru: 2021 | Adroddiad i helpu dinasyddion a llunwyr polisi yng Nghymru i ddeall y tueddiadau a'r ffactorau ysgogi mawr sy'n debygol o lywio dyfodol Cymru.<br><br>Un o'r pedwar ysgogydd newid mawr yw Iechyd a Therfynau'r Blaned gyda llygredd seiliedig ar nitrogen o amaethyddiaeth yn achosi niwed sylweddol i fioamrywiaeth ac ecosystemau, gan arwain at ewtroffeiddio ac asideiddio dyfrffyrdd a phriddoedd. | Gwelliannau i ansawdd dŵr gyda gostyngiad mewn allyriadau nitrogen amaethyddol. | • Mynd i'r afael â llygredd dŵr gwasgaredig ac acíwt a gwella ansawdd dŵr y rhwydwaith o ddraeniau traddodiadol ar Wastadeddau Gwent gyda chymorth dulliau ffermio cynaliadwy.<br><br>• Gwella'r ffordd y caiff tir a dŵr eu rheoli ar gyfer y systemau draenio traddodiadol ar Wastadeddau Gwent er mwyn lleihau perygl |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Adroddiad Tystiolaeth Natur Bositif 2030 gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, Natural England, Cyfoeth Naturiol Cymru, NatureScot ac Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon. | Mae'n nodi sut y gall y DU lwyddo i gyflawni ei hymrwymiadau mewn ymateb i golli bioamrywiaeth. Yn fwyaf nodedig drwy'r Addewid Arweinwyr dros Natur a lansiwyd yng Nghynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig yn 2020, ac ymrwymiad 30erbyn30 i warchod 30% o'n tir a'n moroedd ar gyfer byd natur erbyn 2030. Mae angen ystyried yr ymrwymiadau hyn gan sicrhau, ar yr un pryd, bod adfer natur yn chwarae ei rôl hollbwysig o ran cyflawni sero net. | O'r naw newid y gellir eu cyflawni'n gyflym gydag effeithiau sylweddol o ran mynd i'r afael â llygredd dŵr, dylai'r canllawiau ystyried y canlynol:<br><br>• Mynd i'r afael â llygredd dŵr atmosfferig a gwasgaredig, yn arbennig o nitrogen ac amonia. | llifogydd a gwella cynefinoedd dyfrol. |
| Llywodraeth Cymru (2022) Plymio Dwfn Bioamrywiaeth: Argymhellion | Mae'n datblygu set o gamau y gallwn eu cymryd ar y cyd i gefnogi'r gwaith o gyflawni nod '30 erbyn 30' mewn modd ystyrlon er mwyn diogelu o leiaf 30% o'r tir a 30% o'r môr erbyn 2030. | Gwella cynefinoedd dŵr croyw. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Un o'r Amcanion yw Parhau i diwygio prosesau rheoli a chynllunio tir a môr (gan gynnwys yn ofodol) er mwyn cyflawni mwy ar gyfer safleoedd gwarchodedig a thirweddau / morweddau ehangach. O dan yr Amcan mae angen gweithredu ar unwaith drwy wneud y canlynol:<br><br>• Llunio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy er mwyn sicrhau bod ffermwyr yn cael eu gwobrwyo am sicrhau bod safleoedd gwarchodedig yn cael eu rheoli'n briodol ac am weithredoedd sy'n gwella rhagolygon natur yn y cynefinoedd tirwedd a dŵr croyw ehangach. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru (2019) Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: canllaw | Mae'r canllaw hwn yn nodi beth yw rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, pam mae'n bwysig a'r camau y gallwn eu cymryd i ddatblygu cynaliadwyedd. | Gwella'r ffordd y caiff tir a dŵr eu rheoli, megis rheoli llifogydd yn naturiol yn ogystal ag ansawdd dŵr a chynhyrchiant parhaus, er enghraifft drwy goridorau ar lan nant a phlannu gwrychoedd yn strategol ar ffermydd. | |
| Llywodraeth Cymru (2017) Polisi Adnoddau Naturiol | Mae'r polisi yn canolbwyntio ar y ffordd rydym yn rheoli ein hadnoddau naturiol. Ymhlith pethau eraill, mae'r polisi yn nodi tair blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer rheoli ein hadnoddau naturiol, sy'n cynnwys:<br><br>1. Darparu atebion sy'n seiliedig ar natur. | Gwella ansawdd dŵr a chynyddu cyflenwadau dŵr.<br><br>Gwella systemau trin dŵr, megis gwelyau brwyn.<br><br>Gwella'r ffordd y caiff tir a dŵr eu rheoli. | |
| Llywodraeth Cymru (2024) Polisi Cynllunio Cymru – Argraffiad 12 (Pennod 6) | Polisi cynllunio cenedlaethol i greu lleoedd unigryw a naturiol sy'n gwneud y canlynol, ymhlith pethau eraill:<br><br>• Mae'n gwarchod nodweddion dŵr | Gwarchod nodweddion dŵr a sicrhau y caiff dŵr ei reoli'n gynaliadwy. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ac yn meithrin arferion rheoli dŵr cynaliadwy fel nodweddion allweddol lleoedd deniadol a gwydn. | | |
| Rhaglen Lywodraethu – Diweddariad | Ymrwymiad i fynd i'r afael â newid hinsawdd drwy ddechrau dynodi dyfroedd mewndirol Cymru ar gyfer hamdden a darparu atebion sy'n seiliedig ar natur ar gyfer rheoli llifogydd ym mhob dalgylch afon mawr er mwyn ehangu cynefinoedd gwlyptir a choetir, ymhlith pethau eraill. | Cynnal systemau rheoli llifogydd naturiol yr ardal a'i gwlyptiroedd ac ystyried cyfleoedd hamdden sy'n gysylltiedig â 'reens' a ffosydd. | |
| Cyfoeth Naturiol Cymru (2024) Adroddiad Interim ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol | Asesiad o'r graddau y mae Cymru yn llwyddo i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.  Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y prif heriau i'n hadnoddau naturiol, sef colli natur, newid hinsawdd a llygredd a gwastraff. | Helpu i fynd i'r afael â llygredd dŵr i fod yn natur bositif. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 (Polisi 9) | Y cynllun datblygu cenedlaethol sy'n nodi'r cyfeiriad ar gyfer gwaith datblygu yng Nghymru tan 2040.<br><br>Cyflawni gofynion Polisi 9 i greu rhwydweithiau ecolegol, sy'n darparu gwasanaethau ecosystemau allweddol. | Diogelu ardaloedd sy'n cyfrannu at gynaliadwyedd gwasanaethau ecosystemau allweddol megis rheoli dŵr llifogydd. | |
| Datganiad Ardal Canol De Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru)<br><br>Dolen i'r Datganiad | Mae'r datganiad yn mynd ati i fynd i'r afael â gwaddol y gorffennol ynghyd â heriau a chyfleoedd y dyfodol, gan ystyried ffyrdd y gallwn gydweithio i warchod, gwerthfawrogi a chofleidio'r amgylchedd naturiol ac, ar yr un pryd, sicrhau ei fod wrth wraidd y broses gwneud penderfyniadau.<br>Un o'r pum thema yw gweithio gyda dŵr. | Cynnal, gwella ac adfer gorlifdiroedd a systemau hydroddaearegol er mwyn lleihau perygl llifogydd a gwella ansawdd a swm dŵr.<br><br>Cynyddu seilwaith glas a gwyrdd mewn ardaloedd trefol ac o'u hamgylch.<br><br>Lleihau perygl llifogydd. | |
| Gwent Levels. Mapping Resilient Ecological Network (REN) core zones | Diben dylunio a mapio'r rhwydweithiau ecolegol gwydn oedd cyfrannu tystiolaeth ofodol er mwyn | Mae dŵr yn hanfodol i fioamrywiaeth, 'reens', gwlyptiroedd a chorsydd pori Gwastadeddau Gwent ac | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| and nature recovery zones (2025)<br><br>Gwastadeddau Gwent – Rhwydweithiau Ecolegol Cadarn \| MapDataCymru<br><br>Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyhoeddiadau, tystiolaeth ac ymchwil ar rywogaethau dŵr croyw a daearol) | dylanwadu ar amcanion a chamau rheoli tir, er mwyn cynnal a datblygu gwydnwch ecosystemau yn nhirwedd Gwastadeddau Gwent | mae'r ardaloedd cadwraeth arbennig ar hyd yr arfordir yn rhan annatod sy'n dibynnu ar rwydweithiau ecolegol da yn cael eu cynnal gydag ardal ddaearol Gwastadeddau Gwent. | |
| Cynllun Rheoli Basn Afon Hafren 2021-2027 | Mae'n disgrifio'r heriau sy'n bygwth yr amgylchedd dŵr a sut y gellir rheoli ac ariannu'r heriau hyn.<br><br>Dau o'r nodau cyffredinol yw, erbyn 2027, sicrhau bod llygredd o ardaloedd gwledig yn cael ei reoli yn ogystal â newidiadau i lif a lefelau naturiol dŵr. | Helpu i gynnal sector amaethyddol cynaliadwy sy'n gwarchod yr amgylchedd dŵr.<br><br>Creu coetir newydd a rheoli coedwigoedd mewn ffordd briodol sydd o fudd, ymhlith pethau eraill, i'r amgylchedd dŵr.<br><br>Annog patrymau defnydd tir cynaliadwy mewn amgylcheddau trefol a | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gwledig sy'n lleihau dŵr ffo o lawiad gan gynnwys atebion sy'n seiliedig ar natur. | |
| Datganiad Ardal De-ddwyrain Cymru – Proffil Tirwedd Gwastadeddau Gwent<br><br>Dolen i'r Datganiad 2018 | Mae'n nodi proffiliau tirwedd allweddol Gwastadeddau Gwent, y mae un ohonynt yn ddŵr. | Meithrin gwydnwch ledled y rhwydwaith cyfan o 'reens' a ffosydd er mwyn gwella ansawdd cynefinoedd dyfrol a chynefinoedd clustogi a'r gwasanaethau ecosystemau a ddarperir ganddynt. | |
| Reading Agricultural Consultants (2022) Wetland Landscape Restoration and Maintenance in the Gwent Levels – Costings | Mae'r ddogfen hon yn nodi dadansoddiad o gostau tebygol i fusnesau fferm sy'n gysylltiedig â gweithredu polisïau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy gan roi ystyriaeth benodol i'r canlynol: adfer a rheoli nodweddion dŵr wyneb.<br><br>Mae'r adroddiad yn nodi bod systemau draenio traddodiadol y Gwastadeddau yn aneffeithiol o ganlyniad i flynyddoedd o esgeulustod ac mae'n | Cefnogi'r gwaith o reoli systemau draenio traddodiadol ar y Gwastadeddau | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cynghori, ymhlith pethau eraill, y dylid rhoi cymorth ar ffurf cyngor i ffermwyr ar y Gwastadeddau er mwyn sicrhau bod prosesau gwneud penderfyniadau ynghylch rheoli gwlyptiroedd yn seiliedig ar wybodaeth briodol. | | |
| Legal Advice: Sustaining the Gwent Levels project (Partneriaeth y Lefelau Byw, 2022) | Mae'r adroddiad hwn yn nodi camau rheoli allweddol ar gyfer rheoli tir yn gynaliadwy ar Wastadeddau Gwent. Mae a wnelo un o'r camau gweithredu allweddol â rheoli dŵr. | Cefnogi'r gwaith allweddol o reoli:<br><br>• Lleiniau clustogi o laswelltir nas rheolir ar hyd ymyl 'reen' er mwyn creu cynefin fforio ychwanegol a sicrhau cysylltedd â'r dirwedd<br><br>• Rheoli 'reens' a ffosydd drwy gadw'r 'reens' yn agored ac yn llifo. | |
| Reading Agricultural Consultants (2022) Sustaining the Gwent Levels Underdrainage and Farming: Current | Mae'r adroddiad yn nodi'r gydberthynas rhwng amaethyddiaeth a rheoli dŵr ar Wastadeddau Gwent ac effaith debygol newidiadau i systemau | Bydd gwella dealltwriaeth o'r rhwydwaith o ddraeniau traddodiadol a chydnabod terfynau yn annog rhoi arferion ffermio cynaliadwy sy'n ystyriol o natur ar waith | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| State – Future Management | rheoli dŵr ar fusnesau fferm a'r amgylchedd lleol.<br><br>Mae'r adroddiad yn nodi y bydd angen i gyfeiriad arferion ffermio ar y Gwastadeddau ystyried a gwella'r rhwydwaith o ddraeniau traddodiadol er mwyn diogelu'r fioamrywiaeth y maent yn ei chynnal a gwarchod nodweddion tirwedd hanesyddol er mwyn gwella gwydnwch yr ardal a'i gynnal er budd cenedlaethau'r dyfodol. | ac arallgyfeirio i amaethyddiaeth dwysedd isel a thyfu cnydau sy'n fwy addas i'r amgylchedd lleol. | |
| Rigare Ltd (2022) Ecohydrological Studies of the Gwent Levels | Cynhaliwyd yr astudiaeth hon mewn ymateb i bryderon yr RSPB a Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch effeithiau hydrolegol ac ecohydrolegol posibl draenio caeau gan ddefnyddio tanddraeniau, a seilwaith cysylltiedig, ar Wastadeddau Gwent, yn hytrach na'r arferion | Deall cyfyngiadau tanddraenio sy'n gysylltiedig â dwysâd amaethyddol ac effeithiau anuniongyrchol ar SoDdGAau.<br><br>Noder effeithiau newid hinsawdd ar systemau rheoli hydrolegol y Gwastadeddau. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | draenio caeau traddodiadol.<br><br>Prif gasgliad yr astudiaeth hon yw na fyddai gosod tanddraeniau ar Wastadeddau Gwent yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar amodau cynhaliol hydrolegol y ffosydd sy'n nodweddion o ddiddordeb yn yr SoDdGA o gymharu ag achos caeau sy'n cael eu draenio mewn ffordd draddodiadol. Fodd bynnag, bydd effeithiau anuniongyrchol ar yr SoDdGA gan y bydd colli merddwr mewn ffosydd arwyneb bas ('grips') (o ganlyniad i danddraenio) yn effeithio ar gysylltiadau gweithredol a chynefinoedd cynhaliol ac yn arwain at orbori. | | |
| **THEMA 9: Iechyd a Llesiant** | | | |
| Datganiad Ardal De-ddwyrain Cymru | Lluniwyd y datganiad ar raddfa tirwedd drwy ystyried ble a pham | Atebion sy'n seiliedig ar natur i anghydraddoldebau iechyd | • Sicrhau bod ein hadnoddau naturiol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| (Cyfoeth Naturiol Cymru)<br><br>Dolen i'r Datganiad | rydym am ddatblygu gwydnwch ecosystemau o ran yr ardal tirwedd arbennig ac unigryw.<br><br>Un o'r pedair thema yw bod yn iach, yn egnïol ac yn gysylltiedig. | yn cael eu darparu ledled Gwent.<br><br>Gwella dealltwriaeth o'r ffordd y gall atebion sy'n seiliedig ar natur gyflawni canlyniadau iechyd a llesiant gwell ledled Gwent.<br><br>Cynyddu capasiti sefydliadau ac unigolion, gan sicrhau bod ganddynt y sgiliau, yr adnoddau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ddarparu atebion sy'n seiliedig ar natur ar gyfer iechyd a llesiant pobl ledled Gwent. | yn hyrwyddo atebion sy'n seiliedig ar natur i wella iechyd a llesiant drwy hyrwyddo cysylltiadau teithio llesol, cyfleoedd addysgol a marchnadoedd ar gyfer cynnyrch fferm o Wastadeddau Gwent. |
| Datganiad Ardal Canol De Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru)<br><br>Dolen i'r Datganiad | Mae'r datganiad yn mynd ati i fynd i'r afael â gwaddol y gorffennol ynghyd â heriau a chyfleoedd y dyfodol, gan ystyried ffyrdd y gallwn gydweithio i warchod, gwerthfawrogi a chofleidio'r amgylchedd naturiol ac, ar yr un pryd, sicrhau ei fod wrth wraidd y broses gwneud penderfyniadau. | Sicrhau bod ein hadnoddau naturiol a'r manteision a ddarperir ganddynt o ran llesiant a ffyniant economaidd yn cael eu gwerthfawrogi mewn prosesau gwneud penderfyniadau.<br><br>Pob corff cyhoeddus yn dangos ei fod yn cydnabod y cyfleoedd a gynigir gan ein hadnoddau naturiol ar gyfer llesiant yn ei gynlluniau a'i strategaethau ei hun. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Dwy o'r pum thema yw cysylltu pobl â byd natur a gwella ein hiechyd. | Cynyddu seilwaith gwyrdd mewn ardaloedd trefol ac o'u hamgylch.<br><br>Cynyddu gorchudd canopi a choetir wedi'i leoli'n dda er mwyn gwella gwerth gwasanaeth ecosystemau. | |
| Gwent Levels. Mapping Resilient Ecological Network core zones and nature recovery zones (2025)<br><br>Gwastadeddau Gwent – Rhwydweithiau Ecolegol Cadarn \| MapDataCymru<br><br>Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyhoeddiadau, tystiolaeth ac ymchwil ar rywogaethau dŵr croyw a daearol) | Rhwydweithiau ecolegol gwydn Gwastadeddau Gwent yw cynnyrch Datganiad Ardal De-ddwyrain Cymru a Datganiad Ardal Canol De Cymru ac maent yn cyfrannu at ddisgrifio'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Dogfen dechnegol ydyw sy'n mapio rhwydweithiau ecolegol gwydn ar Wastadeddau Gwent ac yn darparu sail dystiolaeth i gyfuno adnoddau naturiol. | Diben dylunio a mapio'r rhwydweithiau ecolegol gwydn oedd cyfrannu tystiolaeth ofodol er mwyn dylanwadu ar amcanion a chamau rheoli tir, er mwyn cynnal a datblygu gwydnwch ecosystemau yn nhirwedd Gwastadeddau Gwent. Bydd creu cyfleoedd ar gyfer seilwaith gwyrdd a'i ddiogelu yn dod â manteision i iechyd a llesiant ei gymunedau ac iechyd a llesiant cymunedau cyfagos. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynidr Consulting (2022) Sustaining the Gwent Levels Sustainable Management Scheme: Summary Report | Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio prosiect Cynnal Cynllun Rheoli Gwastadeddau Gwent yn Gynaliadwy, gan grynhoi ei weithgareddau a'i allbynnau a gwneud argymhellion ar gyfer camau gweithredu a chyfeiriadau polisi yn y dyfodol. | Helpu i gyflawni un o'r argymhellion i ymgysylltu â'r gymuned ehangach er mwyn cefnogi prosiectau sy'n gweithio ar ran ffermwyr a thrigolion y Gwastadeddau, yn ogystal â'u cymdogion trefol, gan gynnwys marchnadoedd (h.y. datblygu llwybrau beicio a cherdded mwy diogel, yn arbennig yn agos at ardaloedd adeiledig ac yn cysylltu â nhw), cyfleoedd addysgol a chyfleoedd iechyd. | |
| **THEMA 10: Aer** | | | |
| Datganiad Ardal Canol De Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru)<br><br>Dolen i'r Datganiad | Mae'r datganiad yn mynd ati i fynd i'r afael â gwaddol y gorffennol ynghyd â heriau a chyfleoedd y dyfodol, gan ystyried ffyrdd y gallwn gydweithio i warchod, gwerthfawrogi a chofleidio'r amgylchedd naturiol ac, ar yr un pryd, sicrhau ei fod wrth wraidd y broses gwneud penderfyniadau. | Gwella gwydnwch ecosystemau er mwyn galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru a phartneriaid i ddarparu atebion sy'n seiliedig ar natur sydd o fudd i ansawdd ein haer.<br><br>Mae atebion sy'n seiliedig ar natur yn cynnwys mwy o orchudd canopi a choetir wedi'i leoli'n strategol, ynghyd â chynnydd mewn seilwaith gwyrdd sy'n ymestyn dros | • Gwella gwydnwch ecosystemau ar Wastadeddau Gwent er mwyn darparu atebion seiliedig ar natur sy'n gwella ansawdd aer drwy gefnogi'r gwaith o reoli a darparu coetir a seilwaith gwyrdd a glas. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Un o'r pum thema yw gwella ansawdd aer. | amrywiaeth eang o nodweddion naturiol a lled-naturiol, mannau, afonydd a llynnoedd. | |
| **THEMA 11: Poblogaeth** | | | |
| Cynllun Datblygu Lleol Amnewid Caerdydd – Cynllun Adnau (2025) | Dogfen bolisi sy'n dyrannu tir i'w ddatblygu, yn dynodi ardaloedd i'w gwarchod ac yn cynnwys polisïau y caiff ceisiadau cynllunio yn y dyfodol eu hasesu yn eu herbyn. | Mae'r cynllun yn rhagamcanu y bydd cynnydd o 39,742 o bobl yn y boblogaeth (neu +10.7%). | • Ystyried effeithiau ac anghenion y cynnydd posibl hwn yn y boblogaeth yn yr awdurdodau hyn o ran tirwedd Gwastadeddau Gwent. |
| Cynllun Datblygu Lleol Amnewid Sir Fynwy – Cynllun Adnau (2024) | Dogfen bolisi sy'n dyrannu tir i'w ddatblygu, yn dynodi ardaloedd i'w gwarchod ac yn cynnwys polisïau y caiff ceisiadau cynllunio yn y dyfodol eu hasesu yn eu herbyn. | Mae'r cynllun yn rhagamcanu y bydd cynnydd o 9,480 o bobl ymhlith grwpiau iau a grwpiau oedran gweithio (neu +10.9%). | |
| Cynllun Datblygu Lleol Amnewid Casnewydd – Strategaeth a Ffefrir (2023) | Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn sail i'r CDLl amnewid.  Ymhlith pethau eraill, mae'r strategaeth yn cynnwys Gweledigaeth ac Amcanion ac fe'i hategir gan nifer o bolisïau strategol a | Mae'r cynllun yn rhagamcanu y bydd cynnydd o 18,224 o bobl yn y boblogaeth (neu +11.6%). | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | safleoedd arfaethedig i gyflawni'r strategaeth. | | |

**ATODIAD B**

**Data Sylfaenol Llawn Gan Gynnwys Problemau, Cyfleoedd a Bylchau Mewn Data**

Mae'r atodiad hwn yn darparu'r data economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol sylfaenol ar gyfer Gwastadeddau Gwent sy'n cael eu defnyddio i helpu i ymgymryd â'r agweddau canlynol ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig:

- Nodi'r sefyllfa economaidd, gymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol bresennol y caiff effeithiau tebygol canllawiau cynllunio Gwastadeddau Gwent eu rhagfynegi yn ei herbyn:
- Nodi tueddiadau a chyfleoedd allweddol er mwyn i'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a'r canllawiau cynllunio eu hystyried
- Datblygu Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig i'w ddefnyddio i arfarnu'r canllawiau
- Helpu i ddatblygu fframwaith monitro er mwyn monitro effeithiau arwyddocaol y canllawiau ar nodweddion economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y Gwastadeddau.

Mae'r atodiad wedi'i strwythuro ar sail pob un o'r saith nod llesiant. O fewn y nodau hyn, mae'r data sylfaenol wedi'u rhannu'n gyfres o bynciau Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig.

Mae pob adran wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

1. Nod Llesiant a nodi pynciau perthnasol Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o'i fewn
2. Trosolwg o amodau sylfaenol ar gyfer pob pwnc, sy'n cynnwys:

    - Perthnasedd y pwnc hwnnw i'r canllawiau cynllunio
    - Amodau a thueddiadau sylfaenol wedi'u strwythuro ar sail setiau data
    - Bylchau mewn data

3. Materion allweddol (a gafwyd o'r uchod) sy'n berthnasol i'r canllawiau cynllunio a chyfleoedd posibl i'r canllawiau fynd i'r afael â nhw, os yw'n briodol.

**Diben Setiau Data Sylfaenol a chyfyngiadau**

Mae angen llinell sylfaen ar yr arfarniad cynaliadwyedd integredig er mwyn pennu disgwyliadau a chyd-destun ar gyfer asesu'r canllawiau cynllunio sy'n datblygu yn erbyn amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Mae'r llinell sylfaen yn ein helpu i ragfynegi sut y gallai'r canllawiau cynllunio effeithio ar ffactorau amgylcheddol,

cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd. Drwy ddeall y sefyllfa bresennol o ran pob un o'r ffactorau hyn, mae modd ystyried eu datblygiad tebygol os caiff y canllawiau eu rhoi ar waith ac os na chânt eu rhoi ar waith.

Mae'r setiau data sylfaenol a ddefnyddir yn ffeithiau a ffigurau penodol a gasglwyd gan wahanol sefydliadau a chyrff statudol, ymhlith eraill. Mae'r rhain wedi'u dewis yn ofalus er mwyn rhoi trosolwg priodol o amodau a thueddiadau sylfaenol dros amser ar lefel awdurdod lleol a lefel ardal-benodol (h.y. tirwedd Gwastadeddau Gwent).

Dim ond ar lefel awdurdod lleol roedd llawer o'r setiau data ar gael, a bu'n rhaid dibynnu ar hyn, gan nad oes unrhyw ddata ardal-benodol ar gael sy'n ymwneud â Gwastadeddau Gwent a gesglir yn gyson ac yn rheolaidd. Ni fydd rhywfaint o ddata'r awdurdodau lleol yn adlewyrchu tirwedd wledig Gwastadeddau Gwent yn llawn am eu bod yn cynnwys gwybodaeth a thueddiadau ar gyfer ardaloedd trefol, poblog iawn yng Nghaerdydd a Chasnewydd, yn benodol. Er gwaethaf hyn, mae'r data eu hunain yn dal i fod yn berthnasol oherwydd y cylch dylanwad rhwng Gwastadeddau Gwent a'r cytrefi mwy o faint o'u hamgylch, er enghraifft, y manteision i iechyd a llesiant cymunedau trefol cyfagos sy'n deillio o Wastadeddau Gwent.

Bwriedir i'r data sylfaenol allu cael eu defnyddio fel ffyn mesur ffeithiol i gefnogi'r gwaith o arfarnu effeithiau tebygol y canllawiau cynllunio dros amser yn erbyn pob un o Amcanion perthnasol Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig.

O ystyried ffocws cul polisi yr ymdrinnir ag ef yng nghanllawiau Gwastadeddau Gwent, sy'n cael ei seilio ar Bolisi 9 Cymru'r Dyfodol yn unig, nid yw pob un o bynciau'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig wedi arwain at gyfleoedd i'r canllawiau ymdrin â nhw.

## Nod Llesiant: Cymru Lewyrchus

Mae'r adran hon yn darparu data sylfaenol sy'n ymwneud â'r nod llesiant canlynol:

*'Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.'*

Mae a wnelo'r data yn bennaf â'r canlynol:

- Economi, cyflogaeth ac incwm
- Addysg.

**Yr Economi, Cyflogaeth ac Incwm**

**Perthnasedd i'r canllawiau:**

Mae economi leol gref yn bwysig i sicrhau cyfoeth, swyddi ac incymau pobl. Mae hyn yn gwneud cyfraniad mawr at ansawdd bywyd a llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol pobl a chymunedau ledled Gwastadeddau Gwent.

Mae canllawiau cynllunio Gwastadeddau Gwent yn annhebygol o chwarae rôl allweddol o ran datblygu'r economi leol ond gallent gefnogi'r economi yn anuniongyrchol, er enghraifft drwy gynyddu nifer yr ymwelwyr â'r ardal.

**Amodau a thueddiadau sylfaenol:**

<u>Gweithgarwch Economaidd</u>

Caerdydd yw prif sbardun economi de Cymru gyda lefelau cyflogaeth uwchlaw cyfartaledd Cymru (76.8%) a chyfartaledd Prydain (78.9%) yn 2019 ar 79.6%. Gan symud i'r dwyrain ar draws y dirwedd ac i mewn i Gasnewydd, mae nifer y bobl economaidd weithgar yn lleihau ychydig i 77% (yn 2019). Mae ffigurau mwy diweddar gan SYG (2021/22) yn nodi bod canran uwch o'r boblogaeth o oedran gweithio yn Sir Fynwy yn economaidd weithgar (79.9%) o gymharu â'r rhan fwyaf o'r awdurdodau o'i hamgylch (heb gynnwys Caerdydd). Ar y cyfan, mae cyfraddau gweithgarwch economaidd yn y tri awdurdod sy'n rhychwantu tirwedd Gwastadeddau Gwent yn uchel *(Cafwyd yr holl ffigurau o Adroddiadau Cwmpasu Cynlluniau Datblygu Lleol diweddaraf awdurdodau lleol).*

<u>Sectorau Cyflogaeth</u>

Yn awdurdodau mwyaf trefol Caerdydd a Chasnewydd, y sectorau cyflogaeth cryfaf yw'r sector cyllid, y sector addysg a'r sector gweinyddiaeth gyhoeddus sy'n cyfrif am + 27% o'r holl gyflogaeth. Fel awdurdod mwy gwledig yn nhirwedd Gwastadeddau Gwent, gwelir newid sylweddol yn sectorau cyflogaeth Sir Fynwy gydag 16.2% o'r holl gyflogaeth yn y sector masnach cyfanwerthu a manwerthu a mwy o bobl yn cael eu cyflogi yn y sector ffermio a choedwigaeth nag sy'n cael eu cyflogi yn ne-ddwyrain Cymru a Chymru gyfan. Ar y cyfan, mae cymysgedd o sectorau cyflogaeth yn y tri awdurdod sy'n rhychwantu tirwedd Gwastadeddau Gwent *(Cafwyd yr holl ffigurau o Adroddiadau Cwmpasu'r Cynlluniau Datblygu Lleol diweddaraf).*

Ar Wastadeddau Gwent eu hunain, mae tua 6,000 hectar yn cael eu ffermio ac mae hyn yn cynnal tua 125 o ffermydd unigol. Tirwedd amaethyddol yw hon yn bennaf, mae'r tir yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cynnyrch llaeth, cig eidion a ffermio defaid gan mwyaf, ceir rhywfaint o ffermio tir âr a defnydd marchogol achlysurol. Glaswelltiroedd Gwastadeddau Gwent yw un o'r ardaloedd mwyaf o gors bori yn y Deyrnas Unedig ac maent yn cyfrannu cryn dipyn at gynhyrchu bwyd, yn arbennig ar ffurf cynnyrch llaeth a chig.


Tir Cyflogaeth

Hyd yma ychydig iawn o dir cyflogaeth sydd wedi'i feddiannu yn y prif gytrefi ledled y tri awdurdod sy'n rhychwantu tirwedd Gwastadeddau Gwent, sy'n nodweddiadol o'r rhan fwyaf  o awdurdodau eraill ledled Cymru.  Felly, bu pwysau, yn arbennig yn Sir Fynwy a Chaerdydd, i dir cyflogaeth gael ei ddefnyddio at ddibenion amgen, sef tai a manwerthu. Er gwaethaf hyn, ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu, yng Nghaerdydd (80ha yn 2023) a Chasnewydd (50ha yn 2024)  y gwelwyd y cyfraddau meddiannu tir cyflogaeth uchaf, gyda'r gyfradd feddiannu yn awdurdod gwledig Sir Fynwy yn is o lawer ar 6.64ha heb fawr ddim gwaith datblygu pellach dros y pum mlynedd diwethaf hyd at 2021/22.  Ar y cyfan, mae cyfradd feddiannau tir cyflogaeth yn y tri awdurdod sy'n rhychwantu Gwastadeddau Gwent yn amrywio'n fawr rhwng yr awdurdodau trefol ac awdurdod mwy gwledig Sir Fynwy *(Cafwyd yr holl ffigurau o Adroddiadau Cwmpasu'r CDLlau diweddaraf).*

Cymudo

Dengys cymarebau cymudo rhwng 2011 a 2022 fod llifoedd cymudo, i'r prif ardaloedd trefol fel arfer, wedi lleihau yn Sir Fynwy (o gymharu o 1.12 i 1.03) gyda Chaerdydd a Chasnewydd yn fewnforwyr llafur net.  Gyda'i gilydd, roedd y tri awdurdod sy'n rhychwantu tirwedd Gwastadeddau Gwent yn fewnforwyr llafur net ar 0.73 yn 2022, sydd i'w briodoli i'r penderfyniad i ddileu Tollau Pont Hafren a chyfleoedd a oedd yn gysylltiedig â Bargen Prifddinas-Ranbarth Caerdydd *(Cafwyd yr holl ffigurau o'r Asesiad Rhanbarthol o Dwf a Mudo yn y Dyfodol ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Mai 2024).*

Ffigur B-1 Cymarebau Cymudo Prifddinas-Ranbarth Caerdydd




*Ffynhonnell: Asesiad Rhanbarthol o Dwf a Mudo yn y Dyfodol ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (Mai 2024)*

Enillion

Mae enillion wythnosol cyfartalog mewn awdurdodau ledled tirwedd Gwastadeddau Gwent tua chyfartaledd Cymru, sef £32,693.  Eir y tu hwnt i'r cyfartaledd yn Sir Fynwy yn unig fel yr awdurdod â'r cyflog blynyddol gros cyfartalog uchaf (sef £34,012) o blith yr holl awdurdodau sy'n rhychwantu tirwedd Gwastadeddau Gwent *(Cafwyd yr holl ffigurau o Adroddiadau Cwmpasu'r* CDLlau diweddaraf).

Twristiaeth

Mae twristiaeth a'r economi ymwelwyr yn sector pwysig i bob un o'r awdurdodau sy'n rhychwantu tirwedd Gwastadeddau Gwent gan gynhyrchu £244.99 miliwn i Sir Fynwy yn 2019 a £396.56 miliwn i Gasnewydd yn 2017 ar ôl pandemig COVID-19.  Mae llawer o'r atyniadau sy'n denu llawer o ymwelwyr wedi'u lleoli ar Wastadeddau Gwent ac maent yn cynnwys Gwastadeddau Gwynllŵg, Tŷ Tredegar, Gwlyptiroedd Casnewydd a Chestyll Cil-y-coed a Chas-gwent.  Ar y cyfan, mae'r eglwysi cerrig, y cestyll Normanaidd, y tai hanesyddol a'r rhwydwaith o lwybrau bywyd gwyllt a theithio llesol yn hanfodol bwysig i bob un o'r tri awdurdod sy'n rhychwantu tirwedd Gwastadeddau Gwent *(Cafwyd yr holl ffigurau o Adroddiadau Cwmpasu'r CDLlau diweddaraf).*

**Addysg**

**Perthnasedd i'r canllawiau:**

Mae addysg yn hanfodol i ddatblygu sgiliau pobl ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol a bywyd yn gyffredinol.  Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng gwelliannau mewn cyrhaeddiad addysgol a chynnydd mewn incymau, cyflogaeth a thwf economaidd gydag addysg a hyfforddiant yn ofynnol i dyfu a chefnogi'r economi leol ledled Gwastadeddau Gwent ac o'u hamgylch.

Mae canllawiau cynllunio Gwastadeddau Gwent yn annhebygol o chwarae rôl allweddol o ran gwella cyrhaeddiad addysgol ond gallent gefnogi hyn yn anuniongyrchol, er enghraifft drwy gyfleoedd gwirfoddoli, teithiau ysgol a defnyddio tirwedd y Gwastadeddau fel adnodd dysgu gwerthfawr ar gyfer digwyddiadau a thripiau a drefnwyd.

**Amodau a thueddiadau sylfaenol:**

Cyrhaeddiad Addysgol

Yn Sir Fynwy, a Chaerdydd yn arbennig, mae canran uwch o'r boblogaeth wedi ennill cymwysterau i lefel NVQ4 ac uwch yn y ddau awdurdod hyn sy'n rhychwantu tirwedd Gwastadeddau Gwent.  Mae poblogaeth Caerdydd yn perfformio'n well na chyfartaleddau Caerdydd a'r DU yn gyson oherwydd ei demograffeg iau a bodolaeth sawl prifysgol sy'n darparu poblogaeth o oedran gweithio â mwy na phedwar cymhwyster NVQ ar 46.4% yn 2019.  Ar y llaw arall, ar y cyfan mae gan drigolion Casnewydd sy'n rhychwantu Gwastadeddau Gwent lefelau is o gymwysterau o gymharu â gweddill Cymru a chyfran uwch o drigolion heb unrhyw gymwysterau sy'n uwch o lawer na chyfartaledd Cymru.  Ar y cyfan, mae cyrhaeddiad addysgol yn amrywio'n fawr ym mhob

un o'r tri awdurdod sy'n rhychwantu tirwedd Gwastadeddau Gwent (Cafwyd yr holl ffigurau o Adroddiadau Cwmpasu'r CDLlau diweddaraf).

**Bylchau mewn Data:**

Nid oes unrhyw fylchau mewn data.

**Problemau Allweddol sy'n berthnasol i Ganllawiau Cynllunio Gwastadeddau Gwent a Chyfleoedd i Fynd i'r Afael â Nhw:**

Problemau Allweddol

- Ers pandemig COVID-19, mae'r diwydiant twristiaeth, a'i fanteision economaidd cysylltiedig, wedi dirywio'n sylweddol ledled tirwedd Gwastadeddau Gwent.
- Yn unol â thueddiadau cenedlaethol, prin yw'r tir cyflogaeth sydd wedi'i ddatblygu mewn awdurdodau sy'n rhychwantu tirwedd Gwastadeddau Gwent ac, am fod y tri awdurdod hyn, ar y cyfan, yn fwy hyfyw (o ran gwerth tir) na'r rhan fwyaf o awdurdodau eraill ledled Cymru, mae hyn yn golygu bod tir cyflogaeth wedi cael ei ddefnyddio at ddibenion amgen, megis datblygiadau tai.
- Mae cyrhaeddiad addysgol, yn arbennig yng Nghasnewydd, yn llawer is o gymharu ag awdurdodau eraill Caerdydd a Sir Fynwy sy'n rhychwantu tirwedd Gwastadeddau Gwent.

Cyfleoedd

- Mae'n bosibl y bydd y canllawiau yn ceisio hyrwyddo'r diwydiant twristiaeth ledled tirwedd Gwastadeddau Gwent er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol cymunedau lleol.
- Mae'n bosibl y bydd y canllawiau yn cynnig cyfleoedd i helpu i hyrwyddo gwydnwch economaidd ledled tirwedd Gwastadeddau Gwent.
- Mae'n bosibl y bydd y canllawiau yn helpu i wella sgiliau a gwybodaeth leol drwy nodi bod tirwedd Gwastadeddau Gwent yn adnodd dysgu naturiol.

## Nod Llesiant: Cymru Gydnerth

Mae'r adran hon yn darparu data sylfaenol sy'n ymwneud â'r nod llesiant canlynol:

*‘Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd)’.*

Mae a wnelo'r data yn bennaf â'r canlynol:

- Ansawdd aer
- Bioamrywiaeth, fflora a ffawna
- Hinsawdd a pherygl llifogydd
- Amgylchedd dŵr

- Daeareg a phriddoedd.

**Ansawdd Aer**

**Perthnasedd i'r canllawiau:**

Mae aer glân yn bwysig i iechyd pobl ac iechyd yr amgylchedd naturiol. Gall llygredd aer effeithio'n uniongyrchol ar lystyfiant neu'n anuniongyrchol ar yr amgylchedd ehangach drwy ddyddodi llygryddion. Gall dyddodi llygryddion gael effaith andwyol ar statws asid a maethynnau priddoedd a dyfroedd a all, yn ei dro, effeithio ar gyfanrwydd cynefinoedd a'r ffawna a'r fflora a gynhelir ganddynt.

Gallai canllawiau cynllunio Gwastadeddau Gwent chwarae rôl uniongyrchol wrth geisio gwella ansawdd aer ledled y rhanbarth a gallent gyfrannu'n anuniongyrchol at leihau llygredd aer drwy helpu i leihau llygredd o drafnidiaeth drwy annog dulliau teithio mwy cynaliadwy a rhoi polisïau tirwedd a defnydd tir amgylcheddol ar waith.

**Amodau a thueddiadau sylfaenol:**

Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer

Casnewydd sydd â'r nifer uchaf o Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yn nhirwedd Gwastadeddau Gwent, sef 11, o gymharu â phedair Ardal Rheoli Ansawdd Aer yng Nghaerdydd a dwy Ardal Rheoli Ansawdd Aer yn Sir Fynwy. Fe'u lleolir yn yr ardaloedd trefol yn bennaf ond maent yn debygol o effeithio ar ardaloedd gwledig cyfagos Gwastadeddau Gwent. Mae Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer wedi'u dynodi am fod ansawdd aer yn yr ardaloedd hynny yn fwy na'r lefelau cyfreithlon o Nitrogen Deuocsid (NO2), yn arbennig yn awdurdodau trefol Caerdydd a Chasnewydd sydd â lefelau uchel o allyriadau o gerbydau. Mae gwaith monitro wedi dangos bod ansawdd aer wedi gwella ledled y Gwastadeddau ond ei fod yn uwch na'r trothwyon mewn rhai Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yn Sir Fynwy (yng Nghas-gwent), Caerdydd (yng Nghanol y Ddinas, Llandaf, Pont Elái a Stephenson Court) a Chasnewydd (yng Nghaerllion, Caerphilly Road, Cefn Road a Chepstow Road). Gellir gweld pob Ardal Rheoli Ansawdd Aer ar wefan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Rhestr o Awdurdodau Lleol ag Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer – Defra UK Aer – GOV.UK (Cafwyd yr holl ffigurau o Adroddiadau Cwmpasu'r CDLlau diweddaraf).

**Bioamrywiaeth, Fflora a Ffawna**

**Perthnasedd i'r canllawiau:**

Mae bioamrywiaeth yn cyfeirio at yr amrywiaeth o'r holl organebau byw a gellir ei gweld ar sawl lefel, o amrywiaeth o fewn rhywogaethau a rhyngddynt i amrywiaeth gwahanol ecosystemau. Mae lefelau uchel o amrywiaeth yn sicrhau bod fflora (cynefinoedd) a ffawna (rhywogaethau) yn fwy gwydn ac abl i ymdopi â newidiadau yn yr amgylchedd er mwyn eu helpu i oroesi yn yr hirdymor.

Bydd canllawiau cynllunio Gwastadeddau Gwent yn chwarae rôl allweddol o ran sicrhau y caiff bioamrywiaeth mewn cynefinoedd morol a daearol a'i gwasanaethau ecosystemau cysylltiedig eu gwarchod a'u gwella.  Bydd hyn, yn ei dro, yn gwella iechyd economaidd a chymdeithasol y Gwastadeddau ac ansawdd bywyd i drigolion ar y Gwastadeddau ac mewn ardaloedd cyfagos, gan gynyddu eu hapêl fel lle i fyw ac ymweld ag ef.

**Amodau a thueddiadau sylfaenol:**

Cynefinoedd o'r Pwysigrwydd Pennaf

Mae Gwastadeddau Gwent yn cynnwys sawl cynefin o'r pwysigrwydd pennaf oherwydd bioamrywiaeth a restrir yn Adran 7 yng Nghymru, fel y'u diffinnir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.   Mae'r cynefinoedd hyn yn hanfodol i gynnal a gwella bioamrywiaeth a chefnogi amrywiaeth o rywogaethau sydd wedi addasu i amgylchedd unigryw Gwastadeddau Gwent *(Cafwyd yr holl ffigurau o ddogfennau Partneriaeth y Lefelau Byw).*

Mae cynefinoedd allweddol Adran 7 ar Wastadeddau Gwent fel a ganlyn:

- Ardal helaeth o **gors bori**, sydd ymhlith y mwyaf ym Mhrydain
- **glaswelltir wedi'i led-wella**, sy'n darparu cynefin gwerthfawr ar gyfer rhywogaethau gwahanol
- Rhwydwaith o **ddŵr agored, gwlyptiroedd a gorlifdiroedd,** sy'n cynnal amrywiaeth o rywogaethau gwlyptir
- **Cynefinoedd arfordirol** gyda'r morglawdd yn ymestyn am 28km ac Aber Afon Hafren yn dylanwadu ar yr ardaloedd rhynglanwol
- Y **gwrychoedd a'r lonydd gwyrdd llinol**, sy'n darparu cysylltedd a chynefinoedd ar gyfer gwahanol rywogaethau.
- Mae'r **morfeydd heli a fflatiau llaid rhynglanwol** yn darparu cynefinoedd hollbwysig ar gyfer rhywogaethau pysgod fel llyswennod; a phlanhigion ffasgwlaidd *Bupleurum tenuissimum*

Ffigur B-2 Enghraifft o Gynefin o'r Pwysigrwydd Pennaf ar Wastadeddau Gwent



*Ffynhonnell: Prosiect y Cynlllun* Rheoli Cynaliadwy, Partneriaeth y Lefelau Byw

Rhywogaethau

Mae amrywiaeth enfawr o infertebratau ar Wastadeddau Gwent, gyda mwy na 260 o rywogaethau o infertebratau gwlyptir wedi'u cofnodi.  Nid yw sawl un o'r rhywogaethau i'w cael yn unman arall yng Nghymru ac maent yn cynnwys pryfed milwrol, chwilod dŵr a chwilod arian mawr. Mae cloddiau ffosydd a glaswelltir garw Gwastadeddau Gwent hefyd yn darparu cynefin i'r gardwenynen feinlais a rhywogaethau eraill a warchodir gan gynnwys dyfrgwn, llygod y dŵr a nadredd y gwair yn ogystal â llygod yr ŷd, pathewod a chornicyllod, y mae poblogaethau pob un ohonynt wedi lleihau ar Wastadeddau Gwent ac mewn rhannau eraill o Gymru.   Hefyd, mae llawer o adar eraill sy'n bridio ar y Gwastadeddau gan gynnwys pibyddion coesgoch, cambigau, rhegennod y dŵr ac adar prin fel teloriaid Cetti a garanod *(Cafwyd y wybodaeth o Brosiect Cynllun Rheoli Cynaliadwy, Partneriaeth Tirlun y Lefelau Byw).*

Mae Gwastadeddau Gwent yn gadarnle i'r gardwenynen feinlas brin, sy'n nodwedd ar yr SoDdGA ar hyn o bryd. Dyma'r rhywogaeth sydd fwyaf dan fygythiad yn y wlad o hyd gyda lleihad sylweddol yn ei chynefin yn y DU ac ardaloedd lleol lle mae wedi dylanwadu'n gyfan gwbl. Mae angen asesu'r sefyllfa yn barhaus ond credir bod y niferoedd yn sefydlog ar hyn o bryd ar Wastadeddau Gwent. Ar y llaw arall, mae nifer y cardwenyn meinlais ar Wastadeddau Gwlad yr Haf, lle ceir cynefin tebyg, yn fach ac mae wedi lleihau. Mae colledion mewn ardaloedd eraill a'r ffaith bod eu cynefin wedi'i gywasgu o ganlyniad i newid hinsawdd yn golygu ei bod yn arbennig o bwysig cynnal a chynyddu'r poblogaethau ar Wastadeddau Gwent.

Safleoedd Gwarchodedig Statudol

Mae amgylchedd aberol Aber Afon Hafren yn chwarae rôl hollbwysig o ran siapio Gwastadeddau Gwent ac mae'n rhyngddibynnydd ecolegol â nhw, sy'n gweithredu fel cynefin cynhaliol yn ei rinwedd ei hun.  Mae'r safleoedd gwarchodedig statudol canlynol yn gymwys i Aber Afon Hafren:

- **Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA)** sydd wedi'i dosbarthu felly oherwydd ei hadar prin sy'n agored i niwed.
- **Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA)** sydd wedi'i dynodi oherwydd ei chynefinoedd a/neu ei rhywogaethau o bwys Ewropeaidd
- **Safle Ramsar,** sef gwlyptiroedd yr ystyrir eu bod o bwys rhyngwladol
  **Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)** sydd wedi'i ddynodi oherwydd ei nodweddion biolegol a daearegol, sy'n sail i ddynodiadau'r AGA a'r ACA.

Mae llawer o nodweddion aber yn cael eu cefnogi gan gynefinoedd y tu allan i ffiniau diffiniedig y dynodiadau hyn. Mae gan 'reens', ffosydd a chynefinoedd gwlyptir Gwastadeddau Gwent oll gysylltiad swyddogaethol am eu bod yn darparu cynefin cynhaliol ar gyfer prosesau cylchred bywyd hanfodol rhai neu bob un o nodweddion AGA, ACA ac SoDdGA Aber Afon Hafren.  Bydd adar yr aber yn defnyddio darnau o dir

a dyfroedd arfordirol y tu allan i ffiniau safleoedd dynodedig yr Aber. Dylid ymdrin â'r cynefinoedd cynhaliol a ddarperir gan Wastadeddau Gwent ar gyfer nodweddion dynodedig yr Aber fel tir sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol, a dylai'r canllawiau ystyried y cyfleoedd drwy'r system gynllunio i'w gwarchod a'u gwella.

Mae gan amgylchedd daearol Gwastadeddau Gwent y safleoedd gwarchodedig statudol canlynol:

- **Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)** ar Afon Wysg ac Afon Gwy, y mae dŵr yn llifo iddynt o rannau o Wastadeddau Gwent neu y mae rhannau o Wastadeddau Gwent yn effeithio arnynt
- **Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAau)** i warchod a diogelu'r gorau o fywyd gwyllt a threftadaeth ddaearegol a ffisiograffigol y wlad (gweler y rhestr o safleoedd unigol isod).

  Mae Afon Hafren wedi'i dynodi'n SoDdGA ac mae wyth SoDdGA arall, sydd wedi'u dynodi'n genedlaethol, yn ymestyn dros rannau helaeth o Wastadeddau Gwent. Mae gan y mwyafrif o'r SoDdGAau yr un prif nodweddion hysbysu sy'n cynnwys cynefinoedd y 'reens' a'r ffosydd (system ddraenio dŵr croyw), rhywogaethau planhigion, pryfed ac infertebratau dyfrol eraill a'r gardwenynen feinlas

  Mae'r wyth SoDdGA daearol ar Wastadeddau Gwent fel a ganlyn:

  1. SoDdGA Rhymni a Llanbedr Gwynllŵg
  2. SoDdGA St. Brides
  3. SoDdGA Trefonnen a Goldcliff
  4. SoDdGA Whitson
  5. SoDdGA Redwick a Llandefenni
  6. SoDdGA Magwyr a Gwndy
  7. SoDdGA Cors Magwyr
  8. SoDdGA Gwlyptiroedd Casnewydd

  Mae'r 'reens' a'r ffosydd yn yr wyth uned o SoDdGA yn cynnal rhywogaethau a chymunedau planhigion prin. Mae cyfres o Ddangosyddion Perfformiad (DPau) a ddefnyddir i nodi cyflwr nodweddion SoDdGAau Gwastadeddau Gwent. Dengys yr asesiadau cyflwr o brif 'reens' a 'reens' ardaloedd draenio mewnol eu bod mewn cyflwr ffafriol, ar y cyfan. Ar y llaw arall, mae cyflwr ffosydd caeau (sy'n ymwneud â chysgodi gan brysgwydd a gwrychoedd) ac ehangder y dŵr yn cael eu cynnal yn anffafriol neu maent yn adfer.

  Ymhlith y ffactorau sy'n effeithio ar y cyflwr mae tresmasu gan brysgwydd oherwydd diffyg mesurau rheoli priodol, darnio cynefinoedd o ganlyniad i newidiadau mewn arferion tir, tresmasu gan waith datblygu, colli ffosydd caeau drwy greu caeau mwy o faint, tarfu hydrolegol a llygredd tarddle penodol a gwasgaredig.

Mae'r ffactorau hyn yn effeithio ar rywogaethau allweddol ar y Gwastadeddau megis y gardwenynen feinlais. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn gweithio i newid amserau gweithgareddau rheoli 'reens' a morgloddiau, bwrw ymlaen â chytundebau rheoli tir a16 gan gynnwys torri gwair yn hwyr a gweithio gyda safleoedd diwydiannol ar Wastadeddau Gwent i sicrhau na chaiff cynefinoedd fforio eu clirio neu na chaiff plaleiddiaid eu defnyddio mewn cynefinoedd allweddol. Mae SoDdGAau Gwastadeddau Gwent wedi'u lleihau o ran cyflwr ffafriol a systemau storio llifogydd, sy'n cyfrannu at golled gyffredinol o ran bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau, yn ogystal â chyfrannu at leihau'r gallu i wrthsefyll newid hinsawdd yn yr hirdymor.

Mae saith o'r SoDdGAau ar Wastadeddau Gwent, gyda'i gilydd, yn cynnal 54 o rywogaethau y mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi nodi eu bod yn Rhywogaethau mewn Perygl (gweler adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru: Terrestrial and Freshwater Species in Peril in Wales (2025)). Mae'r wyth SoDdGA, Cors Magwyr, yn cynnal 50 o'r Rhywogaethau mewn Perygl a nodwyd. Pryfed dyfrol a lled-ddyfrol sy'n gysylltiedig â'r ffosydd draenio yw'r mwyafrif o'r rhywogaethau hyn. O ystyried y pwysau datblygu y mae Gwastadeddau Gwent yn eu hwynebu, cynhelir arolygon botanegol ac arolygon o infertebratau yn rheolaidd, gan gynnwys asesiadau o gyflwr y casgliadau o infertebratau mewn 'reens' (e.e. Boyce, 2024) er mwyn helpu i fonitro'r rhywogaethau hyn ac unrhyw effeithiau y gallai gwaith datblygu pellach eu cael.

Tabl B-1 Rhywogaethau mewn perygl ac eithrio systemau twyni

| **Rhywogaethau mewn perygl ac eithrio systemau twyni** | |
|---|---|
| **Grŵp** | **Gwastadeddau Gwent** |
| Corynod a chynghreiriaid | 1 |
| Pryfed | 44 |
| Adar | 9 |
| **Cyfanswm** | **54** |
| Wedi'u cyfyngu i un ardal | 9 |

Ffynhonnell: Terrestrial and Freshwater Species in Peril in Wales (Cyfoeth Naturiol Cymru 2025).

Un o rywogaethau dan fygythiad IUCN sydd wedi'i chynnwys ar y Rhestr o Rywogaethau mewn Perygl ac sydd wedi'i chyfyngu i un ardal yn unig yw'r Grus. Dim ond mewn un ardal y ceir cynefin i'r Grus fridio (i aranod fridio), sef mewn ardal o fawndir sydd wedi'i lleoli yng ngwlyptiroedd Gwastadeddau Gwent.

- **Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol** yw safleoedd sydd wedi'u dynodi i'w gwarchod ac i alluogi pobl i astudio eu bywyd gwyllt, eu cynefinoedd neu eu nodweddion daearegol o ddiddordeb arbennig.


  Mae rhan o Wastadeddau Gwent yn Warchodfa Natur Genedlaethol yng Ngwlyptiroedd Casnewydd

Safleoedd Gwarchodedig Anstatudol

Mae gan Wastadeddau Gwent y dynodiadau anstatudol canlynol hefyd:

- **Ardal Adnoddau Naturiol Cenedlaethol**, sef ardal sy'n cynnwys pob rhan o Wastadeddau Gwent ac sydd wedi'i nodi yn Cymru'r Dyfodol (Polisi 9) oherwydd ei rhwydweithiau ecolegol o bwysigrwydd cenedlaethol, ei llecynnau cyfoethog o ran bioamrywiaeth, gwasanaethau ecosystemau a chyfleoedd i greu cynefinoedd.
- **Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur** sy'n ddynodiad a ddefnyddir gan awdurdodau cynllunio lleol ledled Cymru i nodi ardaloedd o werth ecolegol sylweddol sy'n bwysig yn lleol, gyda thua 63 o safleoedd o bwysigrwydd er cadwraeth natur yn ymestyn dros dirwedd Gwastadeddau Gwent
- **Gwarchodfeydd Natur Lleol**, er bod llai ohonynt, fe'u ceir ar Wastadeddau Gwent ac mewn ardaloedd cyfagos, yn arbennig yng Nghors Magwyr a Dolydd Great Traston. Y prif gynefin yn Nolydd Great Traston yw corsydd pori, â ffosydd, 'reens' a 'grips' cysylltiedig. Ar y llaw arall, glaswelltir corsiog a niwtral, gwern, merddwr a chasgliad o infertebratau gwlyptir yw llawer o'r cynefin yng Ngwarchodfa Natur Cors Magwyr.
- **Ardaloedd Tirwedd Arbennig** sy'n dirweddau cydnabyddedig o werth golygfaol, diwylliannol neu ecolegol ac sy'n ymestyn dros rannau o'r Gwastadeddau a nodir mewn cynlluniau datblygu Awdurdodau Lleol

Ffigur B-3 Rhai o'r Dynodiadau Ecolegol ar Wastadeddau Gwent




*Ffynhonnell: Gwent Levels Landscape Character Assessment, Ebrill 2017*

Pwysau ar Fioamrywiaeth

Mae Gwastadeddau Gwent yn wynebu amrywiaeth o bwysau amgylcheddol sy'n bygwth ecoleg a bioamrywiaeth yr ardal. Ymhlith y pwysau allweddol hynny, mae'r canlynol:

- **Llygredd dŵr gwasgaredig a tharddle penodol:** Daw o nifer o ffynonellau, sy'n cynnwys, ymhlith pethau eraill, amaethyddiaeth, gweithgarwch rheoli tir gwledig, datblygiadau adeiledig, gwaith datblygu a diwydiant ac mae'n cyfrannu at ddiraddio ansawdd dŵr yn y rhwydwaith o 'reens', gan effeithio ar gynefinoedd a rhywogaethau dyfrol.
- **Darnio cynefinoedd:** Canlyniad pwysau a chynigion datblygu, yn arbennig rhai ar gyfer cynlluniau preswyl, cyflogaeth ac ynni ar Wastadeddau Gwent, sy'n rhannu'r dirwedd hanesyddol hon ac yn lleihau cysylltedd rhwng cynefinoedd cynhaliol, gan gael effeithiau negyddol a lleihau gwydnwch ecosystemau. Yn arbennig, mae darnio, ac effeithiau cronnol y darnio hwn ledled y dirwedd, yn golygu bod llai o gynefin priodol ar gael i rywogaethau allweddol fel y Gardwenynen Feinlais ac adar sy'n nythu ar y ddaear, megis Cornicyllod, Ehedyddion, Pibyddion Coesgoch, Pïod y Môr, Cambigau ac Adar y Bwn ar y Gwastadeddau. Mae a wnelo gwydnwch ecosystemau ag amrywiaeth, cyflwr, maint a chysylltedd, y mae pob un ohonynt yn cyfuno ac yn cyfrannu mewn sawl ffordd at iechyd cyffredinol unrhyw ecosystem benodol a'i gallu i addasu.

Rhywogaethau anfrodorol goresgynnol

Caiff rhywogaethau goresgynnol anfrodorol eu lledaenu'n bennaf drwy faeddu cyrff llongau ('hull fouling') a dŵr balast o longau a chychod, offer a dillad wedi'u halogi o

weithgareddau hamdden fel pysgota, gweithrediadau masnachol a chyfarpar neu ddeunyddiau sy'n cael eu symud yn ystod gweithgarwch adfer cynefinoedd. Mae marinas a phorthladdoedd yn fannau problemus oherwydd traffig llongau mynych.

**Hinsawdd a Pherygl Llifogydd**

**Perthnasedd i'r canllawiau:**

Llifogydd yw un o'r prif ganlyniadau lle y profir effeithiau newid hinsawdd yn lleol ar Wastadeddau Gwent.  Mae perygl llifogydd, nawr ac yn y dyfodol, yn broblem fawr ledled Cymru ac mae'n cynnwys llifogydd arfordirol ac afonol a llifogydd dŵr wyneb.  Rhagwelir y bydd newid hinsawdd yn arwain at gynnydd yn lefel y môr, tymereddau cyfartalog blynyddol uwch, gaeafau cynhesach a gwlypach, hafau poethach a sychach a chynnydd yn nifer y digwyddiadau tywydd eithafol.

Dylai canllawiau cynllunio Gwastadeddau Gwent chwarae rôl allweddol o ran helpu i reoli perygl llifogydd ar y Gwastadeddau a dylai gefnogi Cynllun Rheoli Traethlin Aber Afon Hafren, er mwyn gwneud yn siŵr na fydd defnydd tir ar y draethlin yn y dyfodol yn peryglu cenedlaethau'r dyfodol nac yn gosod beichiau ariannol na ellir eu rheoli arnynt. Dylai'r canllawiau gydnabod pwysigrwydd y dirwedd hanesyddol eithriadol a gwerth uchel cyffredinol yr ardal o ran cadwraeth natur, yn ogystal â'r rôl sylfaenol y mae gweithgarwch rheoli dŵr yn ei chwarae o ran cynnal y buddion hyn.

**Amodau a thueddiadau sylfaenol:**

Mae'r rhwydwaith o brif afonydd a 'reens' yn rhan bwysig iawn o'r amddiffynfeydd presennol rhag llifogydd ar Wastadeddau Gwent, gyda'r system ddraenio gyfan yn dibynnu ar y morglawdd 35km o hyd.  Mae Gwastadeddau Gwent yn dir a adferwyd yn oes y Rhufeiniaid, gyda llawer o'r tir o dan benllanw cymedrig y gorllanw ac, felly, mae Gwastadeddau Gwent yn bodoli oherwydd yr amddiffynfeydd môr.  Mae llifogydd a sychder tymhorol ac annhymhorol, y mae newid hinsawdd wedi effeithio arnynt, yn peri heriau mawr i gynhyrchiant amaethyddol, rhywogaethau a chynefinoedd ar y Gwastadeddau, yn ogystal â chartrefi a bywoliaethau pobl.  Yn wir, mae rheoli perygl llifogydd yn hanfodol i fodolaeth Gwastadeddau Gwent, eu cymunedau, eu cynefinoedd dŵr croyw a'u seilwaith allweddol, gan gynnwys y llinell reilffordd i Lundain, seilwaith trydan a thraffordd yr M4.  Mae pwysigrwydd y seilwaith hwn i Gymru a'r angen i gynnal yr amddiffynfeydd morol er mwyn diogelu'r seilwaith hwn yn sylweddol.

Mae lefelau dŵr (llanwol ac afonol) sy'n cynyddu yn bygwth clwydfannau adar dŵr ac adar hirgoes gan achosi ffenomena ‘gwasgfa arfordirol’ lle mae cynnydd yn lefel y môr yn gwthio cywasgu arfordirol naturiol tua'r tir, ond mae strwythurau artiffisial, megis y morglawdd, yn sefyll yn eu ffordd. Heb unman i fynd, mae cynefinoedd ym mharth rhynglanwol Gwastadeddau Gwent yn cael eu ‘gwasgu’ ac efallai y byddant yn crebachu neu'n diflannu'n llwyr heb fawr ddim cyfle i'r morlin gilio mewn ffordd reoledig oherwydd y morglawdd a'i safbwynt ‘Daliwch y Lein’ fel y'i nodir yng Nghynllun Rheoli'r Draethlin, gan gadw'r amddiffynfa yn ei lleoliad presennol yn yr hirdymor hyd at 2105.  Wedi dweud

hynny, mae gan Lywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru fecanweithiau digolledu ar waith ledled Cymru drwy Raglen Genedlaethol Creu Cynefinoedd er mwyn sicrhau bod unrhyw gynefinoedd arfordirol a gollir yn cael eu gwrthbwyso drwy waith ailalinio a reolir neu ddim ymyrraeth weithredol er mwyn i gynefinoedd arfordirol allu fudo tua'r tir. *(Cafwyd yr holl wybodaeth o'r Gwent Levels Landscape Character Assessment, Ebrill 2017 a Severn Estuary Shoreline Management Plan, 2017).*

**Amgylchedd dŵr**

**Perthnasedd i'r canllawiau:**

Mae dŵr yn hanfodol i fywyd ac mae Cymru yn dibynnu ar symiau sylweddol o ddŵr o ansawdd da i gynhyrchu adnoddau, cludo nwyddau, sicrhau manteision hamdden, fel adnodd yfed ac i dyfu bwyd.

Bydd canllawiau cynllunio Gwastadeddau Gwent yn chwarae rôl allweddol o ran llywio penderfyniadau drwy'r broses gynllunio sy'n ymwneud â gwaith datblygu ar Wastadeddau Gwent a allai effeithio ar ansawdd a swm dŵr yr ardal a'i thirwedd unigryw â'i rhwydwaith integredig o ddyfrffyrdd.


**Amodau a thueddiadau sylfaenol:**

Mae rhannau helaeth o dirwedd unigryw Gwastadeddau Gwent, a grëwyd gan weithgarwch dynol, islaw'r marc penllanw.  Mae ei system rheoli dŵr yn dal i weithio heddiw fel y bwriadwyd yn hanesyddol i ddraenio'r tir ac atal tir amaethyddol pwysig ac eiddo ar y Gwastadeddau ac o'u hamgylch rhag mynd dan ddŵr yn y gaeaf a chynnal lefelau dŵr yn ystod yr haf (‘corlannu’) er mwyn sicrhau bod glaswellt yn tyfu'n dda.

Mae tirwedd unigryw a systemau rheoli dŵr hollbwysig Gwastadeddau Gwent yn cynnwys y canlynol:

1. **Morglawdd** rhwng prif afonydd llanwol Afon Rhymni, Afon Ebwy, Afon Wysg ac Afon Gwy
2. **Afonydd mawr**, sy'n atal y tir ffermio rhag mynd dan ddŵr
3. **'Reens',** sef ffosydd artiffisial mawr sy'n draenio dŵr o'r gwlyptiroedd er mwyn diogelu cymunedau sy'n byw yno a'r tir ffermio
4. **Ffosydd,** sy'n amgylchynu pob cae er mwyn rheoli llif dŵr ac yn rhoi ei phatrwm draenio unigryw i'r ardal
5. **'Grips',** sef ffosydd bas mewn caeau sy'n sicrhau bod dŵr glaw yn llifo'n gynt i'r ffosydd.

Ffigur B-4 Hydroleg Gwastadeddau Gwent




*Ffynhonnell: Gwent Levels Landscape Character Assessment, Ebrill 2017*

Ar y cyfan, mae ansawdd y dŵr ledled y Gwastadeddau wedi gostwng o ganlyniad i ddŵr ffo amaethyddol, datblygiadau trefol a threfniadau gwael ar gyfer rheoli'r seilwaith draenio a dŵr.  Mae hyn wedi cynyddu lefelau llygredd acíwt a gwasgaredig, yn arbennig o faethynnau a gwaddod ac, yn fwy diweddar, garthion heb eu trin o ollyngiadau anghyfreithlon.

Mae dŵr o rannau o Wastadeddau Gwent yn llifo i mewn i Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau) Afon Wysg ac Afon Gwy neu gallant effeithio arnynt.  Nid yw'r naill ACA na'r llall yn cyflawni targedau o ran ffosfforws.  O ganlyniad, rhaid i waith datblygu ar y Gwastadeddau sy'n gollwng yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i Afon Wysg neu Afon Gwy ddefnyddio Cyfrifiannell Cyllideb Maethynnau Cyfoeth Naturiol Cymru i ddangos niwtraliaeth maethynnau oherwydd gall unrhyw gynnydd mewn ffosfforws beri risg ddifrifol i gynefinoedd a rhywogaethau sensitif ym mhob ACA *(cafwyd yr wybodaeth o Ganllawiau Cyfrifiannell Cyllideb Maetholion, Mai 2025).*

**Daeareg a Phriddoedd**

**Perthnasedd i'r canllawiau:**

Mae gan Gymru rywfaint o'r ddaeareg fwyaf amrywiol yn y byd ac mae hyn, yn ei dro, yn sail i fioamrywiaeth, tirwedd ac adnoddau mwynol cyfoethog ac amrywiol y wlad.

Gallai canllawiau cynllunio Gwastadeddau Gwent chwarae rôl o ran gwarchod amrywiaeth ddaearegol ac adnoddau pridd yr ardal a sicrhau eu bod yn cael eu

defnyddio'n gynaliadwy, drwy nodi a diogelu cynefinoedd unigryw, megis mawn, er mwyn sicrhau na fydd gwaith datblygu na newidiadau i arferion defnydd tir yn amharu arnynt.

Mae daeareg Gwastadeddau Gwent yn arbennig ac mae iddi oblygiadau o ran canllawiau a chyfleoedd. Mae swbstrad difandwll a natur anhydraidd y clai a geir yn yr SoDdGA yn golygu na all y bacteria yn y pridd fod yn rhan o unrhyw driniaeth i dorri llygryddion a geir yn yr elifiant i lawr. Felly, fel arfer ni ellir gollwng i'r ddaear. At hynny, er mwyn gollwng i ddŵr wyneb mae gofynion penodol i'w bodloni. Mae canllawiau ar ansawdd dŵr wedi'u llunio'n benodol ar gyfer SoDdGA Gwastadeddau Gwent sy'n darparu'r safonau gofynnol sydd eu hangen er mwyn sicrhau nad amherir ar nodweddion SoDdGA (gweler https://publicregister.naturalresources.wales/Search/Download?RecordId=163095). Gallai'r canllawiau cynllunio gael effeithiau cadarnhaol petaent yn cydnabod bod yn rhaid i unrhyw waith datblygu pellach ar Wastadeddau Gwent ddangos ei fod wedi ystyried ansawdd presennol dŵr yr ardal yn llawn ac wedi deall y gall helpu i gynnal a/neu adfer ansawdd dŵr yn llwyddiannus i lefelau y cytunwyd arnynt â Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Amodau a thueddiadau sylfaenol:**

Safleoedd Adolygu Cadwraeth Ddaearegol

Mae llawer o safleoedd Adolygu Cadwraeth Ddaearegol ledled Cymru, gan gynnwys nifer bach o safleoedd ar Wastadeddau Gwent ac o'u hamgylch. Caiff safleoedd o'r fath eu nodi a'u gwarchod oherwydd eu pwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol o ran daeareg a geomorffoleg, sy'n cynnwys, ar y Gwastadeddau, ddyddodion llifwaddodol a dyddodion mawn.

Dosbarthiad Tir Amaethyddol

Er bod Gwastadeddau Gwent yn cynhyrchu symiau nodedig o gig a chynnyrch llaeth, mae gweithgarwch amaethyddol yn dibynnu ar reoli lefelau dŵr a llifogydd. Mae'r rhan fwyaf o'r Gwastadeddau yn cynnwys tir amaethyddol o ansawdd isel (Gradd 4) oherwydd isbriddoedd gweadog trwm a systemau draenio gwael. Fodd bynnag, ceir pocedi o dir amaethyddol o ansawdd uwch sy'n cynnal caeau âr mewn rhannau sychach o'r dirwedd *(Cafwyd yr holl wybodaeth o Gwent Levels Landscape Character Assessment, Ebrill 2017).*

Storfa Garbon

Mae Gwastadeddau Gwent yn storfa garbon bwysig oherwydd gwlyptiroedd helaeth, pridd mawnaidd a llystyfiant toreithiog yr ardal. Mae'r nodweddion hyn yn atafaelu ac yn cadw carbon yn naturiol sy'n golygu bod y Gwastadeddau yn bwysig, yn genedlaethol, i helpu i liniaru effeithiau newid hinsawdd.

Draenio

Mae'r system ddraenio ar Wastadeddau Gwent wedi cael ei haddasu a'i pheiriannu'n sylweddol dros amser. Mae'n debygol y bydd effeithiau newid hinsawdd yn cynyddu'r angen am ragor o ymyriadau megis pwmpio ac arafu dŵr i fyny'r afon ar adegau o benllanw neu foroedd tymhestlog pan allai arllwysfeydd llanwol fod dan ddŵr/wedi'u cloi ac na allant ollwng yn rhydd.

**Bylchau mewn Data:**

- Mae bylchau mewn gwybodaeth mewn perthynas â rhywogaethau prin a rhywogaethau a warchodir a geir ar Wastadeddau Gwent gan gynnwys mewn perthynas ag infertebratau, pathewod a Chardwenyn Meinlais. Er bod ffocws ledled y DU ar gardwenyn meinlais sy'n chwilio am fwyd, prin yw'r wybodaeth sydd gennym am eu nythod. At hynny, mae'n anodd iawn canfod infertebratau dyfrol prin a dim ond am amser byr y maent ar safleoedd.
- Ceir bylchau hefyd mewn daeareg a dosbarthiadau cynefinoedd (yn arbennig ar gyfer glaswelltiroedd).

**Problemau Allweddol sy'n berthnasol i Ganllawiau Cynllunio Gwastadeddau Gwent a Chyfleoedd i Fynd i'r Afael â Nhw:**

Problemau Allweddol

- Mae ansawdd aer yn wael mewn ardaloedd trefol ger Gwastadeddau Gwent oherwydd allyriadau cerbydau uchel.
- Mae gwaith datblygu, darnio, llifogydd ac effeithiau newid hinsawdd yn arbennig oherwydd darnio cronnol cynefinoedd a achosir gan y ffactorau hyn, yn peri risg i gynefinoedd allweddol a nodir yn Adran 7, yn ogystal â dynodiadau anstatudol a safleoedd gwarchodedig ar Wastadeddau Gwent. Gan fod cynefinoedd mewn perygl, mae'r amrywiaeth unigryw o rywogaethau a gynhelir ganddynt hefyd yn agored i golledion sylweddol. Mae darnio yn peri risg i wydnwch ecosystemau ehangach Gwastadeddau Gwent.
- Mae Gwastadeddau Gwent a'r parth rhynglanwol yn agored i lifogydd a achosir gan lefel y môr sy'n codi o ganlyniad i newid hinsawdd, llifogydd afonol a gwaith rheoli is-optimaidd o ran systemau draenio'r ardal. Mae capasiti storio dŵr yn ystod cyfnodau o glo llanwol ac argaeledd dŵr yn ystod cyfnodau sych estynedig yn cael effaith negyddol ar lefelau dŵr Gwastadeddau Gwent
- Oherwydd rhyng-gysylltedd y rhwydwaith o ffosydd draenio ('reens') a ffosydd caeau a glaswelltiroedd cysylltiedig, gall yr effeithiau ar gyflwr a gweithrediad hydroleg yr SoDdGA (o ran ansawdd dŵr yn ogystal â'r swm o ddŵr), os caiff ei newid, fod yn bellgyrhaeddol.
- Rhywogaethau goresgynnol anfrodorol a gyflwynir i'r ardal gan weithgarwch llongau, offer a dillad wedi'u halogi o weithgareddau hamdden fel pysgota, gweithrediadau masnachol a chyfarpar neu ddeunyddiau sy'n cael eu symud yn ystod gweithgarwch adfer cynefinoedd.

Cyfleoedd

- Gallai'r canllawiau gyfrannu at wella ansawdd aer drwy annog teithio llesol ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus, llwybrau a hyrwyddir a llwybrau rhwydweithiau beicio ledled Gwastadeddau Gwent a rhwng ardaloedd trefol cyfagos.
- Dylai'r canllawiau warchod a diogelu cynefinoedd a rhwydweithiau ecolegol a nodwyd a gwella cysylltedd rhwng cynefinoedd cynhaliol er mwyn gwella bioamrywiaeth a rhoi cyfeiriad strategol ar gyfer eu gwella ar Wastadeddau Gwent.
- Dylai'r canllawiau helpu i ddiogelu a gwella dynodiadau cadwraeth natur statudol gan gynnwys y nodweddion y cawsant eu dynodi/hysbysu o'u herwydd a'r nodweddion cymhwyso sy'n sail iddynt, a rhywogaethau a warchodir. Rhaid i'r canllawiau cefnogi'r gwaith o addasu i newid hinsawdd a hyrwyddo gwasanaethau ecosystemau allweddol ar lefel Gwent.
- Dylai canllawiau helpu i sicrhau gwydnwch ecosystemau (Amrywiaeth, Cwmpas, Cyflwr a Chysylltedd) a chefnogi swyddogaethau ecosystemau a ddarperir ledled Gwastadeddau Gwent.
- Dylai'r canllawiau geisio helpu i leihau perygl llifogydd drwy reoli'r system ddraenio ar Wastadeddau Gwent.
- Dylai'r canllawiau sicrhau bod cynigion ar gyfer rheoli a datblygu tir yn cael eu llywio gan dystiolaeth gadarn sydd wedi ystyried natur gydgysylltiedig y system hydrolegol ledled Gwastadeddau Gwent ac unrhyw effaith bosibl ar hynny.
- Chwilio am gyfleoedd drwy'r canllawiau i helpu i leihau lledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol

## Nod Llesiant: Cymru Iachach

Mae'r adran hon yn darparu data sylfaenol sy'n ymwneud â'r nod llesiant canlynol:

*‘Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.’*

Mae a wnelo'r data yn bennaf â'r canlynol:

- Iechyd pobl
- Llesiant.

**Iechyd a Llesiant Pobl**

**Perthnasedd i'r canllawiau:**

Mae iechyd gwell yn allweddol i hapusrwydd a llesiant ac mae'n gwneud cyfraniad pwysig at gynnydd economaidd am fod poblogaethau iachach yn byw'n hirach ac maent yn fwy cynhyrchiol. Mae iechyd a llesiant cymunedau ar Wastadeddau Gwent ac o'u hamgylch yn bwysig er mwyn i bobl ledled y rhanbarth allu cyflawni eu potensial a chreu cymdeithas fwy cyfartal.

Mae canllawiau cynllunio Gwastadeddau Gwent yn debygol o chwarae rôl gymedrol, anuniongyrchol o ran cefnogi iechyd a llesiant. Bydd y canllawiau yn cefnogi penderfyniadau drwy'r broses gynllunio ar ein hadnoddau naturiol a'n rhwydweithiau ecolegol sydd hefyd yn debygol o annog gwelliannau mewn iechyd corfforol ac iechyd meddwl a hyrwyddo ffyrdd iach ac egnïol o fyw yn yr awyr agored.

**Amodau a thueddiadau sylfaenol:**


Disgwyliad Oes

Mae amrywiaeth o ffactorau yn dylanwadu ar ddisgwyliad oes, megis ffordd o fyw, incwm, cyflogaeth, mynediad at wasanaethau a'r amgylchedd ehangach. Yn y tri awdurdod sy'n rhychwantu tirwedd Gwastadeddau Gwent, mae disgwyliad oes yn debyg iawn i gyfartaledd Cymru, sef tua 78 oed yn achos dynion a 82 oed yn achos menywod yng Nghaerdydd a Chasnewydd. Mae disgwyliad oes yn uwch yn Sir Fynwy ac mae uwchlaw cyfartaledd Cymru ar 81 oed yn achos dynion a 84 oed yn achos menywod (2017/19). Ar y cyfan, mae disgwyliad oes yn cyfateb i'r cyfartaledd neu mae uwchlaw'r cyfartaledd yn y tri awdurdod sy'n rhychwantu Gwastadeddau Gwent. *(Cafwyd yr holl ffigurau o Adroddiadau Cwmpasu'r Cynlluniau Datblygu Lleol diweddaraf).*

Iechyd Cyffredinol

Mae llawer o ffactorau gwahanol yn effeithio ar iechyd ac anghydraddoldeb iechyd, a all gynnwys addysg, cyflogaeth, mynediad at wasanaethau a mannau gwyrdd ac ansawdd tai.

Ffigur B-5 Penderfynyddion Iechyd




*Ffynhonnell: Dahlgren a Whitehead*

Mae iechyd cyffredinol yn cyfateb i gyfartaledd Cymru yn y tri awdurdod sy'n rhychwantu tirwedd Gwastadeddau Gwent.  Mae rhwng 71% a 78% o'r trigolion yn Sir Fynwy a Chasnewydd yn nodi eu bod yn 'iach' neu'n 'iach iawn' yn 2021/22 a 2011 yn y drefn honno.  Dim ond cyfran fach o'r trigolion yn y ddau awdurdod hyn sy'n nodi eu bod yn 'wael eu hiechyd' neu'n 'wael iawn eu hiechyd' ar tua 7% ac mae'r ffigur hwn yn ei ailadrodd yng Nghaerdydd yn unol â chyfartaledd Cymru.  Ar y cyfan, mae iechyd cyffredinol yn gyson â chyfartaledd Cymru yn y tri awdurdod sy'n rhychwantu Gwastadeddau Gwent. *(Cafwyd yr holl ffigurau o Adroddiadau Cwmpasu'r Cynlluniau Datblygu Lleol diweddaraf).*

Mannau Amwynder

Mae nifer y mannau amwynder yn amrywio rhwng y tri awdurdod sy'n rhychwantu tirwedd Gwastadeddau Gwent.  Mae gan Gaerdydd lefel gyffredinol o ansawdd aer gwael ac mae diffyg mannau gwyrdd yn ei chraidd.  Yng Nghasnewydd, mae diffyg o 21ha o fannau gwyrdd agored gyda diffyg mewn 13 allan o 20 o wardiau etholiadol.  Ar y llaw arall, nid ymddengys fod y diffyg hwn yn cael ei ailadrodd yn awdurdod mwy gwledig Sir Fynwy lle mae gan y rhan fwyaf o'r trigolion fynediad i'r dirwedd a chefn gwlad agored a gyda 425.6ha o fannau amwynder sydd wedi'u dynodi'n benodol i'w gwarchod ac oherwydd eu gwerth amwynder.  Ar y cyfan, mae nifer y mannau amwynder yn cynyddu wrth i chi symud tua'r dwyrain ar draws awdurdodau yn nhirwedd Gwastadeddau Gwent *(Cafwyd yr holl ffigurau o Adroddiadau Cwmpasu'r Cynlluniau Datblygu Lleol diweddaraf).*

Mae Gwastadeddau Gwent yn cynnwys llawer o leoedd o ddiddordeb ac mae ganddynt gryn nifer o asedau seilwaith gwyrdd, sy'n cynnwys, ymhlith pethau eraill, y miloedd o hectarau o 'reens' cydgysylltiedig, glaswelltiroedd, gwrychoedd a hawliau tramwy cyhoeddus ar gyfer cerdded a beicio sy'n cynnwys Llwybr Arfordir Cymru.

Ffigur B-6 Map o Fannau Amwynder Gwastadeddau Gwent




*Ffynhonnell: Living Levels Partnership*

**Bylchau mewn Data:**

Nid oes unrhyw fylchau mewn data.

**Problemau Allweddol sy'n berthnasol i Ganllawiau Cynllunio Gwastadeddau Gwent a Chyfleoedd i Fynd i'r Afael â Nhw:**

Problemau Allweddol

- Prin iawn yw'r mannau amwynder a mannau gwyrdd agored i drigolion a chymunedau eu mwynhau yn yr awdurdodau wedi'u trefoli i'r gorllewin o dirwedd Gwastadeddau Gwent sy'n debygol o fod yn effeithio ar ddisgwyliad oes, iechyd a llesiant cyffredinol
- Gallai darnio a newid hinsawdd roi mwy o bwysau ar y system fwyd leol ar Wastadeddau Gwent.

Cyfleoedd

- Mae'n bosibl y bydd y canllawiau yn ceisio nodi, hyrwyddo a diogelu mannau hamdden, mannau gwyrdd a mannau glas sy'n rhan o rwydweithiau ecolegol sydd yn nhirwedd Gwastadeddau Gwent ac yn cyffinio â hi er mwyn sicrhau eu bod yn

hygyrch i bawb. Gallai diogelu'r ardaloedd hyn oherwydd eu gwerth amwynder, yn ei dro, gael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant trigolion sy'n byw ar Wastadeddau Gwent ac yn agos atynt, yn ogystal â gwella mynediad i fyd natur yn gyffredinol.

## Nod Llesiant: Cymru sy'n Fwy Cyfartal

Mae'r adran hon yn darparu data sylfaenol sy'n ymwneud â'r nod llesiant canlynol:

*'Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau.'*

Mae a wnelo'r data yn bennaf â'r canlynol:

- Poblogaeth.

**Poblogaeth**

**Perthnasedd i'r canllawiau:**

Gall cymdeithas gyfartal ledled tirwedd Gwastadeddau Gwent helpu i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus a chyflogaeth yn deg ac yn hygyrch i bawb a bod y cymunedau ar Wastadeddau Gwent ac o'u hamgylch yn gynhwysol.


Mae canllawiau cynllunio Gwastadeddau Gwent yn annhebygol o chwarae rôl allweddol o ran cyfrannu at gymdeithas decach a mwy cynhwysol ond gallent gefnogi hyn yn anuniongyrchol, er enghraifft, drwy wella cyfle cyfartal i fwynhau mannau gwyrdd agored ledled y rhanbarth a thrwy alluogi cymunedau i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar dirwedd Gwastadeddau Gwent drwy ymgysylltu ac ymgynghori ynghylch y canllawiau drafft a chyfleoedd eraill ar gyfer seilwaith gwyrdd.

**Amodau a thueddiadau sylfaenol:**

Amcangyfrifion Poblogaeth

Mae amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer y boblogaeth breswyl ym mhob un o'r tri awdurdod sy'n rhychwantu tirwedd Gwastadeddau Gwent yn nodi bod poblogaeth Caerdydd tua phedair gwaith yn fwy na phoblogaeth awdurdod gwledig Sir Fynwy, sef 383,536 o drigolion ym mis Mehefin 2023.  Rhwng 2020 a 2023, mae'r boblogaeth ym mhob un o'r tri awdurdod sy'n rhychwantu Gwastadeddau Gwent wedi cynyddu, yn arbennig yng Nghaerdydd lle y gwelwyd cynnydd o tua 23,000 o bobl, a Chaerdydd yw un o'r dinasoedd sy'n tyfu gyflymaf yn y DU ac mae'n tyfu'n gyflymach nag unrhyw ardal awdurdod lleol arall yng Nghymru *(Cafwyd yr holl ffigurau o* Stats Cymru)

Ffigur B-7 Amcangyfrifon o Boblogaeth Awdurdodau Lleol (2020-2023)





*Ffynhonnell: Stats Cymru*

## Elfennau Newid

Ym mhob un o'r tri awdurdod sy'n rhychwantu tirwedd Gwastadeddau Gwent mudo net (mewnlif llai all-lif) yw elfen fwyaf newid yn y boblogaeth, yn arbennig yng Nghaerdydd, lle y gwelwyd cynnydd o 11,966 o bobl yn y boblogaeth yn 2022/23 drwy fewnfudo o wledydd eraill. Ar y llaw arall, mae newid naturiol yn y boblogaeth (genedigaethau llai marwolaethau) yn gwneud cyfraniad llawer llai at y cynnydd yn y boblogaeth ym mhob un o'r tri awdurdod ac yn arbennig yn Sir Fynwy lle y cofnodwyd mwy o farwolaethau na genedigaethau (-482) yn 2022/23 *(Cafwyd yr holl ffigurau o Stats Cymru)*

Ffigur B-8 Elfennau Newid ym Mhoblogaeth Awdurdodau Lleol (2022/23)





*Ffynhonnell: Stats Cymru*

## Oedran

Y boblogaeth economaidd weithgar (16-64 oed) yw'r grŵp oedran mwyaf ym mhob un o'r tri awdurdod sy'n rhychwantu tirwedd Gwastadeddau Gwent.  Caerdydd sydd â'r nifer mwyaf o bobl yn y grŵp oedran hwn ac mae hyn i'w briodoli (yn rhannol) i'w phoblogaeth fawr o fyfyrwyr.  Ledled Gwastadeddau Gwent, mae gan Sir Fynwy gyfran sylweddol uwch o grwpiau oedran hŷn (65+ oed) ac mae'r gyfran hon yn cynyddu yn fwy na chyfartaledd Cymru *(Cafwyd yr holl ffigurau o Stats Cymru).*

Ffigur B-9 Oedran y Boblogaeth yn ôl Awdurdod Lleol (2023)




*Ffynhonnell: Stats Cymru*


## Ethnigrwydd

Caerdydd (18.5%) a Chasnewydd (13.2%) sydd â'r grwpiau ethnig leiafrifol mwyaf fel cyfran o'r boblogaeth ym mhob un o'r tri awdurdod sy'n rhychwantu tirwedd Gwastadeddau Gwent.  Mae'r ddau ffigur yn uwch o lawer na chyfartaledd Cymru (5.4%) sy'n golygu mai Caerdydd a Chasnewydd yw'r awdurdodau â'r poblogaethau mwyaf o bobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yng Nghymru, o gymharu â Sir Fynwy a'r holl awdurdodau lleol eraill yng Nghymru *(Cafwyd yr holl ffigurau o Adroddiadau Cwmpasu awdurdodau lleol).*

## Amcanestyniadau Poblogaeth

Dros y pum mlynedd nesaf (2025-2030) disgwylir i'r boblogaeth gynyddu ym mhob un o'r tri awdurdod sy'n rhychwantu tirwedd Gwastadeddau Gwent.  Rhagwelir mai yng Nghaerdydd y gwelir y cynnydd mwyaf yn y boblogaeth (+6,790 o bobl) ac mai yn Sir Fynwy y gwelir y cynnydd lleiaf (+1,427 o bobl) *(Cafwyd yr holl ffigurau o Stats Cymru).*

Ffigur B-10 Amcanestyniadau o Boblogaeth Awdurdodau Lleol (yn seiliedig ar 2018)




*Ffynhonnell: Stats Cymru*

**Bylchau mewn Data:**

Nid oes unrhyw fylchau mewn data.

**Problemau Allweddol sy'n berthnasol i Ganllawiau Cynllunio Gwastadeddau Gwent a Chyfleoedd i Fynd i'r Afael â Nhw**

Problemau Allweddol

- Disgwylir i'r boblogaeth leol mewn awdurdodau sy'n rhychwantu tirwedd Gwastadeddau Gwent barhau i gynyddu dros y pum mlynedd nesaf a fydd hefyd yn arwain at gynnydd yn y boblogaeth sy'n heneiddio o unigolion 65 oed a throsodd.

Cyfleoedd

- Dylai'r canllawiau geisio diogelu tirwedd Gwastadeddau Gwent fel 'ysgyfaint gwyrdd' yn ardaloedd cynyddol drefoledig ac adeiledig Caerdydd a Chasnewydd.
- Dylai'r canllawiau geisio hyrwyddo statws tirwedd Gwastadeddau Gwent, a'i manteision cysylltiedig, sy'n cynnwys, ymhlith pethau eraill, gefnogi iechyd pobl hŷn, sicrhau cyfle cyfartal i bobl o bob oedran ac â phob anabledd a gwella cysylltiadau cymdeithasol.

## Nod Llesiant: Cymru o Gymunedau Cydlynus

Mae'r adran hon yn darparu data sylfaenol sy'n ymwneud â'r nod llesiant canlynol:

*'Cymunedau atyniadol, hyfyw, diogel sydd â chysylltiadau da.'*

Mae a wnelo'r data yn bennaf â'r canlynol:

- Amddifadedd
- Tai
- Troseddu
- Trafnidiaeth

**Amddifadedd**

**Perthnasedd i'r canllawiau:**

Mae creu cymunedau cydlynus sy'n atyniadol, yn ddiogel ac â chysylltiadau da ac sy'n diwallu anghenion y boblogaeth breswyl yn hanfodol bwysig.


Mae canllawiau cynllunio Gwastadeddau Gwent yn annhebygol o chwarae rôl allweddol o ran arwain penderfyniadau drwy'r broses gynllunio sy'n ymwneud â datblygu lle a all helpu i leihau amddifadedd, ond gallent gefnogi hyn yn anuniongyrchol, drwy helpu i sicrhau amgylchedd byw mwy cynaliadwy i gymunedau ar Wastadeddau Gwent.

**Amodau a thueddiadau sylfaenol:**

<u>Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru</u>

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yw mesur swyddogol Llywodraeth Cymru o amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru. Mae'n nodi ardaloedd â'r crynoadau mwyaf o amddifadedd o 1 (mwyaf difreintiedig) i 1,909 (lleiaf difreintiedig) o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen IS. Yn 2019, Casnewydd oedd yr awdurdod lleol yn nhirwedd Gwastadeddau Gwent â'r gyfran uchaf o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn y categori amddifadedd mwyaf difreintiedig (y 10% uchaf), sef 24 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is, a dyma oedd y ffigur mwyaf a gofnodwyd yng Nghymru hefyd. Ar y llaw arall, nid oedd yr un o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Sir Fynwy yn y categori amddifadedd mwyaf difreintiedig (y 10% uchaf), gyda Sir Fynwy yn cofnodi lefelau llawer is o amddifadedd, ar gyfartaledd, o gymharu ag awdurdodau eraill yn nhirwedd Gwastadeddau Gwent *(Cafwyd yr holl ffigurau o Stats Cymru).*

Ffigur B-11 Lefelau Amddifadedd Awdurdodau Lleol (2019)




*Ffynhonnell: Stats Cymru*

**Tai**

**Perthnasedd i'r canllawiau:**

Mae datblygu tai er mwyn diwallu anghenion y boblogaeth yn bwysig i gymunedau lleol ac mae'n darparu cyswllt cryf i gefnogi'r economi leol, cyfoeth a llesiant.

Gallai canllawiau cynllunio Gwastadeddau Gwent chwarae rôl allweddol o ran arwain penderfyniadau drwy'r broses gynllunio sy'n ymwneud â chynllunio datblygiadau tai a chreu lleoedd er mwyn helpu i sicrhau gwydnwch ecosystemau ar Wastadeddau Gwent. Mae'r dull hwn o weithredu yn debygol o gynyddu cyfaredd, unigoliaeth a dymunoldeb y Gwastadeddau fel lle i fyw gyda datblygiadau newydd yn cael budd o wasanaethau ecosystemau allweddol yn yr ardal.

**Amodau a thueddiadau sylfaenol:**

Prisiau Tai

Yn 2022, pris cyfartalog tŷ yn Sir Fynwy oedd  £398,859. Mae'r ffigur hwn gryn dipyn yn uwch na chyfartaledd Cymru (sef £236,439) a dyma'r uchaf o blith pob un o'r tri

awdurdod ledled Gwastadeddau Gwent, gyda'r gyfran fwyaf o werthiannau ar gyfer anheddau sengl. Caerdydd sydd â'r pris tŷ uchaf ond un o blith yr holl awdurdodau sy'n rhychwantu tirwedd Gwastadeddau Gwent, sef £217,804, gyda phris eiddo sengl hefyd yn cynyddu'n gyflym. Casnewydd yw'r awdurdod mwyaf fforddiadwy i fyw ynddo ar Wastadeddau Gwent gyda phrisiau eiddo yn cyfateb i £201,627, ar gyfartaledd, yn 2021 *(Cafwyd yr holl ffigurau o Adroddiadau Cwmpasu'r CDLlau diweddaraf).*

Angen o ran Tai

Mae gan bob awdurdod sy'n rhychwantu tirwedd Gwastadeddau Gwent angen mawr am dai fforddiadwy, sydd ar ei fwyaf yn Ninas Caerdydd ar 737 o unedau fforddiadwy y flwyddyn (a gyfrifwyd gan ddefnyddio'r prif amcanestyniad seiliedig ar 2018) dros gyfnod y CDLl hyd at 2036. Yng Nghasnewydd y mae'r lefel uchaf ond un o angen am dai fforddiadwy, gyda'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg (i ategu'r CDLl) yn nodi bod angen 530 o unedau fforddiadwy y flwyddyn (a gyfrifwyd gan ddefnyddio'r prif amcanestyniad seiliedig ar 2018). Yn Sir Fynwy y mae'r lefelau isaf o angen am dai fforddiadwy ledled Gwastadeddau Gwent, sef 453 o unedau fforddiadwy y flwyddyn dros bum mlynedd gyntaf cyfnod y cynllun sy'n gostwng i 82 o unedau fforddiadwy y flwyddyn ar gyfer y 10 mlynedd sy'n weddill o'r CDLl hyd at 2033. *(Cafwyd yr holl ffigurau o'r Cynllun Datblygu Lleol perthnasol a'i dystiolaeth ategol)*.

Tai a Gwblhawyd

Yn hanesyddol, mae nifer y tai a gwblhawyd wedi amrywio'n fawr ym mhob un o'r tri awdurdod sy'n rhychwantu tirwedd Gwastadeddau Gwent. Dros gyfnod o 10 mlynedd (o tua 2010 i 2020), yn ninas fwy trefol Caerdydd y cofnodwyd y nifer mwyaf o dai a gwblhawyd, sef 835 o anheddau y flwyddyn, ar gyfartaledd, ac yn awdurdod gwledig Sir Fynwy y cofnodwyd y nifer lleiaf o dai a gwblhawyd, sef 311 o anheddau y flwyddyn, ar gyfartaledd *(Cafwyd yr holl ffigurau o'r Cynllun Datblygu Lleol perthnasol a'i dystiolaeth ategol)*.

Tabl B-2 Nifer y Tai a Gwblhawyd mewn Awdurdodau Lleol

| **Awdurdodau Lleol Gwastadeddau Gwent** | **Nifer y Tai a Gwblhawyd Y Flwyddyn (tua 2010-2020)** |
|---|---|
| Caerdydd | 835 o anheddau y flwyddyn |
| Casnewydd | 638 o anheddau y flwyddyn |
| Sir Fynwy | 311 o anheddau y flwyddyn |

Amcanestyniadau Tai

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, amcanestyniadau Llywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar 2018 yw'r amcanestyniadau diweddaraf i lywio CDLl diwygiedig sy'n datblygu pob awdurdod sy'n rhychwantu tirwedd Gwastadeddau Gwent. Mae pob un o'r awdurdodau

wedi cynnig lefel o gynnydd tai sydd uwchlaw'r prif amcanestyniadau seiliedig ar 2018 er mwyn helpu i ddiwallu eu hanghenion o ran tai a'u huchelgeisiau economaidd. Gallai hyn arwain at bwysau cynyddol am ddatblygiadau tai newydd yn nhirwedd Gwastadeddau Gwent ac mewn ardaloedd cyfagos *(Cafwyd yr holl ffigurau o'r Cynllun Datblygu Lleol perthnasol a'i dystiolaeth ategol)*

Tabl B-3  Cynigion Awdurdodau Lleol ar gyfer Darparu Tai mewn CDLlau Diwygiedig sy'n Datblygu

| Awdurdod | Cyfnod y Cynllun | Y Cam Presennol | Tai a Ddarperir |
|---|---|---|---|
| Caerdydd | 2021-2036 | Adnau | 26,400 o gartrefi |
| Casnewydd | 2021-2036 | Y Strategaeth a Ffefrir | 10,530 o gartrefi |
| Sir Fynwy | 2018-2033 | Adnau | 6,210 o gartrefi |
| **Cyfanswm y tai a ddarperir:** | | | **43,140 o gartrefi** |

**Troseddu**

**Perthnasedd i'r canllawiau:**

Mae cynnal a chreu cymunedau cydlynus sy'n atyniadol, yn ddiogel ac â chysylltiadau da ac sy'n diwallu anghenion y boblogaeth breswyl yn bwysig.

Mae canllawiau cynllunio Gwastadeddau Gwent yn annhebygol o chwarae rôl allweddol o ran arwain penderfyniadau drwy'r broses gynllunio sy'n ymwneud â datblygu lle a all helpu i leihau troseddu, ond gallent gefnogi hyn yn anuniongyrchol, drwy godi ymwybyddiaeth o dipio anghyfreithlon a thaflu ysbwriel ar Wastadeddau Gwent yn ogystal â cheisio sicrhau bod creu lleoedd wrth wraidd pob datblygiad.

**Amodau a thueddiadau sylfaenol:**

Digwyddedd Troseddau

Oherwydd yr ardaloedd trefol trwchus eu poblogaeth sy'n cyffinio â thirwedd Gwastadeddau Gwent, mae nifer y troseddau a gyflawnir yn uwch o gymharu â Chymru gyfan ac maent i'w priodoli'n bennaf i'r ardaloedd trefol hynny yn hytrach na Gwastadeddau Gwent eu hunain.  Yng Nghaerdydd y mae hyn yn fwyaf nodedig gyda 48,000 o droseddau hysbysadwy yn 2019 gyda'r gyfran fwyaf yn droseddau treisgar a rhywiol (sef 25%) ac yn achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol (sef 19%). Casnewydd sydd â'r nifer mwyaf ond un o droseddau y rhoddwyd gwybod amdanynt ledled yr awdurdod gyda 19,800 o droseddau (sef 1,650 o achosion y mis, ar gyfartaledd) ar ôl 2021/22.  Ar y llaw arall, mae gan Sir Fynwy gyfraddau troseddu llawer is gyda dim ond 5,702 o droseddau yn cael eu cofnodi yn 2021/22 gyda'r gyfan fwyaf yn achosion o drais yn erbyn y person (sef 38.9%) ac yn droseddau dwyn (sef 20.7%)  Ar

Wastadeddau Gwent eu hunain, effeithiau negyddol tipio anghyfreithlon a thaflu ysbwriel yw'r prif broblemau allweddol mewn perthynas â throseddu *(Cafwyd yr holl ffigurau o Adroddiadau Cwmpasu'r CDLlau diweddaraf).*

**Trafnidiaeth**

**Perthnasedd i'r canllawiau:**

Mae datblygu cysylltiadau trafnidiaeth da mewn cymunedau a rhyngddynt yn bwysig i sicrhau y gall pobl symud yn ddirwystr rhwng ardaloedd ac o'u mewn ac mae cysylltiad agos rhwng hyn a chefnogi'r economi leol, cyfoeth a llesiant.

Gallai canllawiau cynllunio Gwastadeddau Gwent chwarae rôl o ran arwain penderfyniadau drwy'r broses gynllunio sy'n ymwneud â thrafnidiaeth. Gallai'r canllawiau helpu i wella neu estyn llwybrau teithio llesol a hawliau tramwy cyhoeddus neu greu cyfleoedd ar gyfer rhai newydd ledled tirwedd Gwastadeddau Gwent a chysylltiadau i aneddiadau trefol cyfagos a rhyngddynt.

**Amodau a thueddiadau sylfaenol:**

<u>Lefelau Traffig</u>

Oherwydd yr ardaloedd trefol trwchus eu poblogaeth sy'n cyffinio â thirwedd Gwastadeddau Gwent, ceir lefelau uchel o draffig, tagfeydd ac allyriadau nwyon tŷ gwydr, yn arbennig yng Nghaerdydd a Chasnewydd a hynny er gwaetha'r ffaith bod gan y ddwy ddinas fynediad da at wasanaethau a chysylltiadau bysiau a rheilffyrdd, ar y cyfan. Cyrhaeddodd y cynnydd mewn traffig ei lefel uchaf erioed yng Nghaerdydd yn 2018 gyda mwy nag 1.8 biliwn o gilometrau cerbydau yn cael ei gofnodi y flwyddyn honno o gymharu â 0.98 biliwn o filltiroedd cerbydau yng Nghasnewydd a 0.56 biliwn o filltiroedd cerbydau yn cael ei gofnodi yn Sir Fynwy dros yr un cyfnod *(Cafwyd yr holl ffigurau o Adroddiadau Cwmpasu'r CDLlau diweddaraf).*

<u>Teithio i'r Gwaith</u>

Mae lefel uchel o gymudo yn yr ardaloedd trefol sy'n cyffinio â thirwedd Gwastadeddau Gwent ac yn yr ardaloedd trefol o'u hamgylch. Cyn pandemig COVID-19, roedd bron i 100,000 o bobl yn cymudo i Gaerdydd bob dydd gydag 80% yn teithio mewn car. Gwnaeth trigolion Caerdydd 190,000 o deithiau cymudo bob dydd hefyd, yr oedd tua 30,000 ohonynt (neu 16%) yn deithiau i'r gwaith y tu allan i'r ddinas. Mae'r ffigur hwn yn llawer uwch yng Nghasnewydd gyda bron i 40% o'r trigolion yn cymudo allan o'r ddinas i weithio. Yn Sir Fynwy, teithiodd bron i 20% o'r boblogaeth economaidd weithgar ymhellach na 30km i'r gwaith mewn car, a oedd yn cael ei hwyluso gan agosrwydd y sir i Gasnewydd, Bryste a Swydd Gaerloyw *(Cafwyd yr holl ffigurau o Adroddiadau Cwmpasu'r CDLlau diweddaraf).*

**Bylchau mewn Data**

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oedd unrhyw ddata cyson na chadarn ar hawliau tramwy cyhoeddus na llwybrau teithio llesol ym mhob ardal awdurdod lleol a sut mae hyn yn cael ei ddefnyddio at ddibenion hamdden neu adloniant.

**Problemau Allweddol sy'n berthnasol i Ganllawiau Cynllunio Gwastadeddau Gwent a Chyfleoedd i Fynd i'r Afael â Nhw**

Problemau Allweddol

- Mae tipio anghyfreithlon ac achosion eraill o daflu ysbwriel yn broblemau mawr ar Wastadeddau Gwent ac maent yn peri heriau sylweddol i'r amgylchedd a chymunedau lleol. Mae ysbwriel hefyd yn broblem i Aber Afon Hafren.
- Ceir llawer iawn o dagfeydd traffig a lefelau uchel o allyriadau nwy tŷ gwydr yn yr awdurdodau sy'n rhychwantu tirwedd Gwastadeddau Gwent ac fe'u hachosir, yn bennaf, gan lefelau uchel o gymudo yn ne-ddwyrain Cymru a'r ardaloedd o'i amgylch, a all fod yn effeithio ar dirwedd Gwastadeddau Gwent.

Cyfleoedd

- Mae'n bosibl y bydd y canllawiau yn nodi'r niwed amgylcheddol a achosir gan achosion o daflu ysbwriel a thipio anghyfreithlon ar Wastadeddau Gwent er mwyn helpu awdurdodau, partneriaid lleol a thrigolion i fynd i'r afael â'r broblem.
- Dylai'r canllawiau geisio helpu i gynnal a gwella ansawdd aer ar Wastadeddau Gwent a'r ardaloedd o'u hamgylch drwy wella mannau gwyrdd agored yr ardal a hyrwyddo dulliau teithio heblaw'r car, yn arbennig llwybrau teithio llesol diogel ar gyfer cerdded a beicio.

## Nod Llesiant: Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu

Mae'r adran hon yn darparu data sylfaenol sy'n ymwneud â'r nod llesiant canlynol:

*'Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau hamdden.'*

Mae a wnelo'r data yn bennaf â'r canlynol:

- Y Gymraeg
- Tirwedd
- Asedau diwylliannol a threftadaeth:

**Y Gymraeg**

**Perthnasedd i'r canllawiau:**

Mae cryfhau hunaniaeth genedlaethol Cymru drwy hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn bwysig er mwyn cynnal a gwella diwylliant bywiog mewn cymunedau lleol ledled Cymru.

Mae canllawiau cynllunio Gwastadeddau Gwent yn annhebygol o chwarae rôl allweddol o ran arwain penderfyniadau drwy'r broses gynllunio sy'n ymwneud â hyrwyddo'r Gymraeg, ond gallent gefnogi hyn yn anuniongyrchol, drwy annog darparu cyfleoedd addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Gallai hyn fod mewn perthynas â bioamrywiaeth a gwasanaethau ecosystemau a thrwy unrhyw arwyddion dwyieithog ychwanegol a gynhyrchir mewn ymateb i ystyriaeth a roddir mewn perthynas â rhoi'r canllawiau ar waith.

**Amodau a thueddiadau sylfaenol:**

Siaradwyr Cymraeg

Yn achos yr awdurdodau sy'n rhychwantu tirwedd Gwastadeddau Gwent, lefel y siaradwyr Cymraeg oedd 22.8% yng Nghaerdydd, 17.6% yng Nghasnewydd a 21.4% yn Sir Fynwy. Mae pob un o'r tri awdurdod islaw cyfartaledd Cymru gyfan, sef 27.7%. *(data a gafwyd o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Ionawr 2025, Arolwg a gynhaliwyd ar 30 Medi 2024)*

**Tirwedd**

**Perthnasedd i'r canllawiau:**

Mae tirweddau ledled Cymru yn adlewyrchu ein hamrywiaeth o adnoddau naturiol ac ecosystemau yn erbyn cymhlethdod dylanwad dynol a phenderfyniadau ynghylch defnydd tir. Yn nodedig, mae amgylchedd Gwastadeddau Gwent, a grëwyd gan weithgarwch dynol, a'i gydberthynas gref â'r forwedd, yn dod â llawer o fanteision diwylliannol ar gyfer yr amgylcheddau daearol a morol.

Mae canllawiau cynllunio Gwastadeddau Gwent yn debygol o chwarae rôl bwysig o ran cynnal a gwella cymeriad ac ansawdd y dirwedd ar Wastadeddau Gwent er mwyn helpu i greu ymdeimlad cryf o le a hunaniaeth ddiwylliannol â chysylltiadau agos â'r diwydiant twristiaeth.

**Amodau a thueddiadau sylfaenol:**

Ansawdd Tirwedd

Mae LANDMAP yn adnodd tirwedd i Gymru gyfan lle y caiff nodweddion tirwedd, priodweddau a dylanwadau ar y dirwedd eu cofnodi a'u gwerthuso. Mae trosolwg byr o nodweddion allweddol ar Wastadeddau Gwent o dan agwedd LANDMAP fel a ganlyn:

*(Cafwyd yr holl wybodaeth o'r Gwent Levels Landscape Character Assessment, Ebrill 2017)*

**Tirwedd Ddaearegol:**

- Mae Gwastadeddau Gwent yn barth topograffig unigryw sy'n cynnwys gwastadedd isel ac eang hyd at 6km o led sy'n ymestyn hyd at Aber Afon Hafren. Mae'r gwastadedd arfordirol yn cynnwys tair ardal ar wahân, sef: Gwastadedd Gwynllŵg, Gwastadedd Cil-y-coed a thrydedd ardal lai o faint a elwir yn Wastadedd Mathern.
- Nodir ymyl ogleddol Gwastadeddau Gwent gan y ffin rhwng y tir ychydig yn uwch yn y gogledd a'r tir is, mwy gwastad ar lifwaddod aberol a adferwyd i'r de.
- Ceir yr unig fawnog sydd wedi goroesi ar y Gwastadeddau ar Wastadedd Cil-y-coed i'r de o Fagwyr, er bod rhai ardaloedd lleol o briddoedd mawnaidd ledled y ffen cefn.
- Amcangyfrifir y caiff 11% o'r cynefin morfa heli ei golli o ganlyniad i wasgfa arfordirol erbyn 2055

**Tirwedd Hanesyddol:**

- Mae Gwastadeddau Gwent yn enghraifft wych o dirwedd a grëwyd gan weithgarwch dynol, lle mae tystiolaeth glir o batrymau anheddu a systemau amgáu a draenio unigryw i'w gweld o hyd, ac maent wedi'u gydnabod drwy eu cynnwys ar y Gofrestr o Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru.
- Mae'r ardal yn cynnwys cyfoeth o asedau archaeolegol a threftadaeth o bwysigrwydd cenedlaethol, y mae llawer ohonynt yn y priddoedd llawn dŵr ledled yr ardal.
- Yn ogystal â'r patrymau caeau unigryw a nodweddiadol, mae nodweddion eraill y dirwedd hanesyddol sydd wedi goroesi ar Wastadeddau Gwent yn cynnwys:

    1. System Rheoli Dŵr a Draenio
    2. Mynediad a Phontydd
    3. Patrymau Anheddu, Adeiladau ac Adeiladwaith Hanesyddol
    4. Perllannau Hanesyddol.

**Tirwedd Ddiwylliannol:**

- Mae traffyrdd, priffyrdd mawr eraill a rheilffyrdd yn dominyddu ymylon gogleddol tirwedd y Gwastadeddau, gan gynnig ffordd o gyrraedd y rhanbarth yn gyflym neu ei osgoi.
- Mae'r prif rymoedd diwylliannol allweddol ar gyfer newid y dirwedd fel a ganlyn:

    1. **Rheoli'r systemau draenio** am fod cyrsiau dŵr yn agored i gael eu hesgeuluso oherwydd diffyg gwaith cynnal a chadw priodol a newidiadau i systemau draenio a defnydd tir.
    2. **Rheoli llifogydd ac addasu i'r newid hinsawdd** oherwydd lefelau dŵr llanwol ac afonol sy'n codi.

3. **Newidiadau i arferion rheoli tir amaethyddol** i gyfundrefnau amaethyddol mwy dwys, darnio busnesau fferm a nifer cynyddol o dyddynwyr.
4. Mae gwaith i **ehangu aneddiadau a datblygiadau adeiledig newydd** yn arwain at golli llawer o nodweddion hanesyddol Gwastadeddau Gwent i waith datblygu trefol sydd, yn ei dro, yn arwain at newid sylfaenol i'r dirwedd, darnio a gwanhau cymeriad.
5. Mae gwaith i **ddatblygu a gwella seilwaith**, sy'n cynnwys cynlluniau ynni diwydiannol ac adnewyddadwy, yn golygu bod y Gwastadeddau bellach yn lle anghysbell sydd wedi'i wahanu oddi wrth weddill y rhanbarth gydag effeithiau gweledol sylweddol ac effeithiau sylweddol ar y dirwedd a bioamrywiaeth.

**Cynefinoedd Tirwedd:**

Ar y cyfan, mae LANDMAP yn diffinio Cynefinoedd Tirwedd fel y cynefinoedd lled-naturiol a'r gorchudd llystyfiant sy'n dylanwadu ar amrywiaeth y dirwedd ac amrywiaeth fiolegol, gorchudd tir a'r ffordd y caiff tir ei ddefnyddio a'i fwynhau ar raddfa tirwedd eang. Mae trosolwg o Gynefinoedd Tirwedd ar Wastadeddau Gwent, sy'n nodi nodweddion arbennig y safleoedd dynodedig helaeth o bwysigrwydd Ewropeaidd, cenedlaethol a lleol a'r gwerth i fywyd gwyllt eisoes wedi'i nodi'n fanwl yn yr adran ar Fioamrywiaeth, Fflora a Ffawna uchod, o dan yr adran ar y Nod Llesiant: Cymru Gydnerth.

**Gweledol a Synhwyraidd:**

- Mae gan Wastadeddau Gwent lawer o nodweddion gweledol a synhwyraidd allweddol sy'n rhoi ei hymdeimlad unigryw o le i'r ardal, gan gynnwys:

1. Topograffi gwastadedd
2. Llinoledd cryf a phatrwm geometrig unigryw o gaeau, systemau draenio, cyrsiau dŵr, lonydd a llwybrau hanesyddol
3. Patrwm draenio unigryw o afonydd wedi'u camlesu, draeniau,'reens' a ffosydd
4. Y morglawdd
5. Y casgliadau mawr o adar dŵr ac adar hirgoes sy'n ymweld â'r fflatiau llaid a'r gwlyptiroedd arfordirol a'r heidiau enfawr o ddrudwy
6. Patrwm anheddu gwasgaredig
7. Mae dinasoedd a threfi bywiog o amgylch ymyl y Gwastadeddau yn atgyfnerthu eu hymdeimlad cryf o lonydddwch, pellenigrwydd a gwylltineb i ffwrdd o feddiannaeth ddynol mewn llawer o leoedd.

<u>Ardal Cymeriad Morol</u>

Mae Ardal Cymeriad Morol 29 yn cynnwys y rhan o Aber Afon Hafren sydd yng Nghymru, sy'n ymestyn o'r ffin genedlaethol â Lloegr i gyrion gorllewinol y Barri.  Ymhlith y nodweddion allweddol a geir yn ardal yr Aber yn nyfroedd Cymru mae'r canlynol:

- Cerrig Triassig a Jurasig sydd yn y golwg ar hyd y lan, sy'n creu ardal rynglanwol greigiog lydan. Mewn mannau eraill, diffinnir y lan gan fflatiau llanw helaeth.
- Y fflatiau llanw, morfeydd heli a'r glaswelltiroedd gwlyb helaeth sydd o bwys rhyngwladol ar gyfer adar gwyllt sy'n gaeafu ac adar mudol.
- Hanes hir o adfer tir arfordirol, argloddiau a ffosydd, yn arbennig gwastadeddau helaeth Gwent a Gwynllŵg.
- Morlin gwastad â Llwybr Arfordir Cymru yn gefn iddo, sy'n rhoi golygfeydd hir o Fôr Hafren.  Mae ceir sy'n teithio ar hyd yr M4 ar draws Pont Hafren hefyd yn edrych dros yr ardal.
- Golygfeydd o ddatblygiadau masnachol a diwydiannol a datblygiadau porthladd mawr yng Nghaerdydd ac Avonmouth, yn ogystal â'r ddwy bont ffordd, sy'n cyferbynnu â'r golygfeydd agored a gwag sy'n nodweddu Gwastadeddau Gwent.

Hamdden ac Adloniant

- Mae llawer o leoedd a chyrchfannau nodedig, pyrth allweddol a prif lwybrau mynediad sy'n cynnig cyfleoedd i bobl ymgysylltu â nodweddion arbennig tirwedd Gwastadeddau Gwent, eu profi a'u gwerthfawrogi.
- Defnyddir tirwedd Gwastadeddau Gwent gan gymunedau lleol ac ymwelwyr ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau hamdden ac adloniant awyr agored, yn arbennig cerdded, beicio a gwylio adar.  Mae cyfleusterau a chyrchfannau yn cynnwys llwybrau hamdden (megis Llwybr Arfordir Cymru), parciau gwledig (megis Parc Gwledig Tŷ Tredegar), gwarchodfeydd natur (megis Gwlyptiroedd Casnewydd), pentrefi, Llyn Hendre a'r Bont Gludo.

**Asedau Diwylliannol a Threftadaeth**

**Perthnasedd i'r canllawiau:**

Mae'r amgylchedd hanesyddol yn cynnwys olion archaeolegol, strwythurau a thirweddau creiriol sy'n gysylltiedig â gweithgarwch dynol yn y gorffennol.  Mae gan Wastadeddau Gwent lawer o asedau hanesyddol sy'n adlewyrchu hanes hir yr ardal o feddiannaeth ddynol ac mae hyn yn helpu i sicrhau bod yr ardal yn lle deniadol i fyw, fel cyrchfan i dwristiaid a'i bod yn rhan ganolog o hunaniaeth ddiwylliannol Cymru.

Mae canllawiau cynllunio Gwastadeddau Gwent yn debygol o chwarae rôl bwysig o ran helpu i warchod a gwella amgylchedd ac asedau hanesyddol yr ardal.  Gallai gwaith datblygu newydd ar y Gwastadeddau gael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar yr amgylchedd hanesyddol, asedau treftadaeth a'u lleoliadau.

**Amodau a thueddiadau sylfaenol:**

Tirwedd Hanesyddol

Cydnabyddir pwysigrwydd cenedlaethol Gwastadeddau Gwent drwy eu cynnwys ar y Gofrestr o Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru fel Tirwedd Hanesyddol o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol, sy'n cynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yr ardal ac ardal gadwraeth Redwick.

Parciau a Gerddi Hanesyddol

Er bod Gwastadeddau Gwent wedi'u nodi fel ardal o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol, dim ond 4 parc a gardd hanesyddol ffurfiol sydd ganddi.  Mae'r parciau a'r gerddi hyn yn cynnwys Tŷ a Pharc Tredegar, sy'n ystad hanesyddol adnabyddus â gerddi hardd.

Adeiladau Rhestredig

Mae 37 o adeiladau rhestredig statudol ar Wastadeddau Gwent (y mae saith ohonynt yn rhestredig Gradd 1), sydd wedi'u dynodi'n adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig.  Hefyd, ceir cryn nifer o adeiladau a strwythurau hanesyddol eraill sydd wedi'u cofnodi ar y Gwastadeddau, ond nad ydynt wedi'u cynnwys ar y rhestrau statudol cenedlaethol na rhestrau lleol.  Mae'r adeiladau hyn yn amrywio o ffermdai ac adeiladau fferm i felinau, bythynnod, pontydd a seidins.

Henebion Cofrestredig

Ceir 14 o henebion cofrestredig ar Wastadeddau Gwent sy'n safleoedd a henebion archaeolegol dynodedig o bwysigrwydd cenedlaethol.  Mae'r henebion hyn yn cynnwys safle tŷ Goldcliff sydd â ffos o'i amgylch.


Ardaloedd Cadwraeth

Mae pedair ardal gadwraeth ar Wastadeddau Gwent sydd wedi'u dynodi'n ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig.  Mae Redwick, sef y pentref cnewyllol mwyaf ar y Gwastadeddau, yn Ardal Gadwraeth ddynodedig.  Ceir ardaloedd cadwraeth mewn rhannau o Gas-gwent, Mathern a Rogiet.

Enwau Lleoedd

Mae gan Wastadeddau Gwent eu ‘Levels Lingo’ neu eirfa leol eu hunain sy'n darparu gwybodaeth am darddiad y dirwedd dros 1800 o flynyddoedd yn ôl a sut mae'n parhau i gael ei rheoli heddiw.  Mae rhai enghreifftiau o'r ‘lingo’ yn cynnwys ‘back-fen’, ‘gout’, ‘grips’ a ‘stank’.

Ffigur B-12 Aseddau Treftadaeth Dynodedig ar Wastadeddau Gwent




*Ffynhonnell: Gwent Levels Landscape Character Assessment, Ebrill 2017*

**Bylchau mewn Data:**

Nid oes unrhyw fylchau mewn data.

**Problemau Allweddol sy'n berthnasol i Ganllawiau Cynllunio Gwastadeddau Gwent a Chyfleoedd i Fynd i'r Afael â Nhw**

Problemau Allweddol

- Mae datblygiadau trefol a chynlluniau seilwaith newydd ar Wastadeddau Gwent yn cael effaith sylweddol ar dirwedd hanesyddol, dynodiadau ecolegol a nodweddion gweledol a synhwyraidd yr ardal, yn arbennig ymdeimlad cryf yr ardal o lonyddwch a'i natur anghysbell.
- Mae'r ffosydd draenio a'r 'reens' ar Wastadeddau Gwent, sy'n nodweddion tirwedd unigryw, yn agored i niwed oherwydd diffyg mesurau rheoli a chynnal a chadw priodol, newidiadau i systemau draenio, newid hinsawdd/tywydd eithafol, pwysau gwaith datblygu, newidiadau i ddefnydd tir ac arferion defnydd tir.
- Mae cynnydd yn lefel y môr a llifogydd tymhorol ac annhymhorol sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd yn arwain at ‘wasgfa arfordirol’ a heriau o ran cynhyrchiant amaethyddol ac mae'n peri risg i gartrefi a bywoliaethau. Amcangyfrifir y caiff 11% o'r cynefin morfa heli ei golli o ganlyniad i wasgfa arfordirol erbyn 2055

- Mae gweithgareddau'r sector amaethyddol yn cyfrannu at newid tirwedd Gwastadeddau Gwent sy'n arwain at arferion amaethyddol dwysach a gorbori ar y morfa heli, risg gynyddol o lifogydd (drwy ddiffyg mesurau rheoli ffosydd) a dŵr o ansawdd is

Cyfleoedd

- Dylai'r canllawiau nodi cyfleoedd i lywio a rheoli cynigion datblygu newydd ar Wastadeddau Gwent er mwyn helpu i ddiogelu nodweddion hanesyddol a thirwedd yr ardal, hyrwyddo'r Gymraeg a gwarchod dynodiadau ecolegol yr ardal, er budd cymunedau lleol ac ymwelwyr, ymhlith pethau eraill.
- Dylai'r canllawiau geisio diogelu ffosydd draenio, 'reens' a chynefinoedd cynhaliol ar Wastadeddau Gwent er mwyn gwella cysylltedd â safleoedd craidd o werth ecolegol. Gallai hyn gynnwys gofyniad i fesurau rheoli a chynnal a chadw priodol ar gyfer y system ddraenio fod yn rhan o'r ystyriaeth a roddir i unrhyw fesurau rheoli defnydd tir a chynigion ar gyfer defnydd tir yn y dyfodol.
- Dylai'r canllawiau nodi bod y ffosydd draenio a'r 'reens' ar Wastadeddau Gwent, sy'n nodweddion tir unigryw, yn agored i newid hinsawdd a thywydd eithafol. Dylai cynigion ar gyfer rheoli a datblygu tir ystyried sut y gallent helpu i fynd i'r afael â goblygiadau newid hinsawdd
- Dylai'r canllawiau hyrwyddo a diogelu cynaliadwyedd hirdymor Gwastadeddau Gwent â'i amgylchedd morol gwarchodedig cyffiniol a rhyngddibynnol er mwyn mynd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd a'r pwysau o gynigion datblygu posibl
- Mae'n bosibl y bydd y canllawiau yn nodi cyfleoedd i helpu hwyluso cymuned ac economi amaethyddol hyfyw a bywiog drwy hyrwyddo system cyflenwi bwyd lleol ar Wastadeddau Gwent sy'n cyd-fynd â'r gwaith o hyrwyddo, cynnal a chadw a rheoli'r ardal.

## Nod Llesiant: Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

Mae'r adran hon yn darparu data sylfaenol sy'n ymwneud â'r nod llesiant canlynol:

*‘Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang’*

Mae a wnelo'r data yn bennaf â'r canlynol:

- Allyriadau nwyon tŷ gwydr
- Cynhyrchu ynni

**Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr:**

**Perthnasedd i'r canllawiau:**

Mae'r defnydd o ynni ac allyriadau nwyon tŷ gwydr yn digwydd yn lleol drwy gartrefi, busnesau a thrafnidiaeth ond maent yn cyfrannu at ganlyniadau byd-eang.

Mae canllawiau cynllunio Gwastadeddau Gwent yn debygol o chwarae rôl allweddol o ran lleihau'r defnydd o ynni ac allyriadau nwyon tŷ gwydr drwy ddiogelu systemau storio carbon, hwyluso atebion ynni gwyrdd priodol mewn lleoliadau priodol a lleihau allyriadau o gerbydau drwy annog cerdded a beicio ar Wastadeddau Gwent ac o'u hamgylch.

**Amodau a thueddiadau sylfaenol:**

Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr

Yn 2020, cyfanswm yr allyriadau yn Sir Fynwy oedd 501.4 ktCO2 gyda mwy na hanner yr holl allyriadau (51.9%) yn dod o drafnidiaeth. Roedd cyfanswm yr allyriadau mewn awdurdodau eraill sy'n rhychwantu tirwedd Gwastadeddau Gwent yn uwch yng Nghaerdydd ar 1647 kt ac yng Nghasnewydd ar tua 7.4 t-capita (yn 2018). Mae hyn yn cyfateb i tua 4.5-5.3 tunnell o CO2 fesul trigolyn ledled tirwedd ehangach y Gwastadeddau. Prif achos llygredd aer ym mhob awdurdod yw allyriadau o draffig ffyrdd *(Cafwyd yr holl ffigurau o Adroddiadau Cwmpasu CDLlau diweddar).*

**Cynhyrchu Ynni:**

**Perthnasedd i'r canllawiau:**

Er bod prif werth traddodiadol y tir ar Wastadeddau Gwent i'w gael mewn bioamrywiaeth, amaethyddiaeth a gweithgarwch rheoli llifogydd, mae pwysau cynyddol ar y dirwedd i gynnig cyfleoedd ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy, yn arbennig o geisiadau a datblygiadau sy'n ymwneud â ffermydd solar.

Mae canllawiau cynllunio Gwastadeddau Gwent yn debygol o chwarae rôl allweddol o ran rheoli a llywio penderfyniadau ar geisiadau cynllunio er mwyn sicrhau y caiff rhwydweithiau ecolegol eu diogelu ac na fydd gwaith datblygu, gan gynnwys datblygiadau ynni, yn amharu'n ormodol arnynt yn y dyfodol,

**Amodau a thueddiadau sylfaenol:**

Datblygiadau Solar

Mae chwe chais ar gyfer ffermydd solar newydd ar Wastadeddau Gwent sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd neu y disgwylir iddynt gael eu hystyried, o bosibl, fel rhan o'r broses gynllunio. Gyda'i gilydd, mae'r chwe chais yn cynnwys cyfanswm o 1,679 erw, yn ogystal â'r 260 erw ar yr unig fferm solar sydd eisoes wedi cael ei hadeiladu ar y Gwastadeddau i'r de o Lanwern. Mae Gwastadeddau Gwent yn ddeniadol i ddatblygwyr ar gyfer cynlluniau solar am sawl rheswm, ond yn bennaf oherwydd y canlynol:

- Tirwedd wastad ac agored yr ardal

- Y ffaith ei bod yn agos at y grid cenedlaethol
- Y ffaith ei bod yn agos at draffordd yr M4
- Cydweddoldeb canfyddedig cydleoli ffermydd solar ac anifeiliaid sy'n pori.

Er y bydd ffermydd solar yn helpu i gyfrannu at gyflawni targedau ynni adnewyddadwy Cymru i sicrhau bod 70% o'n defnydd o drydan yn dod o ffynonellau ynni adnewyddadwy erbyn 2030, mae'r dystiolaeth yn dangos bod gwaith datblygu gan gynnwys datblygiadau solar, yn cael effaith negyddol ar dirwedd Gwastadeddau Gwent. Mae gwaith datblygu ar y dirwedd ecolegol sensitif hon yn arwain at golli, diraddio a darnio cynefinoedd ac yn gadel safleoedd mewn cyflwr gwaeth ar ôl y cam adeiladu o gymharu â'u cyflwr cyn y cam adeiladu pan gânt eu hasesu gan ddefnyddio priodoleddau DECCA *(Cafwyd yr wybodaeth o Gwent Levels Post Construction Monitoring Report, Gorffennaf 2024).*

<u>Datblygiadau Gwynt</u>

Ar y cyfan, nid yw Gwastadeddau Gwent yn ddeniadol i ffermydd gwynt mawr oherwydd eu hardal isel â chyflymderau gwynt cyfartalog isel. Ystyrir hefyd ei fod yn lleoliad llai addas, ar y cyfan, oherwydd ei dopograffeg agored; byddai unrhyw dyrbinau yn cael effaith weledol sylweddol ar draws y dirwedd.

**Bylchau mewn Data:**

Mae wedi bod yn anodd nodi data ar lefel awdurdod lleol ar ffigurau cynhyrchu ynni presennol yn ôl math o danwydd.

**Problemau Allweddol sy'n berthnasol i Ganllawiau Cynllunio Gwastadeddau Gwent a Chyfleoedd i Fynd i'r Afael â Nhw**

<u>Problemau Allweddol</u>

- Cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol a cheisio lleihau allyriadau carbon ledled tirwedd Gwastadeddau Gwent.
- Mae gweithgarwch draenio, gwaith datblygu a newid defnydd tir yn peri risg i storfeydd carbon.
- Mae tirwedd Gwastadeddau Gwent yn agored i'r potensial ar gyfer rhagor o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy mawr – yn arbennig cynlluniau solar, ond hefyd ddatblygiadau ynni gwynt ac amrediad llanw.

<u>Cyfleoedd</u>

- Mae'n bosibl y bydd y canllawiau yn helpu i leihau allyriadau carbon ledled Gwastadeddau Gwent drwy hyrwyddo cymysgedd o ymdrechion cadwraeth, gweithredu cymunedol a mesurau rheoli tir cynaliadwy.
- Mae'n bosibl y bydd y canllawiau yn cefnogi'r gwaith o reoli, diogelu a gwella storfeydd carbon ledled tirwedd Gwastadeddau Gwent.

- Mae'n bosibl y bydd angen i'r canllawiau nodi a oes cyfleoedd a allai gydbwyso datblygiadau ynni adnewyddadwy â gwarchod nodweddion arbennig tirwedd Gwastadeddau Gwent.

**Llyfryddiaeth**

Dogfennau nad ydynt wedi'u rhestru eisoes yn Atodiad A ond y cyfeiriwyd atynt yn y ddogfen:


- ***Cyngor Caerdydd a Levett-Therivel*** *(2021).* Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig Drafft o Adolygiad Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd: Adroddiad Cwmpasu. Cyngor Caerdydd. https://www.cdllcaerdydd.co.uk/wp-content/uploads/Draft-ISA-Scoping-Report-May-2021-Welsh.pdf

- ***Cyngor Caerdydd a Levett-Therivel*** *(2021).* Updated Integrated Sustainability Appraisal Scoping Report – August 2021. Cyngor Caerdydd. https://cardiff.moderngov.co.uk/documents/s51553/Appendix%202%20Integrated%20Sustainability%20Appraisal%20Scoping%20Report.pdf

- ***Prifddinas-Ranbarth Caerdydd*** *(2024).* Asesiad rhanbarthol o dwf a mudo yn y dyfodol ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd – Mai 2024. Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

- ***Cyngor Sir Fynwy*** *(2022).* Sustainability Appraisal Scoping Report Appendix 1 – Review of Plans, Policies, Programmes and Strategies. Cyngor Sir Fynwy. https://www.monmouthshire.gov.uk/app/uploads/2022/12/Appendix-1-PPPS-Nov-2022.pdf

- ***Cyngor Dinas Casnewydd*** *(2021).* Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig – Adroddiad Cwmpasu. Cyngor Dinas Casnewydd. https://newportrldp.co.uk/cy/